Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mawrth 16 Tachwedd 1999

Tuesday 16 November 1999

Cynnwys
Contents

3 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd
Questions to the First Secretary

22 Datganiad Busnes
Business Statement

24 Cymeradwyo Rheoliadau Cymorth Trwsio Cartref (Estyn) (Cymru) 1999
Approval of the Home Repairs Assistance (Extension) (Wales) Regulations 1999

31 Darlledu yng Nghymru
Broadcasting in Wales

77 Dadl Fer: Rôl y Brifddinas
Short Debate: The Role of the Capital City

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair

Y Llywydd: Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r anawsterau technoleg gwybodaeth yn adeilad arall y Cynulliad ar hyn o bryd. Deallaf fod gwe'r Siambr yn weithredol i'r mwyafrif o Aelodau. Nid yw'r Trefnydd wedi gallu agor ei Ddatganiad Busnes ar we'r Siambr hyd yn hyn. O ganlyniad, bydd yn darllen y Datganiad Busnes yn fanylach nag arfer. Os yw'r dechnoleg gwybodaeth yn peri anhawster i unrhyw un, hoffwn eich sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i ddatrys y broblem cyn gynted ag y bo modd.

The Presiding Officer: I call the National Assembly for Wales to order. Members will be aware of the current information technology difficulties in the Assembly's other building. I understand that the Chamberweb is operational for most Members. The Business Secretary has not yet been able to access his Business Statement on the Chamberweb. As a result, he will read the Business Statement in more detail than usual. If anybody has difficulties with the information technology, I wish to assure you that every effort is being made to solve the problem as soon as possible.

Bydd yr anawsterau technolegol hefyd yn effeithio ar Gofnod y Trafodion. Yr wyf yn sicr y byddwch yn deall felly os na fydd modd inni gadw at y drefn arferol o gynhyrchu'r Cofnod o fewn 24 awr. Gofynnaf am amynedd yn y sefyllfa hon a gobeithiaf y bydd y dŵr yn sychu ym Mharc Cathays yn gynt nag y tybiwn ar hyn o bryd.

The technological difficulties will also affect the Record of Proceedings. I am sure that you will therefore understand if we will not be able to keep to the normal timetable of producing the Record within 24 hours. I ask for your forbearance in this situation and I hope that the water will dry out in Cathays Park sooner than we think at present.

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd
Questions to the First Secretary

Pensiynwyr yng Nghymru
Pensioners in Wales

Q1 Jenny Randerson: What percentage of pensioners in Wales live in poverty, as defined by official indicators? (OAQ1989JS)

C1 Jenny Randerson: Pa ganran o bensiynwyr yng Nghymru sydd yn byw mewn tlodi, fel y diffinnir hynny gan y dangosyddion swyddogol? (OAQ1989JS)

The First Secretary: There is no official indicator of poverty at present. We have commissioned Oxford University to produce a new index of deprivation for Wales. That will include a range of measures of low income, including one for pensioner households, if feasible. However, we must recognise that poverty among pensioners has several dimensions and can be relative as well as absolute. The data in the new index will be available at ward and electoral division levels and will be capable of being updated regularly.

Y Prif Ysgrifennydd: Nid oes dangosydd swyddogol o dlodi ar hyn o bryd. Yr ydym wedi comisiynu Prifysgol Rhydychen i gynhyrchu mynegai amddifadedd newydd ar gyfer Cymru. Bydd hynny'n cynnwys amryw o fesuryddion o incwm isel, ac un ohonynt ar gyfer teuluoedd o bensiynwyr, os yw hynny'n bosibl. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod bod sawl dimensiwn i dlodi ymysg pensiynwyr ac y gall fod yn gymharol yn ogystal ag yn ddiamod. Bydd y data yn y mynegai newydd ar gael ar lefelau'r ward a'r rhanbarth etholiadol a bydd modd eu diweddaru'n rheolaidd.

Jenny Randerson: When researching this

Jenny Randerson: Wrth ymchwilio i'r mater

issue, I was concerned to find that these figures were neither collected already nor available generally. I therefore welcome your comments. We need the figures in order to make an impact on poverty. I am particularly concerned about the need to tackle fuel poverty among pensioners. Do you agree that the recent rise in the basic state pension—just 75 pence a week—will force more pensioners in Wales to rely on means-tested benefits, driving them below the poverty line, however that is defined? Do you also agree that we need to make representations to the Secretary of State for Social Security on this issue?

hwn, yr oedd yn ofid imi ddarganfod nad oedd y ffigurau hyn wedi eu casglu'n barod ac nad oeddent ar gael yn gyffredinol. Croesawaf eich sylwadau, felly. Mae arnom angen y ffigurau er mwyn gwneud argraff ar dlodi. Yr wyf yn arbennig o bryderus ynghylch yr angen i ymdrin â thlodi tanwydd ymysg pensiynwyr. A gytunwch y bydd y cynnydd diweddar yn y pensiwn gwladol sylfaenol—dim ond 75 ceiniog yr wythnos—yn gorfodi mwy o bensiynwyr yng Nghymru i ddibynnu ar fudd-daliadau a geir drwy brawf moddion, gan eu gyrru'n is na'r llinell dlodi, sut bynnag y diffinnir honno? A gytunwch hefyd fod angen inni gyflwyno sylwadau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Nawdd Cymdeithasol ar y mater hwn?

The First Secretary: It is not a question of figures not being available; they did not exist in that form. The fact that we have put money into research, to define and record pensioner poverty as a part of overall poverty reflects our commitment, made before the election and the establishment of the Assembly, to try to deal with real problems. The way that we looked at relative disadvantage in communities across Wales and published figures in order to expose and address the problems, has played a major part in laying the groundwork for the effective working of the Assembly. It has shown the problems in Merthyr Tydfil and many other parts of Wales.

Y Prif Ysgrifennydd: Nid mater o ffigurau'n peidio â bod ar gael yw hyn; nid oeddent yn bod ar y ffurf honno. Mae'r ffaith ein bod wedi rhoi arian ar gyfer ymchwil, i ddiffinio a chofnodi tlodi ymysg pensiynwyr fel rhan o dlodi cyffredinol yn arwydd o'r ymrwymiad a roesom, cyn yr etholiad a sefydlu'r Cynulliad, i geisio ymdrin â phroblemau gwirioneddol. Mae'r modd y bu inni edrych ar amddifadedd cymharol mewn cymunedau ym mhob cwr o Gymru a chyhoeddi ffigurau er mwyn datgelu ac ymdrin â'r problemau, wedi chwarae rhan bwysig wrth osod y sylfeini ar gyfer gwaith effeithiol y Cynulliad. Mae wedi amlygu'r problemau ym Merthyr Tudful ac mewn llawer o rannau eraill o Gymru.

The basic rise in state pension has to be viewed and assessed in the context of the other measures that have been taken to help pensioners. It is a priority for this Government to improve the energy cost situation, as this is of particular advantage to pensioners. The one-off payments available to pensioners have been increased considerably. You must consider all the measures that this Government is taking to ease pensioners' plight and to ensure a decent quality of life for all.

Rhaid ystyried ac asesu'r cynnydd sylfaenol yn y pensiwn gwladol yng nghyd-destun mesurau eraill a weithredwyd i helpu pensiynwyr. Mae'n flaenoriaeth gan y Llywodraeth hon wella'r sefyllfa costau ynni, gan fod hyn o fantais arbennig i bensiynwyr. Bu cynnydd sylweddol yn y taliadau unigol sydd ar gael i bensiynwyr. Rhaid ichi ystyried yr holl fesurau a weithredir gan y Llywodraeth hon i wella stad pensiynwyr a sicrhau ansawdd bywyd gweddus i bawb.

Helen Mary Jones: I welcome the First Secretary's statement on the provision of more accurate information about poverty levels and on what constitutes poverty in our communities. Does he agree that one problem relating to pensioner poverty is the reluctance

Helen Mary Jones: Croesawaf ddatganiad y Prif Ysgrifennydd ar ddarparu gwybodaeth gywirach am lefelau tlodi a'r hyn sydd yn creu tlodi yn ein cymunedau. A yw'n cytuno mai un broblem sydd yn gysylltiedig â thlodi pensiynwyr yw amharodrwydd neu anallu

or inability of pensioners to take up benefits to which they may be entitled? In that context, would the First Secretary consider asking his officials to talk to the national association of the Citizens Advice Bureaux with a view to developing a national benefits uptake project for Wales? That would assist in persuading pensioners that they should not be ashamed to take means-tested benefits. When this idea was raised previously, it was broadly supported by Jane Hutt.

pensiynwyr i fanteisio ar fudd-daliadau y gallai fod ganddynt hawl i'w derbyn? Yn y cyd-destun hwnnw, a yw'r Prif Ysgrifennydd yn fodlon ystyried gofyn i'w swyddogion siarad â chymdeithas genedlaethol y Canolfannau Cynghori gyda golwg ar ddatblygu prosiect derbyn budd-daliadau cenedlaethol i Gymru? Byddai hynny o gymorth i berswadio pensiynwyr na ddylai fod arnynt gywilydd derbyn budd-daliadau a geir drwy brawf moddion. Pan godwyd y syniad hwn yn flaenorol, rhoddwyd cefnogaeth gyffredinol iddo gan Jane Hutt.

The First Secretary: The reluctance to take up entitlements is part of a self-sufficient attitude that still persists among pensioners. I agree that we should encourage people to take up the help available to them and to which they are entitled. I also think that it is part of the Assembly's remit to take an interest in these matters. However, where appropriate, we should press Government departments to promote uptake rather than assuming that it is our job to do everything. Voluntary organisations, such as the Citizens Advice Bureaux service—with which I have had a long involvement—as well as Government departments should look at the whole issue in the round and we should all encourage pensioners to take up the benefits available to them.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae amharodrwydd i dderbyn budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt yn rhan o feddylfryd hunangynhaliol a geir o hyd ymysg pensiynwyr. Cytunaf y dylem annog pobl i dderbyn y cymorth sydd ar gael iddynt ac y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Credaf hefyd fod ymddiddori yn y materion hyn yn rhan o gylch gwaith y Cynulliad. Fodd bynnag, lle y bo hynny'n briodol, dylem bwyso ar adrannau'r Llywodraeth i hybu'r derbyn ar fudd-daliadau yn hytrach na rhagdybio mai ni a ddylai wneud popeth. Dylai mudiadau gwirfoddol, fel gwasanaeth y Canolfannau Cynghori—yr wyf yn gysylltiedg ag ef ers amser maith—yn ogystal ag adrannau'r Llywodraeth edrych ar bob agwedd ar y mater a dylem oll annog pensiynwyr i dderbyn y budd-daliadau sydd ar gael iddynt.

Huw Lewis: We are all concerned about this issue and I am sure that you, as well as I, would look forward to further measures to aid pensioners, such as the recently-announced free television licences, winter payments and Welsh Labour's pledge of free bus passes for pensioners. However, many of the pensioners in most need are former miners and steelworkers, at least in my and other Valleys constituencies. Alun, would you join me in wholeheartedly condemning the recent remarks made by the leader of Plaid Cymru, referring to golden handshakes being offered to redundant miners? These comments literally—

Huw Lewis: Yr ydym oll yn bryderus ynghylch y mater hwn ac yr wyf yn sicr y byddech, fel minnau, yn edrych ymlaen at fesurau pellach i gynorthwyo pensiynwyr, fel y trwyddedau teledu rhad ac am ddim a gyhoeddwyd yn ddiweddar, y taliadau gaeaf ac addewid Llafur Cymru o drwyddedau bws rhad ac am ddim i bensiynwyr. Fodd bynnag, cyn-lowyr a chyn-weithwyr dur yw llawer o'r pensiynwyr mwyaf anghenus, yn f'etholaeth i ac etholaethau eraill yn y Cymoedd, beth bynnag. Alun, a ydych fel minnau'n llwyr gondemnio'r sylwadau a wnaethpwyd yn ddiweddar gan arweinydd Plaid Cymru, wrth gyfeirio at gynnig cildyrnau aur i lowyr a ddiswyddwyd? Mae'r sylwadau hyn yn llythrennol—

The Presiding Officer: Plaid Cymru does not rise directly out of this question.

Y Llywydd: Nid yw Plaid Cymru'n codi'n uniongyrchol o'r cwestiwn hwn.

Huw Lewis: It does in my constituency. Does Alun agree that such comments are a slap in the face for pensioners who are ex-miners?

Huw Lewis: Mae hi yn f’etholaeth i. A yw Alun yn cytuno bod sylwadau o’r fath yn sarhad ar bensiynwyr sydd yn gyn-lowyr?

The First Secretary: It is important that we tackle poverty among pensioners, whether they are former miners, steelworkers or formerly of any other occupation and whether they live in urban or rural areas. Poverty affects individuals and concerns people, not statistics. The Assembly must be concerned with poverty’s impact wherever it falls. The issue of television licences has been a running sore and the main pensioner issue over the 12 years that I have been a Member of Parliament. There seemed to be unfairness in the previous regulations. The small gesture of free television licences will be regarded as an important one in terms of being fair to pensioners. Free bus travel for pensioners is an important commitment on which I am determined that we shall deliver. We must tackle pensioners’ lack of freedom to move around if they are in poverty.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae’n bwysig inni fynd i’r afael â thlodi ymysg pensiynwyr, pa un a ydynt yn gyn-lowyr, yn gyn-weithwyr dur neu’n gyn-weithwyr mewn unrhyw alwedigaeth arall neu pa un a ydynt yn byw mewn ardal drefol neu yng nghefn gwlad. Mae tlodi’n effeithio ar unigolion ac yn ymwneud â phobl, nid ystadegau. Rhaid i’r Cynulliad ymboeni ynghylch effaith tlodi ym mha le bynnag y mae’n digwydd. Bu mater trwyddedau teledu yn ofid ers amser maith a’r prif fater i bensiynwyr dros y 12 mlynedd y bûm yn Aelod Seneddol. Yr oedd yn ymddangos bod annhegwch yn y rheoliadau blaenorol. Fe welir yr arwydd bychan o roi trwyddedau teledu rhad ac am ddim yn un pwysig o ran bod yn deg â phensiynwyr. Mae cludiant am ddim ar fysiau i bensiynwyr yn ymrwymiad pwysig yr wyf yn benderfynol y byddwn yn ei gyflawni. Rhaid inni ymdrin â diffyg rhyddid pensiynwyr i symud o gwmpas os ydynt mewn tlodi.

Cronfa Gymdeithasol Ewrop (Amcan 2)
European Social Fund (Objective 2)

Q2 Janet Davies: What discussions has the First Secretary had with Treasury Ministers to ensure that the United Kingdom does not, in the future, increase European Union restrictions for applications to the European social fund from organisations within the Objective 2 area? (OAQ2003JS)

C2 Janet Davies: Pa drafod a fu rhwng y Prif Ysgrifennydd a Gweinidogion y Trysorlys er mwyn sicrhau na fydd y Deyrnas Unedig, yn y dyfodol, yn cynyddu cyfyngiadau’r Undeb Ewropeaidd ar geisiadau am arian o gronfa gymdeithasol Ewrop gan sefydliadau o fewn ardaloedd Amcan 2? (OAQ2003JS)

The First Secretary: I am uncertain of what such discussions might concern, Janet. If restrictions result from European Union decisions, discussions with the Treasury are unlikely to help. The east Wales partnership is working on the draft single programming document for Objective 2 areas and will reach a conclusion shortly on whether the programme will include elements funded by the European social fund. In principle, organisations in Objective 2 areas will be eligible to apply to the European social fund under the Objective 3 operational programme for east Wales. I am unsure if that is what you are getting at in your question.

Y Prif Ysgrifennydd: Nid wyf yn sicr o’r hyn y gellid ei drafod, Janet. Os daw cyfyngiadau o ganlyniad i benderfyniadau gan yr Undeb Ewropeaidd, nid yw’n debygol y byddai trafod â’r Trysorlys o gymorth. Mae partneriaeth dwyrain Cymru’n gweithio ar y ddogfen raglennu sengl ddrafft ar gyfer ardaloedd Amcan 2 a bydd yn cyrraedd casgliad cyn hir ynghylch a fydd y rhaglen yn cynnwys elfennau a gyllidir gan gronfa gymdeithasol Ewrop. Mewn egwyddor, bydd mudiadau yn ardaloedd Amcan 2 yn gymwys i ymgeisio i gronfa gymdeithasol Ewrop o dan y rhaglen weithredol Amcan 3 ar gyfer dwyrain Cymru. Nid wyf yn sicr ai hynny

sydd gennych dan sylw yn eich cwestiwn.

Janet Davies: In the present tranche, organisations such as the Llanharan drop-in centre do not have the right to apply to the European social fund due to restrictions from the London Government, even though the centre is within the Objective 2 area and the coalfield communities area. Given that the European Union is all too often blamed for UK Government red tape and exclusions, I hoped that it would be possible to make clear and transparent for the coming tranche of funds whether regulations are imposed by the European Commission or the London Government.

Janet Davies: Gyda'r dafell bresennol, nid oes hawl gan fudiadau fel canolfan galw-heibio Llanharan i ymgeisio i gronfa gymdeithasol Ewrop oherwydd y cyfyngiadau gan Lywodraeth Llundain, er bod y ganolfan o fewn ardal Amcan 2 ac ardal cymunedau'r maes glo. O dderbyn bod yr Undeb Ewropeaidd yn cael y bai'n llawer rhy aml am fiwrocratiaeth a gwaharddiadau Llywodraeth y DU, yr oeddwn yn gobeithio y byddai modd dweud yn eglur ac yn dryloyw am y dafell o arian sydd ar ddod pa un a osodir y rheoliadau gan y Comisiwn Ewropeaidd neu gan Lywodraeth Llundain.

2:08 p.m.

The First Secretary: I ask you, please, to refer to us as the United Kingdom Government. The Government happens to be located in London, just as this is the Government of Wales although we are located in Cardiff. It is important to be clear from where restrictions arise. Over the years, I have noticed a tendency for Europe to blame the UK Government and vice versa. The former was often justified under the previous Government, but not so much under the present Government. I would be happy to look at any specific regulations to which you refer, if you were to give me details in writing, and see where the obstacle lies. The obstacle might lie in an application, which is inappropriate for one type of application. Without knowing more detail, I cannot respond. However, I would be happy to do so if you were to give me the details.

Y Prif Ysgrifennydd: Gofynnaf ichi gyfeirio atom, os gwelwch yn dda, fel Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r Llywodraeth yn digwydd bod yn Llundain, yn yr un modd ag y gelwir hon yn Llywodraeth Cymru er mai yng Nghaerdydd yr ydym. Mae'n bwysig deall o ble y daw'r gwaharddiadau. Dros y blynyddoedd, sylwais ar duedd i Ewrop roi'r bai ar Lywodraeth y DU ac fel arall. Yr oedd cyfiawnhad dros y cyntaf o dan y Llywodraeth flaenorol, ond nid cymaint o dan y Llywodraeth bresennol. Byddwn yn falch o edrych ar unrhyw reoliadau penodol y cyfeiriwch atynt, os rhowch y manylion i mi mewn ysgrifen, i weld ym mha le y mae'r rhwystr. Efallai fod y rhwystr mewn cais, sydd yn amhriodol ar gyfer un math o gais. Heb wybod mwy o fanylion, ni allaf ymateb. Fodd bynnag, byddaf yn falch o wneud hynny os rhowch y manylion i mi.

Dafydd Wigley: Alun, a allwch ddweud wrthym beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt y trafodaethau sydd ar y gweill rhyngoch chi, yr Adran Fasnach a Diwydiant yn Llundain a'r Comisiwn Ewropeaidd, ynglŷn â'r ffiniau ar gyfer ardaloedd Amcan 2 ym Mhrydain?

Dafydd Wigley: Alun, can you tell us what the latest situation is as regards the discussions going on between yourself, the Department of Trade and Industry in London and the European Commission, regarding the boundaries for Objective 2 areas in Britain?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r drafodaeth honno yn parhau. Pan ddaw'r canlyniad, byddwn yn rhoi'r wybodaeth yn glir ac ar unwaith i Aelodau'r Cynulliad.

The First Secretary: That discussion is ongoing. When the outcome is clear, we will give the information clearly and immediately to Assembly Members.

Jonathan Morgan: As you are aware, First Secretary, the decision by your Executive to

Jonathan Morgan: Fel y gwyddoch, Brif Ysgrifennydd, mae penderfyniad y

exclude Barry from the new Objective 2 areas means that organisations in Barry will now not be able to enjoy the benefits of Objective 2 funding they enjoyed prior to the structural funds review. Do you have any plans to assist those organisations that are now at a disadvantage?

Weithrediaeth i gau allan y Barri o'r ardaloedd Amcan 2 newydd yn golygu na fydd modd bellach i fudiadau yn y Barri fanteisio ar arian Amcan 2 fel yr oeddent cyn yr adolygiad o'r cronfeydd strwythurol. A oes gennych fwriad i gynorthwyo'r mudiadau hynny sydd bellach dan anfantais?

The First Secretary: It is unfortunate that you should use the word 'exclude'. We have sought to include as much as possible of Wales within the various European funding boundaries. I think you are well aware that the European Commission's population reduction requirement has meant that all parts of the UK, including us, have had to go through a difficult process in examining what can be included in the new Objective 2 boundaries and within structural funds maps. It is a complex issue. Our job is to get the best for Wales. That means, inevitably, that some areas are in and others out. The definitions of which areas can be included under the configurations are complex. We have sought to do our best for the Vale of Glamorgan as we have for other parts of Wales, particularly in Cardiff, Newport and north-east Wales.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n drueni ichi ddefnyddio'r ymadrodd 'cau allan'. Yr ydym wedi ceisio cynnwys cymaint ag y bo modd o Gymru oddi mewn i'r gwahanol ffiniau ariannu Ewropeaidd. Credaf eich bod yn gwybod yn iawn fod gofyniad y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch gostyngiad mewn poblogaeth wedi golygu bod pob rhan o'r DU, a ni'n un ohonynt, wedi gorfod dilyn proses anodd wrth edrych ar yr hyn y gellir ei gynnwys oddi mewn i'r ffiniau Amcan 2 newydd a mapiau'r cronfeydd strwythurol. Mae'n fater cymhleth. Ein gwaith ni yw cael y gorau i Gymru. Mae hynny, o reidrwydd, yn golygu y bydd rhai ardaloedd y tu mewn ac eraill y tu allan. Mae'r diffiniadau o ba ardaloedd y gellir eu cynnwys o dan y cyfluniadau yn gymhleth. Yr ydym wedi ceisio gwneud ein gorau dros Fro Morgannwg yn ogystal â rhannau eraill o Gymru, yn enwedig yng Nghaerdydd, Casnewydd a gogledd-ddwyrain Cymru.

Kirsty Williams: Alun, will you and Rhodri Morgan do your best for the people of the 14 wards of south-east Powys that have also been excluded from the Objective 2 map? Those wards include Talgarth, a town struggling with the twin effects of the farming crisis and the loss of hundreds of jobs following the closure of the largest local employer. Will you comment on the fact that those wards have lost out while people in Herefordshire seem to have done better than they had expected?

Kirsty Williams: Alun, a wnewch chi a Rhodri Morgan eich gorau dros bobl y 14 ward yn ne-ddwyrain Powys sydd hefyd wedi eu cau allan o fap Amcan 2? Mae'r wardiau hynny'n cynnwys Talgarth, tref sydd yn ymgodymu â chyd-effaith yr argyfwng amaethyddol a cholli cannoedd o swyddi ar ôl cau gwaith y cyflogwr lleol mwyaf. A fyddwch gystal â gwneud sylw ar y ffaith bod y wardiau hynny ar eu colled er bod pobl yn Swydd Henffordd wedi gwneud yn well na'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl yn ôl pob golwg?

The First Secretary: I will comment on your emotive use of language. You said that people had been excluded and have lost out. You need to look at the submissions the UK made for the Objective 2 map. The European Commission has to approve the final map, which we hope it will do before Christmas. The Commission has asked questions about the proposals and the UK Government has to discuss those issues with the Commission.

Y Prif Ysgrifennydd: Fe wnaf sylw ar eich defnydd emosiynol o iaith. Dywedasoch fod pobl wedi eu cau allan a'u bod ar eu colled. Dylech edrych ar y cyflwyniadau a wnaeth y DU ar gyfer map Amcan 2. Rhaid i'r Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo'r map terfynol, a gobeithiwn y digwydd hynny cyn y Nadolig. Mae'r Comisiwn wedi gofyn cwestiynau am y cynigion a rhaid i Lywodraeth y DU drafod y materion hynny

The process is a dialogue in which our obligation is to try to do the best for Wales as a whole, as well as for specific regions of Wales. The proposals need to be seen in the context of the fact that the UK as a whole had to make a cut of one third in its total Objective 2 population coverage. It is not a question of exclusion, but of having to accept that there are regulations within which we must work in order to do the best for Wales. I assure you that we will continue to do our best for Wales.

gyda'r Comisiwn. Deialog yw'r broses a'n dyletswydd ni ynddi yw ceisio gwneud y gorau dros Gymru gyfan, yn ogystal â rhanbarthau penodol o Gymru. Rhaid gweld y cynigion yng nghyd-destun y ffaith y bu'n rhaid i'r DU gyfan dorri un rhan o dair o gyfanswm y boblogaeth sydd wedi ei chynnwys o dan Amcan 2. Nid yw'n fater o gau allan, ond o orfod derbyn bod rheoliadau y mae'n rhaid inni eu dilyn er mwyn gwneud y gorau dros Gymru. Fe'ch sicrhaf y byddwn yn parhau i wneud ein gorau dros Gymru.

Ystafell ar gyfer Myfyrio neu Addoli yn y Cynulliad
A Room for Reflection or Worship in the Assembly

Q3 David Melding: Does the First Secretary plan to set aside a room for reflection or worship within the National Assembly for Wales? (OAQ1997JS)

C3 David Melding: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu neilltuo ystafell yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer myfyrio neu addoli? (OAQ1997JS)

The First Secretary: Yes. As a practising Christian, I appreciate the value of a place for quiet contemplation and spiritual preparation in enabling us as individuals to deal better with all aspects of our lives, including our lives within this Chamber. I recently met representatives of the Welsh Prayer Breakfast Group and I discussed this issue last week with the Reverend Michael Rees, the Chaplain of the Lightship 2000 in Cardiff Bay, having previously discussed it with the Reverend Aled Edwards. I think everyone appreciates that the space available in this building, which is a temporary building, is constrained. However, we are gradually taking over the space due to us from the health organisation that previously occupied this building and I have asked officials to consider how to provide a room for a multi-faith chapel or quiet place when the next tranche of office space is handed over to us.

Y Prif Ysgrifennydd: Ydwyf. Fel Cristion mewn gair a gweithred, deallaf mor werthfawr yw cael lle i fyfyrio'n dawel ac ymbaratoi'n ysbrydol fel y gallwn ni fel unigolion drafod pob agwedd ar ein bywydau'n well, gan gynnwys ein bywydau yn y Siambr hon. Yn ddiweddar, cyfarfûm â chynrychiolwyr o Grŵp Brecwast Gweddi Cymru a thrafodais y mater hwn yr wythnos diwethaf gyda'r Parchedig Michael Rees, Caplan Goleulong 2000 ym Mae Caerdydd, ar ôl ei drafod cyn hynny gyda'r Parchedig Aled Edwards. Credaf fod pawb yn gwerthfawrogi mai prin yw'r lle sydd ar gael yn yr adeilad hwn, sydd yn adeilad dros dro. Fodd bynnag, yr ydym yn graddol gymryd yr ystafelloedd sydd i ddod i ni oddi wrth y corff iechyd oedd yn defnyddio'r adeilad hwn cynt a gofynnais i'r swyddogion ystyried sut i ddarparu ystafell ar gyfer capel aml-gred neu le tawel pan drosglwyddir y gyfran nesaf o ystafelloedd swyddfa i ni.

David Melding: I welcome the First Secretary's response and his emphasis on the multi-faith nature of any possible place of worship in the building. Will he involve all groups that have a contribution to make in this process?

David Melding: Croesawaf ymateb y Prif Ysgrifennydd a'i bwyslais ar natur aml-gred unrhyw fan addoli posibl yn yr adeilad. A fydd yn cynnwys yr holl grwpiau sydd â chyfraniad i'w wneud yn y broses hon?

The First Secretary: Yes. We want to engage with all groups that want to engage with the Assembly and to be positive about their involvement. I am pleased that

Y Prif Ysgrifennydd: Ydwyf. Yr ydym am gynnwys yr holl grwpiau sydd am ymwneud â'r Cynulliad ac am fod yn gadarnhaol ynghylch eu cyfraniad. Mae'n dda gennyf fod

organisations such as Cytûn have been so positive about wanting to understand and engage with the Assembly, as well as organisations from the voluntary sector, business and local government. On the day of the official opening of the Assembly, in the ceremonies at Llandaff Cathedral, representatives of other faiths were included. That is right. We must remember, for example, that a person such as Sheikh Said, one of the Muslim leaders in Wales, has spent his whole life in the service of the local community in nearby Butetown. I think I am right in saying that his father was a merchant seaman who was killed in service. Including all aspects of Welsh life and all cultures is not just about including those people who are new to this country, but those who have deep roots in Wales, often established over many generations. I welcome the way in which you framed the question.

mudiadau fel Cytûn mor gadarnhaol ynghylch dymuno deall a chysylltu â'r Cynulliad, yn ogystal â mudiadau o'r sector gwirfoddol, busnes a llywodraeth leol. Ar ddiwrnod agoriad swyddogol y Cynulliad, yn y defodau yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, fe gynhwyswyd cynrychiolwyr o grefyddau eraill. Mae hynny'n briodol. Rhaid inni gofio, er enghraifft, fod rhywun fel Sheikh Said, un o arweinwyr y Moslemiaid yng Nghymru, wedi treulio oes gyfan yn gwasanaethu'r gymuned leol yn Butetown gerllaw. Credaf fy mod yn iawn wrth ddweud mai morwr yn y llynges fasnachol oedd ei dad a laddwyd yn y rhyfel. Mae cynnwys pob agwedd ar fywyd Cymru a phob diwylliant yn golygu cynnwys rhai sydd wedi bwrw gwreiddiau dwfn yng Nghymru, dros lawer genhedlaeth yn aml, yn ogystal â rhai sydd newydd ddod i'r wlad hon. Croesawaf y modd yr oeddech wedi geirio'r cwestiwn.

Cynog Dafis: Yr wyf yn croesawu'n gynnes barodrwydd y Prif Ysgrifennydd i ymateb yn gadarnhaol ac i ddarparu'r cyfleuster hwn. A yw'n cytuno y byddai cyfleuster o'r fath yn ddefnyddiol nid yn unig i'r bobl sydd â gwahanol fathau o ffydd, ond hefyd i'r rhai na fyddai'n dweud bod ffydd ganddynt, ond sydd yn awyddus serch hynny i chwilio am ddistawrwydd a chyfle i ymgynghori â gwerthoedd heblaw gwerthoedd y funud wleidyddol? Byddai cyfleuster felly yn werthfawr i bob Aelod o'r Cynulliad.

Cynog Dafis: I warmly welcome the First Secretary's willingness to respond positively and to make this provision. Does he agree that this kind of provision would be useful not only for people with different kinds of faiths, but also for those who would not say they had a faith, but who are nonetheless eager to seek silence and an opportunity to commune with values other than those of the political moment? Such a facility would be valuable to all Assembly Members.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n bwysig inni ganiatáu i faterion fel hyn ddatblygu mewn modd naturiol y tu mewn i'r Cynulliad a rhoi cefnogaeth i bobl wrth edrych ar y dulliau gorau o wneud hynny.

The First Secretary: It is important that we allow such matters to develop naturally within the Assembly and to support people in considering the best ways of achieving this.

Mewnforio Gwastraff Gwenwynig
Importing Toxic Waste

Q4 Jocelyn Davies: What plans does the First Secretary have to reduce the continued import of toxic waste for incineration here in order to improve the image of Wales abroad? (OAQ1993)

C4 Jocelyn Davies: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i leihau cyfanswm y gwastraff gwenwynig a fewnforir o hyd i gael ei losgi yma er mwyn gwella delwedd Cymru dramor? (OAQ1993)

The First Secretary: The UK management plan for exports and imports of waste sets out existing policy on the import of waste for incineration in Wales. The plan is under review and lead reponsibility for the review

Y Prif Ysgrifennydd: Mae cynllun rheoli'r DU ar gyfer allforion a mewnforion gwastraff yn nodi'r polisi presennol ar fewnforio gwastraff i'w losgi yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cael ei adolygu ac mae'r

rests with the Department of the Environment, Transport and the Regions, which plans to publish a consultation document early in 2000. That will give the Assembly an opportunity to comment on and contribute to the development of that policy.

cyfrifoldeb arweiniol dros yr adolygiad yn perthyn i Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, sydd yn bwriadu cyhoeddi dogfen ymgynghorol yn gynnar yn 2000. Bydd hynny'n rhoi cyfle i'r Cynulliad wneud sylwadau ar ddatblygiad y polisi hwnnw a chyfrannu ato.

Jocelyn Davies: For many years, Welsh politicians, including yourself and the Secretary of State for Wales, have promised a public inquiry into toxic waste incineration at Rechem International Limited, now Shanks Chemical Services, plant at Pontypool. Will you now support the motion tabled today by myself, and supported by Mike German and David Davies, for such an inquiry to be held?

Jocelyn Davies: Ers blynyddoedd lawer, mae gwleidyddion Cymreig, a chithau ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn eu plith, yn addo cynnal ymchwiliad cyhoeddus i'r llosgi ar wastraff gwenwynig yng ngwaith Rechem International Cyfyngedig, Shanks Chemical Services erbyn hyn, ym Mhont-y-pŵl. A ydych bellach yn barod i gefnogi'r cynnig a gyflwynwyd heddiw gennyf fi, ac a gefnogir gan Mike German a David Davies, o blaid cynnal ymchwiliad o'r fath?

The First Secretary: You need to look carefully at the history of the Rechem site and the work that has been undertaken to examine it. As you indicated, I am aware of the history of the site, having dealt with environmental issues in opposition between 1988 and 1992. More recently, both Lynne Neagle and the Secretary of State for Wales, in his capacity as a constituency Member of Parliament, have raised the subject with me. I have asked officials to consider the current situation against the background of work undertaken previously, particularly in the early 1990s, to assess the impact of Rechem. I await the results of that work.

Y Prif Ysgrifennydd: Rhaid ichi edrych yn ofalus ar hanes safle Rechem a'r gwaith a gyflawnwyd i'w archwilio. Fel yr oeddech yn nodi, yr wyf yn gwybod am hanes y safle, a minnau wedi delio â materion amgylcheddol yn yr wrthblaid rhwng 1988 a 1992. Ers hynny, mae Lynne Neagle ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn rhinwedd ei waith fel Aelod Seneddol dros yr etholaeth, wedi codi'r mater gyda mi. Gofynnais i'r swyddogion ystyried y sefyllfa bresennol yn erbyn cefndir y gwaith a gyflawnwyd cynt, ar ddechrau'r 1990au yn arbennig, i asesu effaith Rechem. Yr wyf yn disgwyl canlyniadau'r gwaith hwnnw.

2:18 p.m.

Lynne Neagle: I have discussed this issue with you previously and I have said on many occasions in this Chamber that there are major concerns in my constituency about the continuing problems with Rechem. When we spoke recently, you assured me that you would ask officials to examine this matter. In the light of the continuing problems, can you indicate when you will be in a position to comment further?

Lynne Neagle: Trafodais y mater hwn gyda chi o'r blaen a dywedais lawer tro yn y Siambr hon fod pryderon dybryd yn f'etholaeth ynghylch y problemau parhaus gyda Rechem. Pan fu inni siarad yn ddiweddar, cefais sicrwydd gennych y byddech yn gofyn i'r swyddogion edrych ar y mater hwn. Yng ngoleuni'r problemau parhaus, a oes modd ichi ddweud pa bryd y byddwch mewn sefyllfa i wneud sylw pellach?

The First Secretary: I hope to be able to respond soon. I had a discussion with officials as a consequence of our talk and was given an initial indication of the type of work that had gone on previously, which included

Y Prif Ysgrifennydd: Gobeithiaf allu ymateb cyn hir. Cefais drafodaeth â'r swyddogion o ganlyniad i'n sgwrs a chefais syniad cychwynnol o'r math o waith a wnaethpwyd cyn hynny, a hynny'n cynnwys

scientific examination of evidence commissioned in 1991. There is a tendency to view a public inquiry as the solution to all problems. It is not necessarily the best solution. We need to use the right tool to ensure that local people's concerns in any situation—and I am aware of the concerns of local people regarding the Rechem plant—are dealt with and targeted appropriately, in a way that takes account of the Assembly's own responsibilities and the responsibilities of other bodies.

archwiliad gwyddonol o'r dystiolaeth a gomisiynwyd yn 1991. Ceir tuedd i ystyried ymchwiliad cyhoeddus yn ateb i bob problem. Nid hynny yw'r ateb gorau o reidrwydd. Rhaid inni ddefnyddio'r arf gorau er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i bryderon y bobl leol—ac yr wyf yn ymwybodol o bryderon y bobl leol ynghylch gwaith Rechem—a bod hynny wedi ei dargedu'n briodol, mewn modd sydd yn rhoi ystyriaeth i gyfrifoldebau'r Cynulliad ei hun a chyfrifoldebau cyrff eraill.

David Davies: You asked us to look at the events of the past few years. Surely it would be relevant to look at what has happened in the past few months? You will be aware that Italy has been allowed to start exporting waste to Rechem due to a technicality, despite the fact that transfrontier movements of chemicals such as those contained in this waste are supposed to be illegal within Europe. Surely in the light of the fact that a technicality has been used to get around this law, we should have a public inquiry to ensure that Rechem and Wales do not become a dumping ground for toxic waste?

David Davies: Gofynasoch inni edrych ar ddigwyddiadau'r blynyddoedd diwethaf. Odid na fyddai'n briodol edrych ar yr hyn a ddigwyddodd yn yr ychydig fisoedd diwethaf? Fe wyddoch fod yr Eidal wedi cael caniatâd i ddechrau allforio gwastraff i Rechem oherwydd pwynt technegol, er gwaethaf y ffaith bod symud cemegion fel y rhai a geir yn y gwastraff hwn dros ffiniau i fod yn anghyfreithlon oddi mewn i Ewrop. Yng ngoleuni'r ffaith bod pwynt technegol wedi ei ddefnyddio i osgoi'r ddeddf hon, siawns na ddylem gael ymchwiliad cyhoeddus i sicrhau na fydd Rechem a Chymru'n domen ysbwriel i wastraff gwenwynig?

The First Secretary: It is important to ensure that Wales does not become a dumping ground for toxic waste or waste of any sort. That is why the UK's waste management plan is so important, as will be the Assembly's contribution in responding to the consultation document that is expected shortly. I will not comment on specific allegations, because bodies other than the Assembly are responsible for responding to them. However, it is clear that we should make any information that becomes available, and any constituency concerns, available to those bodies that have that responsibility either directly or via the Assembly. I understand that as far as the waste from Italy is concerned, the polychlorinated biphenyl contaminated materials will be drained from the transformers before they leave Italy. It is for the Environment Agency to determine, in line with the relevant UK and EU legislation and the current UK management plan for exports and imports of waste, whether a particular process constitutes disposal or recovery. That

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n bwysig sicrhau na ddaw Cymru'n domen ysbwriel i wastraff gwenwynig neu wastraff o unrhyw fath. Dyna pam y mae cynllun rheoli gwastraff y DU mor bwysig, fel y bydd cyfraniad y Cynulliad wrth ymateb i'r ddogfen ymgynghorol a ddisgwylir cyn hir. Ni wnaf sylw ar gyhuddiadau penodol, oherwydd mae cyrff heblaw'r Cynulliad yn gyfrifol am ymateb iddynt. Fodd bynnag, mae'n amlwg y dylem sicrhau bod unrhyw wybodaeth a gawn, ac unrhyw bryderon mewn etholaethau, ar gael i'r cyrff hynny sydd yn gyfrifol un ai'n uniongyrchol neu drwy'r Cynulliad. O ran y gwastraff o'r Eidal, deallaf y bydd y deunyddiau a lygrwyd â biffenyl polyclorinedig yn cael eu draenio o'r newidyddion cyn iddynt adael yr Eidal. Mater i Asiantaeth yr Amgylchedd yw penderfynu, yn unol â deddfwriaeth berthnasol y DU a'r UE a chynllun rheoli cyfredol y DU ar gyfer allforio a mewnforio gwastraff, a yw proses benodol yn golygu gwaredu neu adfer. Dyna'r mater sydd yn y fantol. Os nad yw'r gofynion a'r cynllun yn

is the issue at stake. If the requirements and plan do not deal adequately with this and there are local concerns that need to be aired, the review gives us the opportunity to intervene and make our observations known, either directly or through the Assembly.

ymdrin yn ddigonol â hynny ac os oes pryderon lleol i'w gwyntyllu, mae'r adolygiad yn rhoi cyfle inni ymyrryd a rhoi ein sylwadau ein hunain, un ai'n uniongyrchol neu drwy'r Cynulliad.

Michael German: The treatment of toxic waste in densely-populated residential areas such as Pontypool has been a source of much public concern for years. That is why those concerns could be best supported by a public inquiry into Shanks Chemical Services. Given that this waste management plan is currently under review and will soon be presented to the Assembly, do you agree that we have a unique opportunity for the Assembly to show that Wales can no longer be regarded as a toxic waste dump? Will you therefore commit to ensuring that the Government closes the loophole that allows the treatment of imported toxic waste in Wales on the grounds that it contains material that can be recycled?

Michael German: Mae trin gwastraff gwenwynig mewn ardaloedd preswyl poblog fel Pont-y-pŵl yn peri pryder mawr i'r cyhoedd ers blynyddoedd. Dyna pam y gellid ymdrin â'r pryderon hynny orau drwy ymchwiliad cyhoeddus i Shanks Chemical Services. Gan wybod bod y cynllun rheoli gwastraff yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac y caiff ei gyflwyno i'r Cynulliad cyn hir, oni chytunwch fod gennym gyfle unigryw i'r Cynulliad ddangos na ellir ystyried Cymru mwyach yn domen gwastraff gwenwynig? A ydych, felly, yn fodlon ymgymryd i sicrhau y bydd y Llywodraeth yn cau'r bwlch sydd yn caniatáu trin gwastraff gwenwynig a fewnforiwyd i Gymru ar y sail ei fod yn cynnwys deunydd y gellir ei ailgylchu?

The First Secretary: It is my intention to ensure that we do not allow Wales to be a dumping ground. There were serious concerns about Rechem during the 1980s. Many of those concerns were addressed and the monitoring of omissions has demonstrated that there have been improvements since the integrated pollution control authorisation was granted in 1993. Nevertheless, I have asked my officials to report on the most recent concerns that have been expressed by a variety of people. Both Lynne Neagle and the Secretary of State for Wales had raised local concerns with me and I will respond to those concerns and ensure that those who have raised concerns during the course of questions today will receive the information that comes out of those reports.

Y Prif Ysgrifennydd: Y bwriad sydd gennyf yw sicrhau na fyddwn yn gadael i Gymru fod yn domen ysbwriel. Yr oedd pryderon dybryd ynghylch Rechem yn ystod y 1980au. Rhoddwyd sylw i lawer o'r pryderon hynny a drwy fonitro gomeddiadau gwelwyd bod llawer o welliannau wedi digwydd ers rhoi'r hawl rheoli llygredd integredig yn 1993. Er hynny, gofynnais i'm swyddogion roi adroddiad ynghylch y pryderon diweddaraf a fynegwyd gan amryw o bobl. Yr oedd Lynne Neagle ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi codi pryderon lleol gyda mi ac fe ymatebaf i'r pryderon hynny a sicrhau y bydd y rhai a fynegodd bryderon yn ystod y cwestiynau heddiw yn derbyn y wybodaeth a ddaw o'r adroddiadau hynny.

Arian Ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Leol (Dampio)
Additional Funding for Local Government (Damping)

Q5 Pauline Jarman: Following the First Secretary's undertaking to the Partnership Council, what representations has he made via the Secretary of State for Wales, to the Chancellor of the Exchequer in relation to additional funding to assist with damping in the local government settlement? [R] (OAQ1994JS)

C5 Pauline Jarman: Ar ôl ymrwymiad y Prif Ysgrifennydd i'r Cyngor Partneriaeth, pa sylwadau a gyflwynodd, drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i Ganghellor y Trysorlys mewn perthynas ag arian ychwanegol i gynorthwyo â dampio yn y setliad llywodraeth leol? [R] (OAQ1994JS)

The First Secretary: I did not give an undertaking of that sort at the meeting on the 22 October. What I said was that we could make representations to the Treasury but that its response would be predictable as the Assembly knows its budget for next year and is expected to manage within that overall figure. The budget for later years is a matter for the UK Government's forthcoming spending review, as everyone must now be aware, following endless explanations during our discussion of Objective 1.

Y Prif Ysgrifennydd: Ni wneuthum ymrwymiad o'r fath yn y cyfarfod ar 22 Hydref. Yr hyn a ddywedais oedd y gallem gyflwyno sylwadau i'r Trysorlys ond y gellid rhagweld ei ymateb gan fod y Cynulliad yn gwybod beth yw ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf a bod disgwyl iddo ddygymod â'r ffigur cyffredinol hwnnw. Mae'r gyllideb ar gyfer y blynyddoedd wedyn yn fater i adolygiad gwariant nesaf Llywodraeth y DU, fel y gŵyr pawb mae'n siŵr, ar ôl yr esboniadau diddiwedd yn ystod ein trafodaeth ar Amcan 1.

Pauline Jarman: Most of the £22 million damping grant for the present year was provided by additional resources from the former Secretary of State for Wales and was not top-sliced from other local authorities. The joint stocktake paper states that only £1 million of that £22 million came from within the rate support grants pot. The council taxpayer is protected by damping, as the money goes directly to the taxpayer as a reduction in the council tax bill. It is not a grant to the council.

Pauline Jarman: Darparwyd y rhan fwyaf o'r grant dampio o £22 miliwn ar gyfer y flwyddyn gyfredol drwy adnoddau ychwanegol oddi wrth gyn-Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac nid drwy gymryd y dafell uchaf oddi wrth awdurdodau lleol eraill. Mae'r papur cydgyfrif stoc yn datgan mai ond £1 filiwn o'r £22 filiwn hynny a ddaeth o gronfa grantiau cynnal y dreth. Diogelir talwyr treth y cyngor drwy ddampio, gan fod yr arian yn mynd yn syth i'r trethdalwr fel gostyngiad ym mil treth y cyngor. Nid grant i'r cyngor mohono.

In view of the fact that 2001-02 is supposed to see another major revision to the standard spending assessment formula and revenue support grants, do you not agree that there is a strong argument for continuing with the previous practice of damping grants being additional and not top-sliced? Will you now take this up with the Secretary of State and ask him to press the Chancellor of the Exchequer to examine this additional funding?

Yng ngolwg y ffaith bod adolygiad helaeth arall o'r fformwla asesu gwariant safonol a'r grantiau cynnal refeniw i ddigwydd yn 2001-02, oni chytunwch fod dadl gref o blaid parhau â'r arfer blaenorol o roi grantiau dampio yn ychwanegol yn hytrach na drwy gymryd y dafell uchaf? A ydych yn fodlon codi'r mater hwn gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a gofyn iddo bwyso ar Ganghellor y Trysorlys i ystyried yr arian ychwanegol hwn?

The First Secretary: I see many faces glazing over as we get into the technicalities of local government finance in which you and I take a great interest. However, to talk of top-slicing in one breath and new money in another is potentially misleading. We have made clear what money is available for local government openly and transparently and said that within that sum of money we have the opportunity to provide damping grants as a result of top-slicing. It is top-slicing before and after you indicate the final figures. I am not sure whether you can make a distinction. The question is how much should be top-sliced and to what extent damping should

Y Prif Ysgrifennydd: Gwelaf fod llygaid llawer yn pylu wrth inni fynd i fanylion technegol cyllid llywodraeth leol sydd o ddiddordeb mawr i chi a minnau. Fodd bynnag, fe allai fod yn gamarweiniol sôn am gymryd y dafell uchaf ar un eiliad ac arian newydd yr eiliad nesaf. Buom yn agored ac yn dryloyw wrth roi ar ddeall pa arian sydd ar gael i lywodraeth leol gan ddweud bod gennym gyfle oddi mewn i'r swm arian hwnnw i ddarparu grantiau dampio drwy gymryd tafelli uchaf. Cymryd y dafell uchaf yw hynny cyn ac ar ôl ichi nodi'r ffigurau terfynol. Nid wyf yn sicr a ellwch wahaniaethu. Y cwestiwn yw pa swm y dylid

take place. We had requests from local government to minimise the amount of damping and to move as quickly as possible—and I agree with that entirely—to the new system of revenue support arrangements, which you rightly say will be introduced in the year 2001-02. I hope that will remove the need for damping because it will be a more open and transparent system. However, we must work within the resources available.

ei gymryd yn y dafell uchaf ac i ba raddau y dylid darparu dampio. Cawsom geisiadau oddi wrth lywodraeth leol i leihau maint y dampio ac i symud mor gyflym ag y bo modd—a chytunaf â hynny'n llwyr—at y system newydd o drefniadau cynnal refeniw, a gyflwynir yn y flwyddyn 2001-02, fel y dywedsoch. Gobeithiaf y bydd hynny'n dileu'r angen am ddampio oherwydd fe fydd yn system fwy agored a thryloyw. Fodd bynnag, rhaid inni weithio oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael.

In the initial figures, which I gave to the Partnership Council, we responded by trying to keep an even keel on damping and to respect the difficulties of some of the poorest local authorities. I use the word 'poorest' in the sense of lacking income. That includes your own local authority among others. That clearly did not command support from the Welsh Local Government Association as a whole. I have written to the leader of the WLGA, following discussions in the Partnership Council, to put forward revised figures. These figures take into account fresh information that has come from local authorities in the hope of finding a way forward that will enable everyone to be certain about their level of income.

Yn y ffigurau dechreuol, a roddais i'r Cyngor Partneriaeth, bu inni ymateb drwy geisio cadw'r ddysgl yn wastad ynghylch dampio a chydnabod yr anawsterau yn rhai o'r awdurdodau lleol tlotaf. Defnyddiaf y gair 'tlotaf' yn yr ystyr o fod â diffyg incwm. Mae hynny'n cynnwys eich awdurdod lleol chi ymysg eraill. Yr oedd yn amlwg nad oedd hynny'n ennyn cefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel cyfangorff. Ysgrifennais at arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar ôl trafodaethau yn y Cyngor Partneriaeth, er mwyn cyflwyno ffigurau diwygiedig. Mae'r ffigurau hyn yn rhoi ystyriaeth i wybodaeth newydd oddi wrth awdurdodau lleol er mwyn ceisio canfod ffordd ymlaen fydd yn sicrhau bod pawb yn sicr ynghylch lefel ei incwm.

2.28 p.m.

Glyn Davies: My eyes were certainly not glazing over. This matter is of huge interest to all the council taxpayers in mid and west Wales. What will you say to the pensioners in Powys who have just been told that the annual increase in their pensions will be 75 pence per week, and who then find out that they must pay £75 towards bills from four other councils? What message does that send to councils in Wales about managing their budgets, if they know that irrespective of what their bills will be the following year, there will be a damping scheme that evens costs out for everybody?

Glyn Davies: Nid oedd fy llygaid i'n pylu, yn sicr. Mae'r mater hwn o ddiddordeb mawr iawn i bawb sydd yn talu treth y cyngor yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Beth a ddywedwch wrth y pensiynwyr ym Mhowys sydd newydd gael gwybod mai 75 ceiniog yr wythnos fydd y cynnydd blynyddol yn eu pensiynau, ac sydd wedyn yn canfod bod rhaid iddynt dalu £75 tuag at filiau pedwar cyngor arall? Pa neges a roddir drwy hynny i gynghorau yng Nghymru ynghylch rheoli eu cyllidebau, os gwyddant, beth bynnag fydd eu biliau yn y flwyddyn ganlynol, y bydd cynllun dampio sydd yn cydraddoli costau pawb?

The First Secretary: I will say to those pensioners that they have been misinformed. Glyn should be careful in his use of words because he is in a danger of winding people up through misinformation. That is what

Y Prif Ysgrifennydd: Fe ddywedaf wrth y pensiynwyr hynny eu bod wedi eu camarwain. Dylai Glyn ddefnyddio geiriau yn ofalus oherwydd mae perygl iddo gynhyrfu pobl drwy eu camarwain. Dyma'r

happened with the local government settlement. We have an unsatisfactory means of dividing the local government cake. There is no doubt about that and nobody has disagreed with me on that. There has been a review of how we divide the cake. We had hoped that new arrangements would be in place for this year by means of an agreement between the then Welsh Office and the Welsh Local Government Association. The outcome of those discussions and the research that was commissioned in order to inform them was that arrangements could not be in place for this year. The WLGA agreed that they should be implemented next year. In order to overcome problems of the previous system and its manifest unfairness to some authorities, a damping grant system was introduced. Nobody likes this system. It is a means of correcting a poor system, which we inherited from a government whose political makeup I will not bother to mention.

hyn a ddigwyddodd gyda setliad llywodraeth leol. Mae'r dull sydd gennym o rannu teisen llywodraeth leol yn anfoddhaol. Nid oes dwywaith am hynny ac nid oes neb wedi anghytuno â mi ar hynny. Cafwyd adolygiad ar y modd y byddwn yn rhannu'r deisen. Yr oeddem wedi gobeithio y byddai trefniadau newydd yn eu lle ar gyfer eleni drwy gytundeb rhwng y Swyddfa Gymreig, fel yr oedd bryd hynny, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Canlyniad y trafodaethau hynny a'r ymchwil a gomisiynwyd i'w goleuo, oedd na ellid sefydlu trefniadau ar gyfer y flwyddyn hon. Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y dylid eu gweithredu'r flwyddyn nesaf. Er mwyn goresgyn problemau'r system flaenorol a'i hannhegwch amlwg â rhai awdurdodau, fe gyflwynwyd system grantiau dampio. Nid oes neb yn hoff o'r system hon. Mae'n fodd i gywiro system wael, a etifeddasom oddi wrth lywodraeth nad af i'r drafferth o grybwyll ei lliw gwleidyddol.

Extending that system for a further year causes problems, which has been the subject of some debate between the Assembly and the WLGA. The WLGA wants us to abolish damping, not extend it. The acceleration of the system's unfairness for some authorities has caused everybody pause for thought. I am hopeful that we will find a workable way forward for this year so that we can concentrate on ensuring a fair and equitable system of dividing the local government cake for the following year and the future.

Mae ymestyn y system honno dros flwyddyn bellach yn achosi problemau, y cafwyd cryn drafodaeth yn eu cylch rhwng y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am inni ddiddymu dampio, nid ei ymestyn. Mae'r ffaith bod y system honno'n fwyfwy annheg bellach â rhai awdurdodau wedi peri i bawb aros i feddwl. Yr wyf yn ffyddiog y cawn hyd i ffordd ymarferol ymlaen ar gyfer eleni fel y gallwn ganolbwyntio ar sicrhau system deg a chyfiawn o rannu teisen llywodraeth leol y flwyddyn ganlynol ac yn y dyfodol.

Peter Black: Does the First Secretary accept that putting additional money into the damping scheme introduced by William Hague will only distribute that money to four or five councils? Do you accept that the real issue is to try to find additional money for local government as a whole across Wales so as to assist them in tackling social exclusion in their areas?

Peter Black: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn derbyn mai'r cwbl a wneir drwy roi arian ychwanegol i'r system dampio a gyflwynwyd gan William Hague yw dosbarthu'r arian hwnnw ymysg pedwar neu bump o gynghorau? A dderbyniwch mai'r mater gwirioneddol yw ceisio canfod arian ychwanegol i lywodraeth leol yn ei chyfanrwydd ym mhob cwr o Gymru er mwyn eu helpu i fynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol yn eu hardaloedd?

The First Secretary: It would be nice if you acknowledged that we have put additional money into local government across Wales. It

Y Prif Ysgrifennydd: Byddai'n braf pe baech yn cydnabod ein bod wedi rhoi arian ychwanegol i lywodraeth leol ym mhob cwr

was widely recognised that last year's local government settlement was the most generous for many years. That point was made strongly and favourably to me by the WLGA, when it welcomed that settlement. The same applies this year. The problem is that the ineffective formula that exists at the moment, and which nobody likes, impacts heavily on four areas in Wales with major deprivation. Therefore it is not only unfair but has a negative impact as it increases social exclusion in those areas. We have been trying to find and tease out a fair way of providing damping grants in order to overcome the worst features of the previous formula, which, as you rightly say, we inherited from the previous government.

o Gymru. Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol mai setliad llywodraeth leol y flwyddyn ddiwethaf oedd yr haelaf ers blynyddoedd lawer. Rhoddwyd y pwynt hwnnw imi'n gryf ac yn ffafriol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, pan oedd yn croesawu'r setliad hwnnw. Mae hynny'n wir eleni hefyd. Y broblem yw bod y fformwla aneffeithiol a geir ar hyn o bryd, nad oes neb yn hoff ohoni, yn effeithio'n drwm ar bedair ardal yng Nghymru sydd ag amddifadedd helaeth. Felly, yn ogystal â bod yn annheg, mae ganddi effaith negyddol hefyd gan ei bod yn cynyddu dieithrwch cymdeithasol yn yr ardaloedd hynny. Buom yn ceisio canfod a datblygu dull teg o ddarparu grantiau dampio er mwyn goresgyn nodweddion gwaethaf y fformwla flaenorol, y bu inni ei hetifeddu, fel y dywedsoch, oddi wrth y llywodraeth flaenorol.

David Melding: Point of order. This relates to Standing Order No. 6.28. I have received notification from the Cabinet Secretariat that my oral questions to the Finance Secretary, Edwina Hart, on 24 November have been transferred for written answer by the Secretary for Health and Social Services. I am told that the reason for this transfer is that my oral questions relate to health policy and not financial matters under the budget. Therefore, under the guidance on Assembly questions, paragraphs 9.1 and 9.2, my oral questions have been transferred at the discretion of the Executive. I object to this decision and ask for your ruling, Presiding Officer. My oral questions relate to financial and budgetary matters, not to health policy. They are therefore valid questions for Edwina Hart. For example, one question asks if she will make a statement on the amount of money going to health in the preliminary budget for 2000-01.

David Melding: Pwynt o drefn. Mae hyn yn ymwneud â Rheol Sefydlog Rhif 6.28. Derbyniais hysbysiad gan Ysgrifenyddiaeth y Cabinet bod fy nghwestiynau llafar i'r Ysgrifennydd Cyllid, Edwina Hart, ar 24 Tachwedd wedi eu trosglwyddo i'w hateb yn ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedwyd wrthyf mai'r rheswm am eu trosglwyddo yw bod fy nghwestiynau llafar yn ymwneud â pholisi iechyd ac nid materion ariannol o dan y gyllideb. Felly, o dan y canllawiau ar gwestiynau'r Cynulliad, paragraffau 9.1 a 9.2, fe drosglwyddwyd fy nghwestiynau llafar yn ôl doethineb y Weithrediaeth. Gwrthwynebaf y penderfyniad hwn a gofynnaf am ddyfarniad gennych, Lywydd. Mae fy nghwestiynau'n ymwneud â materion cyllidol a chyllidebol, nid polisi iechyd. Maent felly'n gwestiynau dilys i Edwina Hart. Er enghraifft, fe ofynnir mewn un cwestiwn a fydd yn fodlon gwneud datganiad ar y swm o arian ar gyfer iechyd yn y gyllideb ragarweiniol ar gyfer 2000-01.

The unilateral decision by the Executive contradicts Standing Order No. 6.28, whereby oral questions are accepted:

Mae'r penderfyniad unochrog gan y Weithrediaeth yn groes i Reol Sefydlog Rhif 6.28, sydd yn datgan y derbynnir cwestiynau llafar:

'at the discretion of the Presiding Officer.'

'yn ôl doethineb y Llywydd.'

The Table Office accepted my oral questions on 10 November and published them on the

Derbyniwyd fy nghwestiynau llafar gan y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Tachwedd ac fe'u

intranet on 11 November. It was not until 15 November that the Executive informed me of their decision to transfer these questions. I believe this to be an abuse of Standing Orders and of the guidance because, under paragraph 9.1 of the guidance, the questions were not 'wrongly addressed.'

cyhoeddodd ar y fewnrwyd ar 11 Tachwedd. Ni chefais wybod gan y Weithrediaeth tan 15 Tachwedd am eu penderfyniad i drosglwyddo'r cwestiynau hynny. Credaf fod hyn yn gamddefnydd o'r Rheolau Sefydlog ac o'r canllawiau oherwydd, o dan baragraff Rhif 9.1 o'r canllawiau, nid oedd y cwestiynau wedi eu 'cyfeirio'n anghywir'.

Secondly, I am unaware that the Table Office was involved in

Yn ail, nid wyf yn ymwybodol bod y Swyddfa Gyflwyno'n gysylltiedig ag

'consultation with the Cabinet Secretariat at the time of tabling.'

'ymgynghoriad ag Ysgrifenyddiaeth y Cabinet adeg cyflwyno cwestiwn.'

Thirdly, under Standing Order No. 6.28, it is your prerogative to accept or reject questions. Your powers, under the Standing Orders that support them, have precedence over the guidance on questions if there is any perceived conflict. Presiding Officer, this is an important point that goes to the heart of the Executive's relationship with Assembly Members. Is it right for the Executive to decide which questions will be answered orally? Can the Executive be allowed to shift questions from oral to written answer, thus avoiding supplementary questions and further scrutiny? Finally, is it right for the Finance Secretary, who does not answer directly to a Subject Committee, to avoid answering questions on budget lines? I understand that 10 of the 30 questions tabled last week were transferred for written answer.

Yn drydydd, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.28, chi biau'r hawl i dderbyn neu wrthod cwestiynau. Mae'r pwerau sydd gennych, o dan y Rheolau Sefydlog sydd yn sail iddynt, yn cael blaenoriaeth dros y canllawiau ar gwestiynau os canfyddir unrhyw wrthdrawiad. Lywydd, mae hyn yn bwynt pwysig sydd wrth wraidd perthynas y Weithrediaeth ag Aelodau'r Cynulliad. A yw'n iawn i'r Weithrediaeth benderfynu pa gwestiynau a atebir ar lafar? A ellir caniatáu i'r Weithrediaeth symud cwestiynau rhwng ateb llafar i ateb ysgrifenedig, gan osgoi cwestiynau atodol a manylu pellach? Yn olaf, a yw'n iawn i'r Ysgrifennydd Cyllid, nad yw'n uniongyrchol atebol i Bwyllgor Pwnc, osgoi ateb cwestiynau sydd yn ymwneud â'r gyllideb? Deallaf fod 10 o'r 30 cwestiwn a gyflwynwyd yr wythnos diwethaf wedi eu trosglwyddo i dderbyn ateb ysgrifenedig.

Nick Bourne: Further to that point of order, this raises serious questions about openness and transparency because if the transfer had happened at the tabling stage, that would have given Members an opportunity to revise their questions, to bring them within the framework and to take part in the lottery. The transfer did not happen until after the lottery had been completed. Furthermore, it seems to have been applied more to Conservative questions high up the order than to other questions. My question, question 13, which would seem to be as out of order as others that were transferred, was not transferred, because presumably there was no concern about getting to that question in the order of business. I hope that the Finance Secretary will reflect on this. She is not answerable to a Committee so we have no proper chance to

Nick Bourne: Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn, mae hyn yn codi cwestiynau difrifol ynghylch bod yn agored a thryloyw oherwydd os oedd y trosglwyddo wedi digwydd ar adeg cyflwyno, byddai hynny wedi rhoi cyfle i'r Aelodau ddiwygio eu cwestiynau, er mwyn eu cysoni â'r fframwaith a chymryd rhan yn y lotri. Ni ddigwyddodd y trosglwyddo hyd nes yr oedd y lotri wedi ei chwblhau. Mae'n ymddangos, ymhellach, fod hyn wedi ei gymhwyso'n fwy at gwestiynau'r Ceidwadwyr yn rhan uchaf y rhestr nag at gwestiynau eraill. Ni throsglwyddwyd fy nghwestiwn i, cwestiwn 13, sydd yn ymddangos yr un mor annerbyniol ag eraill a drosglwyddwyd, am nad oedd pryder, gellid meddwl, ynghylch cyrraedd y cwestiwn hwnnw yn ôl trefn y busnes. Gobeithiaf y bydd yr Ysgrifennydd

scrutinise these matters. These were budgetary questions. Bearing in mind what is often said about this body not being like Westminster, I hope that no analogy is drawn with Westminster. We want to be an open and transparent body. Edwina Hart is not answerable to a committee. However, she is answerable to the Assembly as a whole and these questions seem to me to be clearly within the appropriate parameters. We appeal to you to make a ruling on this, Llywydd, in accordance with Standing Order No. 6.28, so that we can move forward as an open and transparent body.

Cyllid yn ystyried hyn. Nid yw'n atebol i Bwyllgor felly nid oes gennym wir gyfle i archwilio'r materion hyn. Cwestiynau ynghylch y gyllideb oedd y rhain. O gofio'r hyn a ddywedir yn aml am y corff hwn, sef ei fod yn wahanol i San Steffan, gobeithiaf na wneir cymhariaeth â San Steffan. Yr ydym am fod yn gorff agored a thryloyw. Nid yw Edwina Hart yn atebol i bwyllgor. Fodd bynnag, mae'n atebol i'r Cynulliad fel cyfangorff ac mae'n ymddangos yn eglur i mi fod y cwestiynau hyn o fewn y ffiniau priodol. Apeliwn arnoch i roi dyfarniad ar hyn, Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.28, fel y gallwn symud ymlaen fel corff agored a thryloyw.

Alun Cairns: I echo both my colleagues' comments. One of my questions has been moved from answer by the Finance Secretary to answer by the Secretary for Economic Development. One could almost come to the conclusion that the Finance Secretary is avoiding answering some of the most difficult questions posed because she does not have an understanding of the matter. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']

Alun Cairns: Ategaf sylwadau fy nau gyd-aelod. Mae un o'm cwestiynau wedi ei symud oddi wrth ateb gan yr Ysgrifennydd Cyllid i ateb gan Ysgrifennydd Datblygu Economaidd. Gallai rhywun bron â dod i'r casgliad bod yr Ysgrifennydd Cyllid yn osgoi ateb rhai o'r cwestiynau anoddaf am nad yw'n deall yr hyn sydd dan sylw. [AELODAU O'R CYNULLIAD: 'O.']

The Business Secretary (Andrew Davies): The idea that the Finance Secretary would hide from anyone is extraordinary to anyone who knows her. We will look at this question. There has been reference to the draft guidance. That is only draft and has not been agreed by the Assembly. As Business Secretary, I will consult with my colleagues and then report to the Assembly and the Presiding Officer on this matter.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Mae'r syniad y byddai'r Ysgrifennydd Cyllid yn cuddio oddi wrth rywun yn un rhyfeddol i rywun sydd yn ei hadnabod. Fe edrychwn ar y cwestiwn hwn. Cyfeiriwyd at y canllawiau drafft. Drafft yn unig yw'r rhain ac nid yw'r Cynulliad wedi cytuno arnynt. Fel Trefnydd, fe ymgynghoraf â'm cydweithwyr ac wedyn rhoi adroddiad i'r Cynulliad ac i'r Llywydd ar y mater hwn.

The Presiding Officer: I am grateful to those who did not get to ask questions but who have now been able to ask a different question, and also to the Business Secretary. The draft guidance on Assembly questions contains details of the procedure for transferring questions. The intention is clear from the draft guidance. Paragraph 9.1 refers to how an agreement is to be achieved on the transfer of questions. I understand that the Business Committee is considering Members' comments on the draft guidance and that there will be further formal consideration before the guidance is adopted by the Assembly. In the meantime, I will continue to work within the draft.

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar i'r rhai na chawsant gyfle i ofyn cwestiynau ond sydd bellach wedi gallu gofyn cwestiwn gwahanol, a hefyd i'r Trefnydd. Mae'r canllawiau drafft ar gwestiynau'r Cynulliad yn cynnwys manylion am y weithdrefn ar gyfer trosglwyddo cwestiynau. Mae'r bwriad yn eglur yn y canllawiau drafft. Cyfeiria paragraff 9.1 at y modd y ceir cytundeb ar drosglwyddo cwestiynau. Deallaf fod y Pwyllgor Busnes yn ystyried sylwadau'r Aelodau ar y canllawiau drafft ac y bydd ystyriaeth ffurfiol bellach cyn i'r Cynulliad fabwysiadu'r canllawiau. Yn y cyfamser, fe barhaf i weithio oddi mewn i'r drafft.

2:38 p.m.

My discretion is boundless within Standing Orders but I always follow the guidance adopted by the Assembly and those under consideration. I work in that spirit. I have known the Finance Secretary for many years and I do not believe that there is a political conspiracy here. Therefore, I hope that the Members concerned will take this as an example of how we can refine our procedures. We shall try to ensure that the guidance on the transfer of questions will come as soon as possible from the Business Committee to the Assembly so that we can adopt the guidance and ensure that the process is transparent. That is the most important issue so that Members and the Table Office will know clearly and the Executive will indicate clearly what the responsibilities are. I hope that we can proceed on that basis.

Mae'r hawl i ddyfarnu sydd gennyf o fewn y Rheolau Sefydlog yn ddiderfyn ond byddaf bob amser yn dilyn y canllawiau a fabwysiadwyd gan y Cynulliad a'r rhai sydd dan ystyriaeth. Gweithiaf yn yr ysbryd hwnnw. Yr wyf yn adnabod yr Ysgrifennydd Cyllid ers blynyddoedd lawer ac ni chredaf fod cynllwyn gwleidyddol yma. Felly, gobeithiaf y bydd yr Aelodau dan sylw yn derbyn hyn fel enghraifft o'r modd y gallwn wella ein gweithdrefnau. Ceisiwn sicrhau y bydd y canllawiau ar drosglwyddo cwestiynau'n dod gynted ag y bo modd o'r Pwyllgor Busnes i'r Cynulliad fel y gallwn fabwysiadu'r canllawiau a sicrhau bod y broses yn dryloyw. Dyna'r mater pwysicaf fel y bydd yr Aelodau a'r Swyddfa Gyflwyno yn gwybod yn iawn a'r Weithrediaeth yn nodi'n iawn beth yw'r cyfrifoldebau. Gobeithiaf y gallwn fynd ymlaen ar y sail honno.

Peter Rogers: Point of order. Thank you, Presiding Officer, for sending an e-mail to Assembly Members after I saw you on Thursday about the Countryside Alliance rally the previous day and the decoration of the Assembly building with slogans. Above one of the anti-hunting signs hung from the building there were Assembly staff, mainly Assembly Members' staff, provoking the marchers with offensive finger signs.

Peter Rogers: Pwynt o drefn. Diolch i chi, Lywydd, am anfon neges e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar ôl imi'ch gweld ddydd Iau ynghylch rali'r Gynghrair Cefn Gwlad y diwrnod cynt ac addurno adeilad y Cynulliad â sloganau. Uwchben un o'r arwyddion gwrth-hela oedd wedi eu hongian o'r adeilad yr oedd staff Cynulliad, staff Aelodau'r Cynulliad yn bennaf, yn pryfocio'r gorymdeithwyr drwy wneud arwyddion sarhaus â'u bysedd.

This Assembly should be seen to be as neutral as possible. What happened was a disgrace. Many of you saw the marchers at some stage during the day and would have noticed that there were many middle-aged ladies present, representing their husbands who were at home farming. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] They were deeply offended by this action and we should apologise to them. The First Secretary's views on countryside issues are well known. He failed to honour the promise he made at the Royal Welsh Show to meet the marchers. I urge him to make a public apology to the countryside marchers.

Dylai'r Cynulliad hwn gael ei ystyried yn un sydd mor diduedd â phosibl. Yr oedd yr hyn a ddigwyddodd yn warthus. Gwelodd llawer ohonoch y gorymdeithwyr ar ryw adeg yn ystod y dydd a byddech wedi sylwi bod llawer o wragedd canol-oed yn bresennol, oedd yn cynrychioli eu gwŷr a oedd gartref yn ffermio. [AELODAU O'R CYNULLIAD: 'O.'] Yr oeddent wedi eu digio'n arw gan y weithred hon a dylem ymddiheuro iddynt. Mae barn y Prif Ysgrifennydd ar faterion cefn gwlad yn adnabyddus iawn. Methodd â chadw'r addewid a wnaeth yn Sioe Frenhinol Cymru i gyfarfod â'r gorymdeithwyr. Pwysaf arno i ymddiheuro'n gyhoeddus i'r gorymdeithwyr cefn gwlad.

The Presiding Officer: Order. I take points of order as points of order. Yours began as a

Y Llywydd: Trefn. Byddaf yn derbyn pwyntiau o drefn fel pwyntiau o drefn.

point of order and then became a speech. That is not acceptable in this Chamber. As regards the substance of the point of order, I have discussed all matters relating to the events of last week, formally and informally, with all Members concerned and informally with the security staff in this building. There were 13,000 people outside the building and the march was on a controversial issue. However, the majority of the people here and the public thought that the event was a suitable one for our new democracy. As far as the police are concerned, there are no issues that require further attention. Therefore, I hope that all Assembly Members will treat these matters as closed.

Dechreuodd eich pwynt yn bwynt o drefn a throi'n araith wedyn. Nid yw hynny'n dderbyniol yn y Siambr hon. O ran sylwedd y pwynt o drefn, trafodais yr holl faterion sydd yn ymwneud â digwyddiadau'r wythnos diwethaf, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, gyda'r holl Aelodau dan sylw ac yn anffurfiol gyda'r staff diogelwch yn yr adeilad hwn. Yr oedd 13,000 o bobl y tu allan i'r adeilad ac yr oedd yr orymdaith yn ymwneud â mater dadleuol. Fodd bynnag, yr oedd y rhan fwyaf o'r rhai yma a'r cyhoedd o'r farn bod y digwyddiad yn un addas i'n democratiaeth newydd. O ran yr heddlu, nid oes unrhyw faterion sydd yn galw am sylw pellach. Gobeithiaf, felly, y bydd holl Aelodau'r Cynulliad yn derbyn bod y materion hyn ar ben.

The First Secretary: Further to that point of order. The point of order raised included a disgraceful repetition of an untruth. You have dealt with the substance of the point of order, Presiding Officer. However, as this has been stated in the Assembly perhaps I could put the record straight. When I met representatives of pro-hunting organisations in Builth Wells in July, I promised to meet them again once the outline of legislation was known. An announcement on that was made last week after the countryside march. However, I met five representatives who came to the Assembly last week and I listened and discussed a number of issues with them. I also made it clear that I would meet representatives again once the outline of legislation was known. Arrangements for that meeting are in hand. I am afraid Peter's statement used propaganda, which I find insulting given that I have tried to meet people with courtesy. I try to meet people even if I disagree passionately with their views. I am saddened that an Assembly Member has sought to be rude and inaccurate in this Assembly by repeating a calumny that has been used as propaganda prior to today.

Y Prif Ysgrifennydd: Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn. Yr oedd y pwynt o drefn a godwyd yn cynnwys ailadrodd gwarthus ar anwiredd. Yr ydych wedi trafod sylwedd y pwynt o drefn, Lywydd. Fodd bynnag, am fod hyn wedi ei ddatgan yn y Cynulliad efallai y caf gywiro hynny. Pan gyfarfûm â chynrychiolwyr mudiadau sydd o blaid hela yn Llanfair ym Muallt yng Ngorffennaf, addewais gyfarfod â hwy eto ar ôl cael braslun o'r ddeddfwriaeth. Cafwyd datganiad ar hynny yr wythnos diwethaf ar ôl yr orymdaith cefn gwlad. Fodd bynnag, cyfarfûm â phum cynrychiolydd a ddaeth i'r Cynulliad yr wythnos diwethaf a gwrandewais arnynt a thrafod nifer o faterion gyda hwy. Rhoddais ar ddeall hefyd y byddwn yn cyfarfod â chynrychiolwyr eto ar ôl cael braslun o'r ddeddfwriaeth. Mae'r cyfarfod hwnnw'n cael ei drefnu ar hyn o bryd. Mae arnaf ofn fod Peter wedi defnyddio propaganda yn ei ddatganiad, a chaf hynny'n beth sarhaus gan fy mod wedi ceisio cyfarfod â phobl yn gwrtais. Ceisiaf gyfarfod â phobl hyd yn oed os anghytunaf yn angerddol â'u safbwyntiau. Mater o dristwch i mi yw bod Aelod o'r Cynulliad wedi ceisio bod yn sarhaus ac yn anghywir yn y Cynulliad hwn drwy ailadrodd enllib a ddefnyddiwyd fel propaganda cyn heddiw.

David Davies: May I make a further point of order?

David Davies: A gaf godi pwynt o drefn pellach?

The Presiding Officer: Is this on the same matter?

Y Llywydd: A yw'n ymwneud â'r un mater?

David Davies: Yes.

David Davies: Ydyw.

The Presiding Officer: In which case it is not a further point of order. This matter is now closed.

Y Llywydd: Os felly, nid yw'n bwynt o drefn pellach. Mae'r mater hwn bellach ar ben.

Datganiad Busnes
Business Statement

The Business Secretary (Andrew Davies): I echo the Presiding Officer's introductory statement that the information that I will give is not on the Chamberweb because the system is down. I will read out three weeks' business in full, which will make my business statement longer than usual. The Plenary business on Tuesday 23 November will be questions to the First Secretary, the business statement, a debate on a motion proposed by Plaid Cymru, a debate on the Protocol for the dealings of the Secretary of State for Wales with the Assembly and a short debate. Plenary business on Wednesday 24 November will be an election to appoint a new Chair to the Standards Committee, questions to the Secretary for Economic Development, questions to the Finance Secretary, a debate on sport and its role in Wales today, a motion to give authority to proceed with the appointment of an adviser on standards of conduct and a motion to delegate the functions of the Adoption (Intercountry Aspects) Act 1999.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Adleisiaf ddatganiad rhagarweiniol y Llywydd drwy ddweud nad yw'r wybodaeth a roddaf ar we'r Siambr am fod y system wedi methu. Darllenaf fusnes tair wythnos yn llawn, ac o'r herwydd bydd fy natganiad busnes yn hwy nag arfer. Busnes y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 23 Tachwedd fydd cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd, y datganiad busnes, dadl ar gynnig a gyflwynwyd gan Blaid Cymru, dadl ar y Protocol ar gyfer trafodion Ysgrifennydd Gwladol Cymru â'r Cynulliad a dadl fer. Busnes y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 24 Tachwedd fydd etholiad i benodi Cadeirydd newydd i'r Pwyllgor Safonau, cwestiynau i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd, cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid, dadl ar chwaraeon a'u rôl yng Nghymru heddiw, cynnig i roi awdurdod i fynd ymlaen i benodi ymgynghorydd ar safonau ymddygiad a chynnig i ddirprwyo swyddogaethau y Ddeddf Mabwysiadu (Agweddau Rhyng-wladol) 1999.

Plenary business on Tuesday 30 November will be questions to the First Secretary, the business statement, a debate on the Government's forward legislative programme part 1 introduced by the Secretary of State for Wales and a short debate. Plenary business on Wednesday 1 December will be questions to the Secretary for Health and Social Services, questions to the Secretary for Post-16 Education and Training, a debate on the motion to adopt the draft budget and a motion to approve the special grant report on the Children and Youth Partnership fund.

Busnes y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 30 Tachwedd fydd cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd, y datganiad busnes, dadl ar raglen ddeddfu'r Llywodraeth ar gyfer y dyfodol rhan 1 a gyflwynir gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a dadl fer. Busnes y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 1 Rhagfyr fydd cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, dadl ar y cynnig i fabwysiadu'r gyllideb ddrafft a chynnig i gymeradwyo adroddiad grant arbennig ar y gronfa Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc.

Plenary business on Tuesday 7 December will be questions to the First Secretary, the business statement, a debate on 'Beyond ETAG', the second Plaid Cymru debate and a short debate. Plenary business on Wednesday 8 December will be questions to the

Busnes y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 7 Rhagfyr fydd cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd, y datganiad busnes, dadl ar 'Ar ôl ETAG', ail ddadl Plaid Cymru a dadl fer. Busnes y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 8 Rhagfyr fydd cwestiynau i'r Ysgrifennydd

Secretary for Education and Children, questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development and a debate on the Government's forward legislative programme, part 2. Arrangements will be made after Plenary today to place a copy of this statement on the internet and the intranet.

Addysg a Phlant, cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a dadl ar raglen ddeddfu'r Llywodraeth ar gyfer y dyfodol, rhan 2. Gwneir trefniadau ar ôl y Cyfarfod Llawn heddiw i roi copi o'r datganiad hwn ar y rhyngrwyd a'r fewnrwyd.

Finally, I inform you that in accordance with Standing Order No. 22.5, and as agreed in the Business Committee this morning, the Deputy Presiding Officer has determined that the following five draft orders do not need to be referred to the Subject Committee for consideration: the Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 1999; the Housing Renewal Grants (Prescribed Forms and Particulars) and (Welsh Form and Particulars) (Amendment) (Wales) Regulations 1999; the Relocation Grants (Form of Application) and (Welsh Form of Application) (Amendment) (Wales) Regulations 1999; the National Health Service Trusts (Wales) (Dissolution No. 2) Order 1999 and the Cardiff and Vale NHS Trust Establishment Order 1999. Copies of the draft orders will be sent to the Legislation Committee to scrutinise later today and arrangements made to lay the orders in the Table Office.

Yn olaf, fe'ch hysbysaf fod y Dirprwy Lywydd wedi penderfynu, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.5, ac fel y cytunwyd yn y Pwyllgor Busnes y bore yma, nad oes angen cyfeirio'r pum gorchymyn drafft canlynol i'w hystyried gan y Pwyllgor Pwnc: Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 1999; Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) a (Ffurflen a Manylion Cymraeg) (Diwygio) (Cymru) 1999; Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflen Gais) a (Ffurflen Gais Gymraeg) (Diwygio) (Cymru) 1999; Gorchmyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (Diddymiad Rhif 2) 1999 a Gorchymyn Sefydlu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro 1999. Anfonir copïau o'r gorchmynion drafft i'r Pwyllgor Deddfau i'w harchwilio yn ddiweddarach heddiw a gwneir trefniadau i osod y papurau yn y Swyddfa Gyflwyno.

2:48 p.m.

Jenny Randerson: I have two questions. Last week the transfer of functions order was featured in Plenary business. I note that it is no longer included. When is this likely to appear, and why has it been delayed? Secondly, on 24 November we have a generous—by our standards—amount of time for a general debate on sport. This debate does not relate to a specific report or piece of legislation. Yet, on 7 December the Education and Training Action Group debate is slotted in on the same day as Plaid Cymru's one-hour debate and a short debate. Therefore, ETAG gets much less time than sport. I am not knocking sport, but comparatively ETAG is a much more complex issue than a general debate on sport and I am disappointed at the amount of time you have allowed for it.

Jenny Randerson: Mae gennyf ddau gwestiwn. Yr wythnos diwethaf yr oedd y gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau wedi ei gynnwys ym musnes y Cyfarfod Llawn. Nodaf nad ydyw wedi ei gynnwys bellach. Pa bryd y mae'n debygol o ymddangos, a pham y mae wedi ei ohirio? Yn ail, ar 24 Tachwedd mae gennym amser helaeth—yn ôl ein safonau ni—ar gyfer dadl gyffredinol ar chwaraeon. Nid yw'r ddadl hon yn ymwneud ag adroddiad neu ddarn o ddeddfwriaeth penodol. Eto, ar 7 Rhagfyr mae dadl y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant wedi ei chynnwys ar yr un diwrnod â dadl un-awr Plaid Cymru a dadl fer. Felly, caiff y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant lai o lawer o amser na chwaraeon. Nid wyf yn lladd ar chwaraeon, ond o'i gymharu â hynny mae'r Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant yn fater llawer mwy cymhleth na dadl gyffredinol ar chwaraeon ac yr wyf yn siomedig ynghylch

yr amser yr ydych wedi ei ganiatáu ar ei gyfer.

Andrew Davies: The third transfer of functions order is not yet ready. When it is ready for discussion and debate, it will be tabled and Members of all parties will be informed.

Andrew Davies: Nid yw'r trydydd gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau'n barod eto. Pan fydd yn barod i'w drafod a'i ddadlau, caiff ei gyflwyno a rhoddir gwybod i Aelodau'r holl bleidiau.

Sport is an important issue for Wales and the image of Wales. We thought it was appropriate, given that Wales has just hosted the Rugby World Cup, and the role and many major ramifications that sport has for the cultural life of Wales today, that we should table a significant debate.

Mae chwaraeon yn fater pwysig i Gymru ac i ddelwedd Cymru. Yr oeddem yn credu mai priodol, gan fod Cymru newydd gynnal Cwpan Rygbi'r Byd, ac oherwydd rôl chwaraeon a'u cyfraniad helaeth i fywyd diwylliannol Cymru heddiw, oedd cyflwyno dadl o bwys.

The Presiding Officer: I am allowed, under Standing Order No. 5.4A, to take one speaker from each party.

Y Llywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif 5.4A yr wyf yn cael derbyn un siaradwr o bob plaid.

Rod Richards: Has the Business Secretary pencilled in a date for a debate on the report of the north Wales child abuse inquiry?

Rod Richards: A yw'r Trefnydd wedi nodi dyddiad ar gyfer dadl ar adroddiad yr ymchwiliad ar gam-drin plant yng ngogledd Cymru?

Andrew Davies: No. That report has been delivered to the Secretary of State for Wales and has ramifications for Wales and the way in which we deal with such issues. The report will come before the Assembly for consideration in due course. I cannot say when that will be.

Andrew Davies: Nac ydwyf. Mae'r adroddiad hwnnw wedi ei anfon at Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac mae iddo oblygiadau i Gymru a'r modd y byddwn yn ymdrin â materion o'r fath. Daw'r adroddiad gerbron y Cynulliad i'w ystyried yn ei dro. Ni allaf ddweud pa bryd y bydd hynny.

Business Statement adopted.

Derbyniwyd y Datganiad Busnes.

Cymeradwyo Rheoliadau Cymorth Trwsio Cartref (Estyn) (Cymru) 1999
Approval of the Home Repairs Assistance (Extension) (Wales) Regulations 1999

The Secretary for the Environment and Local Government (Peter Law): I propose that the Assembly

(a) considers the report of the Legislation Committee relating to the Home Repair Assistance (Extension) (Wales) Regulations 1999 draft Order, laid in the Table Office on 22 October 1999;

(b) considers the principle of the draft Order; and

(c) approves that the Order is made in accordance with the revised draft laid in the Table Office on 9 November 1999.

Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law): Cynigiaf fod y Cynulliad

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar Orchymyn drafft Rheoliadau Cymorth Trwsio Cartref (Estyn) (Cymru) 1999, a gyflwynwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Hydref 1999;

(b) yn ystyried egwyddor y Gorchymyn drafft; ac

(c) yn cymeradwyo bod y Gorchymyn wedi ei wneud yn unol â'r drafft diwygiedig a gyflwynwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9

Tachwedd 1999.

This motion amends section 77(1)(e) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996, by extending the entitlement to home repair assistance to persons in Wales who are in receipt of income-based jobseeker allowance. This motion reflects our policy of social inclusion. Under the Act, a local housing authority may provide home repair assistance in the form of a grant or the provision of materials for small-scale works of repair, improvement or adaption to a dwelling. Assistance is generally limited to £2,000 per application and is not means-tested.

Mae'r cynnig hwn yn diwygio adran 77(1)(e) o'r Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adnewyddu 1996, drwy estyn yr hawl i dderbyn cymorth i atgyweirio tai i rai yng Nghymru sydd yn derbyn lwfans ceisio gwaith ar sail incwm. Mae'r cynnig hwn yn adlewyrchu'n polisi cynhwysiant cymdeithasol. O dan y Ddeddf, caiff awdurdod tai lleol ddarparu cymorth atgyweirio tai ar ffurf grant neu drwy ddarparu deunyddiau ar gyfer gwaith ar raddfa fechan i atgyweirio, gwella neu addasu annedd. Fel arfer, cyfyngir y cymorth i £2,000 y cais ac nid yw'n ddarostyngedig i brawf moddion.

In assessing any person's entitlement to home repair assistance, the local housing authority must be satisfied that conditions set out in section 77(1) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996 are met. These include the condition that the applicant, or his or her partner, is in receipt of one of the benefits listed in subsection (1)(e), such as income support, housing benefit and council tax benefit. These regulations extend the Act to enable income-based jobseeker allowance to be treated as a benefit within that subsection. Section 79(2) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996 gives the Assembly power to amend regulations to extend or restrict those entitled to home repair assistance according to their circumstances or other factors as the Assembly thinks fit. Subsection (3) enables this amendment to be made by reference to entitlement to housing benefit or any other form of assistance. There are no financial implications arising from the making of this instrument, although the eligibility criteria for housing renewal grants will be extended. The potential number of new beneficiaries is relatively small and the effect on public expenditure will be neutral as the grants are largely discretionary and the overall financial provision for local authorities remains unchanged.

Wrth asesu hawl rhywun i dderbyn cymorth atgyweirio cartref, rhaid i'r awdurdod tai lleol fod yn sicr bod yr amodau a nodir yn adran 77(1) o'r Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adnewyddu 1996 wedi eu cyflawni. Ymhlith y rhain y mae'r amod bod yr ymgeisydd, neu ei gymar ef neu hi, yn derbyn un o'r budd-daliadau a nodir yn isadran (1)(e), fel cymhorthdal incwm, budd-dâl tai a budd-dâl treth cyngor. Mae'r rheoliadau hyn yn estyn y Ddeddf fel y gellir trin lwfans ceisio gwaith ar sail incwm fel budd-dâl yn yr isadran honno. Mae adran 79(2) o'r Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adnewyddu 1996 yn rhoi hawl i'r Cynulliad ddiwygio rheoliadau er mwyn ymestyn neu gyfyngu ar y rhai sydd â hawl i dderbyn cymorth atgyweirio cartref yn eu hamgylchiadau neu ffactorau eraill fel y gwêl y Cynulliad orau. Mae isadran (3) yn rhoi'r hawl i wneud y diwygiad hwn drwy gyfeirio at hawl i dderbyn budd-dâl tai neu unrhyw ffurf arall ar gymorth. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o wneud yr offeryn hwn, er y bydd y meini prawf ar gyfer yr hawl i dderbyn grantiau adnewyddu tai yn cael eu hymestyn. Mae'r nifer a allai fanteisio o'r newydd yn gymharol fach a bydd yr effaith ar wariant cyhoeddus yn niwtral gan fod y grantiau'n rhai dewisol gan fwyaf ac ni fydd newid yn y ddarpariaeth ariannol gyffredinol i awdurdodau lleol.

While this change amends primary legislation affecting England and Wales, it is not contentious. It will correct an existing loophole and will ensure that potential

Er bod y newid hwn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd yn effeithio ar Gymru a Lloegr, nid yw'n ddadleuol. Bydd yn cau bwlch sydd yn bod ar hyn o bryd ac

claimants are not disadvantaged. I am sure that we all agree with that. Separate regulations that have the same effect are due to come into force in England tomorrow. I commend the motion to the Assembly.

yn sicrhau na fydd rhai a allai ymgeisio dan anfantais. Yr wyf yn sicr y byddwn oll yn cytuno â hynny. Mae rheoliadau ar wahân ac iddynt yr un effaith i ddod i rym yn Lloegr yfory. Cymeradwyaf y cynnig i'r Cynulliad.

Geraint Davies: Does Peter Law agree that housing renovation grants are a vital part of any housing improvement strategy and that more resources need to be targeted into this important area? There is a feeling that housing improvement grants are withering on the vine. For example, the grant spend in my constituency in the Rhondda has been reduced from £10 million five years ago to barely £2 million this year. Can Peter give an assurance that there are no plans to withdraw home improvement grants and that qualifying owner occupiers will eventually get the grants for which they are patiently waiting?

Geraint Davies: A yw Peter Law yn cytuno bod grantiau adnewyddu tai yn rhan hanfodol o unrhyw strategaeth gwella tai a bod angen targedu mwy o adnoddau at y maes pwysig hwn? Mae teimlad bod grantiau gwella tai yn gwywo ar y gangen. Er enghraifft, bu gostyngiad yn y gwariant ar grantiau yn f'etholaeth i yn y Rhondda o £10 miliwn bum mlynedd yn ôl i brin £2 filiwn eleni. A oes modd i Peter roi sicrwydd nad oes bwriad i dynnu grantiau gwella tai yn ôl ac y bydd perchnogion preswyl cymwys yn derbyn y grantiau y maent yn disgwyl yn amyneddgar amdanynt yn y pen draw?

David Davies: The Conservative Group cautiously welcomes these proposals. As all Members in this Chamber will agree, the Conservatives have always supported any moves that will improve the standard of housing, particularly at the lower end of the income scale. That is why we brought about a policy of allowing people living in council houses to buy their own homes; something to which many of them aspired. We hope that these proposals will achieve the intended objective. If they do not, we will voice constructive criticism. We hope that is not the case and that they will improve the standard of housing. We therefore support them.

David Davies: Mae'r Grŵp Ceidwadol yn estyn croeso gofalus i'r cynigion hyn. Fel y cytuna'r holl Aelodau yn y Siambr hon, mae'r Ceidwadwyr wedi cefnogi erioed unrhyw gamau i wella safon tai, yn enwedig ym mhen isaf y raddfa incwm. Dyna pam y cyflwynasom bolisi o ganiatáu i bobl sydd yn byw mewn tai cyngor brynu eu cartrefi eu hunain; rhywbeth y mae llawer ohonynt wedi dyheu amdano. Gobeithiwn y bydd y cynigion hyn yn cyflawni'r amcan a fwriedir. Os na wnânt hynny, byddwn yn mynegi beirniadaeth adeiladol. Gobeithiwn na fydd hynny'n digwydd ac y byddant yn gwella safon tai. Yr ydym felly'n eu cefnogi.

2:58 p.m.

Peter Black: I also welcome this motion. It is important that as many people as possible have access to these repair grants if the grants are to tackle the disrepair in housing in Wales. As the Secretary for the Environment and Local Government knows, there is a backlog of repairs of £788 million needed to deal with the levels of unfitness of owner occupied homes, as identified by the Welsh House Condition Survey. This proposal goes some way towards helping those with low incomes or those on jobseeker allowance, especially in being able to claim assistance to repair their homes.

Peter Black: Yr wyf finnau'n croesawu'r cynnig hwn hefyd. Mae'n bwysig y bydd cynifer o bobl ag y bo modd yn cael mynediad at y grantiau atgyweirio hyn os yw'r grantiau hyn i fynd i'r afael â dadfeiliad mewn tai yng Nghymru. Fel y gŵyr Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol, mae ôl-groniad o atgyweiriadau angenrheidiol o £788 miliwn er mwyn delio â'r lefelau o anaddasrwydd yng nghartrefi perchnogion preswyl, fel y nodwyd yn Arolwg Cyflwr Tai Cymru. Mae'r cynnig hwn yn cyfrannu rywfaint at helpu'r rhai ag incwm isel neu'r rhai sydd yn derbyn y lwfans ceisio gwaith, yn enwedig drwy roi hawl iddynt hawlio cymorth i atgyweirio eu

cartrefi.

I draw the attention of the Secretary for the Environment and Local Government to the fact that means testing is a measure introduced by the previous Government. Grants have been means tested. It is worthwhile pushing for a review to consider whether means testing is still an appropriate way forward in providing homeowner grants for improvement, renovation and repair.

Tynnaf sylw Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol at y ffaith bod y prawf moddion yn fesur a gyflwynwyd gan y Llywodraeth flaenorol. Mae'r grantiau'n ddarostyngedig i brawf moddion. Mae'n werth pwyso am adolygiad i ystyried a yw prawf moddion yn ffordd briodol ymlaen o hyd wrth ddarparu grantiau i berchnogion tai er mwyn gwella, adnewyddu ac atgyweirio.

Like Geraint Davies, I am concerned about the level of money available for housing renewal grants in Wales. The Secretary for the Environment and Local Government has made it clear that these grants are discretionary, as are renovation grants. Local authorities have been exercising their discretion because of the diminishing level of resources available to them. Instead, they have been putting their money into the mandatory disabled facilities grants. As a result, improvement and repair grants have been less available and people have been less able to obtain them. That is a matter for concern. Although we welcome extending the categories whereby people can apply for these grants, the impact on the problem in Wales will be minimal without the money to pay the grants. The problem has to be addressed. We have to look at the total amount of money that is put into housing in Wales.

Fel Geraint Davies, yr wyf yn bryderus ynghylch y lefel o arian sydd ar gael ar gyfer grantiau adnewyddu tai yng Nghymru. Mae Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol wedi rhoi ar ddeall bod y grantiau hyn yn ddewisol, fel grantiau adnewyddu. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn arfer eu hawl i ddewis oherwydd y gostyngiad yn lefel yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Yn lle hynny, buont yn rhoi eu harian at y grantiau gorfodol ar gyfer cyfleusterau i'r anabl. O ganlyniad i hynny, bu argaeledd grantiau gwella ac atgyweirio yn llai ac mae llai o gyfle i bobl eu cael. Mae hynny'n peri pryder. Er ein bod yn croesawu ymestyn y categorïau sydd yn galluogi pobl i ymgeisio am y grantiau hyn, prin fydd yr effaith ar y broblem yng Nghymru heb arian i dalu'r grantiau. Rhaid ymdrin â'r broblem. Rhaid inni edrych ar gyfanswm yr arian a roddir ar gyfer tai yng Nghymru.

Janet Ryder: We agree with what has been said. These grants are vital and necessary at the moment. However, we would like to emphasise aspects of them, particularly those aspects that would cover the installation of vital insulation measures. These measures can make the difference between life and death for many vulnerable people in society. Every year, we hear about people who die because they are not able to keep their homes warm. We cannot allow this to continue. To decrease the number of those who suffer from fuel poverty, we must improve insulation programmes and ensure that heating is effective so that homes are kept warm. There are colder countries than ours that have lower winter mortality rates. One such country is Scandinavia where there are energy efficient homes and where maximum benefit is derived from the fuel for heating.

Janet Ryder: Cytunwn â'r hyn a ddywedwyd. Mae'r grantiau hyn yn hanfodol ac yn angenrheidiol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, hoffem bwysleisio rhai agweddau arnynt, yn enwedig yr agweddau hynny a fyddai'n cynnwys gosod mesurau ynysu hanfodol. Gall y mesurau hyn olygu'r gwahaniaeth rhwng bywyd a marwolaeth i lawer o bobl sydd yn agored i niwed yn y gymdeithas. Bob blwyddyn, clywn am bobl sydd yn marw am nad ydynt yn gallu cadw eu cartrefi'n gynnes. Ni allwn adael i hynny barhau. Er mwyn lleihau'r nifer sydd yn dioddef o dlodi tanwydd, rhaid inni wella rhaglenni ynysu a sicrhau bod gwresogi'n effeithiol fel y cedwir cartrefi'n gynnes. Ceir gwledydd sydd yn oerach na hon sydd â chyfraddau marwolaethau is yn y gaeaf. Un wlad o'r fath yw Llychlyn lle y ceir cartrefi ynni-effeithlon a lle y ceir y budd mwyaf

We need to recognise the importance and significance of the link between poor quality housing and continually leaking heat.

posibl o'r tanwydd er mwyn gwresogi. Rhaid inni gydnabod pwysigrwydd ac arwyddocâd y cyswllt rhwng tai o ansawdd isel a gwres a gollir yn barhaus.

People who are fuel poor are in danger of becoming another statistic this winter. Fuel poverty, whatever definition is used to describe it, is a continuing national scandal. The Home Energy Conservation Act 1995 has prompted several home energy efficiency schemes. Care and repair agencies are vital in providing a service for vulnerable householders. These schemes need to be extended. We hope that these benefits will help to achieve that. We therefore welcome this measure.

Mae pobl sydd yn dlawd o ran tanwydd mewn perygl o ddod yn ystadegyn arall y gaeaf hwn. Mae tlodi tanwydd, sut bynnag y'i diffinnir, yn warth cenedlaethol parhaus. Mae'r Ddeddf Arbed Ynni Cartref 1995 wedi symbylu sawl cynllun effeithlonrwydd ynni yn y cartref. Mae asiantaethau gofal a thrwsio yn hanfodol wrth ddarparu gwasanaeth i berchnogion tai sydd yn agored i niwed. Mae angen ymestyn y cynlluniau hyn. Gobeithiwn y bydd y manteision hyn yn gymorth i gyflawni hynny. Yr ydym felly'n croesawu'r mesur hwn.

Peter Law: I appreciate my colleagues' comments and the general welcome for this motion. Geraint's point about improvement grants and available funding links in well with Peter Black's point about the concern about backlog of repairs. There is no intention on our part to let improvement grants wither on the vine.

Peter Law: Gwerthfawrogaf sylwadau fy nghydweithwyr a'r croeso cyffredinol i'r cynnig hwn. Mae pwynt Geraint ynghylch grantiau gwella a'r arian sydd ar gael yn cysylltu'n dda â phwynt Peter Black ynghylch y pryder am yr ôl-groniad o atgyweiriadau. Nid oes bwriad o'n rhan ni i adael i grantiau gwella wywo ar y gangen.

In 1998-99 and 1999-2000, there was £125 million available to local authorities to spend at their discretion on supplementary or basic credit approvals. In 1998, local authorities spent £11.3 million on home repair assistance. In the same year, they spent £41 million on mandatory renovation grants, £55 million on discretionary renovation grants and £20 million on disabled facilities grants. It is therefore clear that a considerable amount of money is made available and that local authorities work, as always, in partnership with us to ensure that they do the best for the people of Wales. I welcome David Davies's comments. We do not agree often and I am sure that it will not happen often again but I appreciate it very much.

Yn 1998-99 a 1999-2000, yr oedd £125 miliwn ar gael i awdurdodau lleol i'w wario yn ôl eu doethineb ar gymeradwyaethau credyd atodol neu sylfaenol. Yn 1998, gwariwyd £11.3 miliwn gan yr awdurdodau lleol ar gymorth atgyweirio cartref. Yn yr un flwyddyn, gwariasant £41 miliwn ar grantiau adnewyddu gorfodol, £55 miliwn ar grantiau adnewyddu dewisol a £20 miliwn ar grantiau ar gyfer cyfleusterau i'r anabl. Mae'n amlwg felly fod cryn swm o arian wedi ei ddarparu a bod yr awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â ni, fel y gwnaethant erioed, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud eu gorau dros bobl Cymru. Croesawaf sylwadau David Davies. Ni fyddwn yn cytuno'n aml ac yr wyf yn sicr na fydd hyn yn digwydd yn aml eto ond gwerthfawrogaf hyn yn fawr iawn.

Peter Black mentioned means testing. Our approach to that must be realistic. We do not have a bottomless pit of money. There is no doubt that we must target the most needy people in society, as successive governments have recognised. Discretionary grants are entirely for local authorities' discretion and I would not want to fetter them.

Soniodd Peter Black am y prawf moddion. Rhaid i'n hagwedd at hynny fod yn realistig. Nid oes gennym bwll diwaelod o arian. Nid oes amheuaeth bod rhaid inni dargedu'r bobl fwyaf anghenus yn y gymdeithas, fel y mae'r naill lywodraeth ar ôl y llall wedi cydnabod. Mae grantiau dewisol yn fater i'w benderfynu yn ôl doethineb yr awdurdodau lleol yn llwyr

ac ni fyddwn am eu llyffetheirio.

Janet Ryder made an interesting point about fuel poverty. That concerns us all. We all try to do the best for our people to ensure that they enjoy the benefits of a warm, dry home, which gives them a certain quality of life. I endorse that. Only a fortnight ago I was pleased to announce that Wales will receive £15 million over the next two years for energy efficiency schemes that will benefit our people. This Government is listening and is taking action to ensure that we take every opportunity to encourage insulation in homes throughout the country.

Gwnaeth Janet Ryder bwynt diddorol am dlodi tanwydd. Mae hynny o bwys i bawb ohonom. Byddwn oll yn ceisio gwneud ein gorau dros ein pobl er mwyn sicrhau eu bod yn mwynhau manteision cartref sych a chynnes, sydd yn rhoi ansawdd bywyd arbennig iddynt. Cefnogaf hynny. Brin bythefnos yn ôl yr oeddwn yn falch o gyhoeddi y bydd Cymru'n derbyn £15 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf ar gyfer cynlluniau effeithlonrwydd ynni er budd ein pobl. Mae'r Llywodraeth hon yn gwrando ac yn gweithredu i sicrhau y manteisiwn ar bob cyfle i hybu ynysu mewn cartrefi ym mhob cwr o'r wlad.

I am pleased that you mentioned care and repair because I have recently, with the co-operation of the Finance Secretary, earmarked an increase of £200,000 in Wales's care and repair scheme budget over the next financial year. They have been particularly important and successful schemes which allow people, particularly older and disabled people, to remain in the community in the comfort of their own homes. That is important. With that in mind, I tell my friends on the left-hand side that I am saddened that the Vale of Glamorgan Council may not be able to fund a care and repair scheme in future. That would be a sad retrograde step. I hope to have a discussion with the leader of that council in the future to persuade him and the council that it is in the interest of the people of the Vale of Glamorgan for the care and repair scheme to carry on its excellent work. Any support that you can give to that proposal would be appreciated, bearing in mind the political control of the Vale of Glamorgan.

Mae'n dda gennyf eich bod wedi crybwyll gofal a thrwsio oherwydd yn ddiweddar, gyda chydweithrediad yr Ysgrifennydd Cyllid, yr wyf wedi clustnodi cynnydd o £200,000 yng nghyllideb cynlluniau gofal a thrwsio Cymru dros y flwyddyn ariannol nesaf. Bu'r rhain yn gynlluniau arbennig o bwysig a llwyddiannus sydd yn caniatáu i bobl, yn enwedig pobl hŷn ac anabl, aros yn y gymuned yng nghysur eu cartrefi eu hunain. Mae hynny'n bwysig. Gan gofio hynny, dywedaf wrth fy ffrindiau ar yr ochr chwith ei bod yn fater o dristwch imi na fydd Cyngor Bro Morgannwg o bosibl yn gallu cyllido cynllun gofal a thrwsio yn y dyfodol. Byddai hynny'n gam trist yn ôl. Gobeithiaf gael trafodaeth gydag arweinydd y cyngor hwnnw yn y dyfodol er mwyn ei berswadio ef a'r cyngor ei bod er budd pobl Bro Morgannwg i'r cynllun gofal a thrwsio barhau â'i waith rhagorol. Byddwn yn gwerthfawrogi unrhyw gefnogaeth y gellwch ei rhoi i'r cynnig hwnnw, o gofio'r rheolaeth wleidyddol ym Mro Morgannwg.

I am pleased to close the debate as it gives me the opportunity to re-emphasise the important contribution that the home repair assistance will make to our wider policies of private sector renewal and the promotion of social inclusion. Much private sector renewal is undertaken on the back of the renovation grant system which has seen a number of changes since the current arrangements were introduced in 1989. However, the grant's fundamental principles of ensuring the availability of resources to help the tenants

Yr wyf yn falch o ddod â'r ddadl i ben gan fod hynny'n rhoi cyfle imi ailbwysleisio'r cyfraniad pwysig a wna'r cymorth trwsio cartref i'n polisïau ehangach o adnewyddu'r sector preifat a hybu cynhwysiant cymdeithasol. Cyflawnir llawer o'r adnewyddu yn y sector preifat drwy'r system grantiau adnewyddu a welodd nifer o newidiadau ers cyflwyno'r trefniadau presennol yn 1989. Fodd bynnag, ni fu newid yn egwyddorion sylfaenol y grant o sicrhau bod adnoddau ar gael i helpu'r tenantiaid a'r

and homeowners in the greatest need have not changed. Assistance is also available through disabled facilities grants and, most importantly, through home repair assistance. The latter is particularly significant for elderly people and has enabled many to continue to live in their own homes in comfort and security, close to neighbours, friends and relatives at relatively modest cost. Without such support, those people could well have had to leave their homes and move into care.

perchnogion tai mwyaf anghenus. Mae cymorth ar gael hefyd drwy grantiau cyfleusterau i'r anabl ac, yn bwysicaf, drwy gymorth trwsio cartref. Mae'r olaf yn arbennig o bwysig i bobl oedrannus ac mae wedi galluogi llawer i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain mewn cysur a diogelwch, yn agos at eu cymdogion, eu ffrindiau a'u perthnasau am gost gymharol fach. Heb gefnogaeth o'r fath, mae'n ddigon posibl y byddai'r bobl hynny wedi gorfod gadael eu cartrefi a symud i dderbyn gofal.

In this regard, I have already mentioned the importance and benefits of the care and repair agencies. Such assistance, and the widening of the ambit to include people who receive income-based jobseeker allowance, meet another of the Assembly's values by focusing resources and tackling the problems of those most in need. I therefore ask you to support this motion. I would be pleased to see an unanimous vote.

Yn hynny o beth, yr wyf eisoes wedi crybwyll pwysigrwydd a manteision asiantaethau gofal a thrwsio. Mae cymorth o'r fath, ac ehangu ei gwmpas i gynnwys pobl sydd yn derbyn lwfans ceisio gwaith ar sail incwm, yn gyson ag un arall o werthoedd y Cynulliad drwy ganolbwyntio adnoddau ac ymdrin â phroblemau'r mwyaf anghenus. Gofynnaf felly ichi gefnogi'r cynnig hwn. Byddwn yn falch o weld pleidlais unfrydol.

3:08 p.m.

The Presiding Officer: We will now vote on the motion.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig.

Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 43, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
The Assembly divided: For 43, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Ron
Essex, Sue
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Halford, Alison
Hancock, Brian
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Gareth

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Michael, Alun
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty

Motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig.

Darlledu yng Nghymru
Broadcasting in Wales

The Presiding Officer: I have selected the following amendments: amendments 1 and 2 in the name of Elin Jones, amendment 3 in the name of Cynog Dafis and amendments 4, 5 and 6 in the name of Christine Humphreys.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Elin Jones, gwelliant 3 yn enw Cynog Dafis a gwelliannau 4, 5 a 6 yn enw Christine Humphreys.

The First Secretary: I propose that

the National Assembly notes the Welsh Assembly Select Committee Report entitled 'Broadcasting in Wales and the National Assembly' and its recommendations.

Y Prif Ysgrifennydd: Cynigiaf fod

y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi Adroddiad Pwyllgor Dethol Cynulliad Cymru o'r enw 'Broadcasting in Wales and the National Assembly' a'i argymhellion.

I open this debate on behalf of Tom Middlehurst, who has flu. I am sure everyone will want to wish him a speedy recovery. Indeed, there is no doubt that Tom will be watching this debate on television from his sick bed, so I am sure he will feel much better by the end of it.

I am glad to contribute to such an important debate. We come to a debate on broadcasting just six months after the start of debating in this Chamber. It is worth reminding ourselves of how new this institution is, how far we have travelled in a short time and also how far we must go to win recognition and respect as a new institution. That is a challenge to every Assembly Member. The broadcasting bodies and the newspapers of Wales have shown optimism and respect for the idea of the Assembly through the time and resources that they have put in. That is why we find

Agoraf y ddadl hon ar ran Tom Middlehurst, sydd â'r ffliw. Yr wyf yn siŵr y bydd pawb am ddymuno gwellhad buan iddo. Yn wir, mae'n sicr y bydd Tom yn gwylio'r ddadl hon ar y teledu o'i wely cystudd, felly yr wyf yn siŵr y bydd yn teimlo'n well o lawer erbyn ei diwedd.

Yr wyf yn falch o gyfrannu i ddadl mor bwysig. Yr ydym yn cyrraedd dadl ar ddarlledu dim ond chwe mis ar ôl dechrau dadlau yn y Siambr hon. Mae'n werth inni gofio pa mor newydd yw'r sefydliad hwn, pa mor bell y bu inni deithio mewn cyfnod byr a hefyd pa mor bell y bydd yn rhaid inni fynd i ennill cydnabyddiaeth a pharch fel sefydliad newydd. Mae hynny'n her i bob Aelod Cynulliad. Mae'r cyrff darlledu a'r papurau newydd yng Nghymru wedi amlygu gobaith a pharch tuag at y syniad o Gynulliad drwy'r amser a'r adnoddau y maent wedi eu

ourselves under such intense scrutiny in this goldfish bowl of an Assembly in our very early days. In many ways, we are like toddlers taking their first steps in the full glare of publicity. We are finding out what works and what does not work, exploring what it means to be an open and inclusive Assembly and having every move examined in a way which Members of Parliament and councillors have never had to experience.

cyfrannu. Dyna pam yr ydym yn derbyn y fath sylw manwl yn y bowlen bysgod hon o Gynulliad yn ein dyddiau cynnar. Ar lawer ystyr, yr ydym fel plant bach yn cymryd eu camau cyntaf dan lygad y cyhoedd. Yr ydym yn canfod yr hyn sydd yn gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio, yn ymchwilio i'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn Gynulliad agored a chynhwysol a chymryd archwilio pob symudiad o'n heiddo mewn modd na fu erioed raid i Aelodau Seneddol a chynghorwyr ei brofi.

It is not surprising that we look less than perfect. However, the Assembly will emerge all the stronger for it. Trial by press and television provides the challenge and the opportunity to help our growth into a mature and effective body. For example, look at the way we deal with questions. Until July, I was answering questions here on a Tuesday and then travelling to Westminster to answer Welsh questions from MPs on Wednesday. I have often reflected on the fact that it was easier to indulge in the crude party political knockabout at Westminster. Here, we have established a new style of questioners generally seeking information because they want to know the answer, and Cabinet members and myself trying to give an answer. We engage in genuine debate on important issues. People watching us on television have noticed a difference and they prefer it.

Nid yw'n syndod nad ydym yn ymddangos yn gwbl berffaith. Fodd bynnag, bydd y Cynulliad yn gryfach byth o'r herwydd. Mae sefyll prawf o flaen y wasg a'r teledu yn rhoi'r her a'r cyfle i'n helpu i dyfu'n gorff aeddfed ac effeithiol. Er enghraifft, ystyriwch y modd y byddwn yn ymdrin â chwestiynau. Hyd at Orffennaf, yr oeddwn yn ateb cwestiynau yma ar ddydd Mawrth ac yn teithio wedyn i San Steffan i ateb y cwestiynau Cymreig gan Aelodau Seneddol ar ddydd Mercher. Yr wyf wedi myfyrio'n aml ynghylch y ffaith ei bod yn haws ymroi i'r colbio pleidiol di-chwaeth yn San Steffan. Yma, yr ydym wedi sefydlu arddull newydd lle y bydd holwyr ar y cyfan yn ceisio gwybodaeth am eu bod am wybod yr ateb, ac aelodau'r Cabinet a minnau'n ceisio rhoi ateb. Yr ydym yn cynnal dadl wirioneddol ar faterion pwysig. Mae rhai sydd yn ein gweld ar y teledu wedi sylwi ar y gwahaniaeth ac mae'n well ganddynt ein dull ni.

Like trial by combat, Westminster politics, apart from being bloody, has its moments of drama and entertainment. However, a mature democracy requires mature politics: real exchanges on real issues. The viewing public appear to prefer real attempts to reconcile differences of principle or opinion instead of yah-boo exchanges. After 734 years, Westminster has not yet got it right, whereas we in Wales have the chance to do it right and to do it our way. That applies to Plenary debates like today's debate on broadcasting. We have the opportunity to raise the quality of debate on broadcasting in Wales. The question at the end of today's session will not simply be 'What did we decide?' but 'What value did we add to public knowledge and understanding?'. That test should be applied to every future debate in this Chamber.

Fel prawf drwy ornest, fe geir eiliadau o ddrama ac o adloniant, yn ogystal â cholli gwaed, yng ngwleidyddiaeth San Steffan. Fodd bynnag, mae ar ddemocratiaeth aeddfed angen gwleidyddiaeth aeddfed: dadleuon gwirioneddol ar faterion gwirioneddol. Mae'n ymddangos ei bod yn well gan y gwylwyr weld ymdrechion gwirioneddol i gymodi rhwng rhai â gwahaniaethau barn neu egwyddor yn hytrach na galw enwau. Ar ôl 734 o flynyddoedd, nid yw San Steffan wedi ei gael yn iawn eto, tra cawn gyfle yng Nghymru i'w wneud yn iawn ac yn ein dull ein hunain. Mae hynny'n wir am ddadleuon yn y Cyfarfod Llawn fel y ddadl heddiw ar ddarlledu. Mae gennym gyfle i wella ansawdd y ddadl ar ddarlledu yng Nghymru. Y cwestiwn ar ddiwedd y sesiwn heddiw, yn ogystal â 'Beth a benderfynasom?', fydd

‘Beth a wnaethom i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y cyhoedd?’ Dylid cymhwyso’r prawf hwnnw at bob dadl yn y dyfodol yn y Siambr hon.

Let us be clear. We do not have responsibility for broadcasting, and rightly so in my view. The regulation and financing of broadcasting should be set within a wider canvas. The Department for Culture, Media and Sport provides for the whole of the United Kingdom. Devolution was never intended to give us control over everything. Devolution gives us powers over appropriate issues and a say in others as partners in the governance of the UK. It gives us a voice for Wales in issues in which we have an interest rather than a responsibility, as with today’s debate on broadcasting. Let us use that voice wisely.

Gadewch inni ddeall hyn yn iawn. Nid oes gennym gyfrifoldeb dros ddarlledu, ac felly y dylai fod yn fy marn i. Dylai rheoli ac ariannu darlledu gael eu hystyried yn erbyn cefndir ehangach. Mae’r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn darparu ar gyfer y cyfan o’r Deyrnas Unedig. Nid oedd erioed fwriad i ddatganoli roi rheolaeth inni dros bob peth. Mae datganoli’n rhoi pwerau i ni dros faterion priodol a llais mewn rhai eraill fel partneriaid yn nhrefn llywodraeth y DU. Mae’n rhoi llais i ni dros Gymru mewn materion y mae gennym ddiddordeb ynddynt yn hytrach na chyfrifoldeb drostynt, fel y ddadl heddiw ar ddarlledu. Gadewch inni arfer y llais hwnnw’n ddoeth.

Let us welcome the interest of broadcasters in our views. For instance, party leaders and others have received a letter of briefing from Geraint Talfan Davies on behalf of the BBC, outlining the BBC’s devolution response and the challenges of the digital age. S4C and HTV have been equally positive in their response. BBC governors have been to Cardiff to engage with the changes stimulated by the arrival of the Assembly. Broadcasters are engaging with the process of change. They are creating the new journalism that is necessary in the age of the new politics of Wales. ‘New journalism’ is a phrase that has sometimes been misunderstood. I do not mean a softer or a less challenging journalism but a sharper, more focused, more mature challenge which is made possible by the different and sharper nature of the political debate which we can and will create in this Chamber.

Gadewch inni groesawu diddordeb y darlledwyr yn ein barn. Er enghraifft, mae arweinyddion y pleidiau ac eraill wedi derbyn llythyr briffio oddi wrth Geraint Talfan Davies ar ran y BBC, yn amlinellu ymateb y BBC i ddatganoli a heriau’r oes ddigidol. Bu S4C a HTV yr un mor gadarnhaol yn eu hymateb. Bu llywodraethwyr y BBC yng Nghaerdydd er mwyn ymwneud â’r newidiadau a symbylwyd gan ddyfodiad y Cynulliad. Mae’r darlledwyr yn ymwneud â’r broses o newid. Hwy sydd yn creu’r newyddiaduriaeth newydd sydd yn angenrheidiol yn oes gwleidyddiaeth newydd Cymru. Mae ‘newyddiaduriaeth newydd’ yn ymadrodd sydd wedi ei gamddeall weithiau. Nid wyf yn golygu newyddiaduraeth fwy meddal neu lai beiddgar ond her lymach, fanylach, aeddfetach sydd yn bosibl oherwydd natur wahanol a manylach y drafodaeth wleidyddol y gallwn ac y byddwn yn ei chreu yn y Siambr hon.

I give one example. During the Assembly election campaign, I and the other party leaders spent many hours in television studios on one panel after the other, answering questions for broadcasters and audiences. By far the best and most challenging to us politicians was *Y Byd ar Bedwar*, produced by HTV and broadcast on S4C. A number of young people had been asked to research a

Rhoddaf un enghraifft. Yn ystod ymgyrch etholiadau’r Cynulliad, treuliais i a’r arweinyddion plaid eraill oriau lawer mewn stiwdios teledu ar un panel ar ôl y llall, yn ateb cwestiynau oddi wrth ddarlledwyr a chynulleidfaoedd. Y rhaglen orau a mwyaf heriol i ni wleidyddion o bell ffordd oedd *Y Byd ar Bedwar*, a gafodd ei chynhyrchu gan HTV a’i darlledu ar S4C. Gofynnwyd i nifer

topic and to question the panel. They gave us a harder time than most, yet the debate, modulated—or should that be 'moderated'—by Tweli Griffiths, was by far the best of the campaign. The debate came alive because it was informed as well as challenging. The young people's right to demand answers was given authority by the work they had done in preparing for the broadcast. They breathed fresh life into a format that had become stale and ever more confrontational.

o bobl ifainc ymchwilio i bwnc a holi'r panel. Rhoesant brawf anos arnom na'r rhan fwyaf, ond y ddadl hon, a osodwyd—ynteu ai 'cymedrolwyd' yw'r gair—gan Tweli Griffiths, oedd yr orau yn yr ymgyrch o bell ffordd. Daeth y ddadl yn fyw am ei bod yn oleuedig yn ogystal â bod yn heriol. Rhoddwyd awdurdod i hawl y bobl ifainc i fynnu atebion oherwydd y gwaith a wnaethant wrth baratoi ar gyfer y darllediad. Yr oeddent wedi rhoi bywyd newydd mewn fformat a aethai'n hen ac yn fwyfwy gwrthdrawiadol.

The devolution settlement makes specific provision for the Assembly's involvement in broadcasting. First, in line with Labour's 1997 manifesto, the Department for Culture, Media and Sport will consult the Assembly on appointments to broadcasting bodies and on broadcasting matters of particular relevance to Wales. Secondly, under the Government of Wales Act 1998, the Secretary of State for Wales will consult the Assembly about proposals for future primary legislation at Westminster. This will include future broadcasting legislation.

Mae'r setliad datganoli'n darparu'n arbennig ar gyfer rhan y Cynulliad mewn darlledu. Yn gyntaf, yn unol â maniffesto Llafur yn 1997, bydd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ymgynghori â'r Cynulliad ar benodiadau i gyrff darlledu ac ar faterion darlledu sydd â chysylltiad arbennig â Chymru. Yn ail, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n ymgynghori â'r Cynulliad ynghylch cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys deddfwriaeth ar ddarlledu yn y dyfodol.

Thirdly, the public service broadcasting bodies and the regulators will present their annual reports to the Assembly. Symbolically, they presented me with copies of those reports this year in advance of devolution and I have placed copies in the Library for the use of Members. Fourthly, we regulate the broadcasting of our own proceedings. We set the rules for this in the Code of Conduct for Broadcasting the Proceedings of the National Assembly for Wales, which we debated and adopted in July. I believe that Jane Davidson, as the Chair of the Assembly Broadcasting Company Board that deals with that regulation, may make a contribution to this debate. Fifthly, the Government of Wales Act 1998 permits the Assembly to consider any matter which affects Wales, including broadcasting matters, as we are doing today.

Yn drydydd, bydd cyrff a rheoleiddwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cyflwyno eu hadroddiadau blynyddol i'r Cynulliad. Fel arwydd symbolaidd, cyflwynasant gopïau o'r adroddiadau hynny imi eleni cyn datganoli a gosodais gopïau yn y Llyfrgell at ddefnydd yr Aelodau. Yn bedwerydd, yr ydym yn rheoleiddio darlledu ein trafodion ein hunain. Yr ydym yn gosod y rheolau ar gyfer hynny yn y Cod Ymddygiad ar gyfer Darlledu Trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gafodd ei drafod a'i dderbyn gennym yng Ngorffennaf. Credaf y bydd Jane Davidson, fel Cadeirydd Bwrdd Cwmni Darlledu'r Cynulliad sydd yn ymdrin â'r rheoleiddio hwnnw, yn cyfrannu i'r ddadl hon. Yn bumed, mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn caniatáu i'r Cynulliad ystyried unrhyw fater sydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys materion darlledu, fel yr ydym yn gwneud heddiw.

On top of these legal powers, the Assembly has another equally important role. That is to encourage the highest standards across broadcasting in Wales. The challenge for us

Yn ogystal â'r pwerau cyfreithiol hyn, mae gan y Cynulliad rôl arall sydd yr un mor bwysig. Hynny yw, hybu'r safonau uchaf ym mhob agwedd ar ddarlledu yng Nghymru. Yr

is to be creative and to use our good relationship with the broadcasters to promote quality programming which meets the needs of viewers across Wales and which reaches out to new audiences in the United Kingdom and elsewhere. We should promote programmes which reflect the best of Wales and which project the confidence and the optimism of our country at the turn of the millennium. In particular, I would like to encourage programming which addresses the interests and aspirations of young people and which helps to foster the wealth of young creative talent we have in Wales today. The work we are undertaking to promote the interest of young people in the Assembly may give them an opportunity to contribute in this direction.

her yw inni fod yn greadigol a defnyddio ein perthynas dda â'r darlledwyr i hybu rhaglenni o ansawdd da sydd yn diwallu anghenion gwylwyr ym mhob cwr o Gymru ac yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd yn y Deyrnas Unedig ac mewn mannau eraill. Dylem hybu rhaglenni sydd yn adlewyrchu'r gorau o Gymru ac sydd yn cyfleu hyder a gobaith ein gwlad ar droad y mileniwm. Yn benodol, hoffwn annog rhaglenni sydd yn ymdrin â diddordebau a dyheadau pobl ifainc ac sydd yn helpu i feithrin y cyfoeth o ddoniau creadigol ifainc sydd gennym yng Nghymru heddiw. Efallai y bydd y gwaith yr ydym yn ymgymryd ag ef i hybu diddordeb pobl ifainc yn y Cynulliad yn rhoi cyfle iddynt gyfrannu yn y cyfeiriad hwn.

Devolution poses a challenge for broadcasters: for instance, how to balance programmes for the United Kingdom and programmes for Wales. I commend the BBC's governors for getting it right over the six o'clock news. They were right to keep that as a UK programme. I have no doubt that Welsh and Scottish broadcasters would produce high quality products, but the network needs to reflect the whole of the UK.

Mae datganoli'n cynnig her i ddarlledwyr: er enghraifft, sut i gydbwyso rhaglenni ar gyfer y Deyrnas Unedig a rhai ar gyfer Cymru. Canmolaf lywodraethwyr y BBC am wneud y peth iawn gyda newyddion chwech o'r gloch. Yr oeddent yn iawn i'w chadw'n rhaglen i'r DU. Nid wyf yn amau y byddai darlledwyr Cymru a'r Alban yn cynhyrchu gwaith o ansawdd uchel, ond mae angen i'r rhwydwaith adlewyrchu'r cyfan o'r DU.

3:18 p.m.

The suggestion that the network and the six o'clock news should include Wales, that network services need to be sensitised to Welsh events and interests and that resources should be provided for that interface as well as for expanding coverage of devolved politics, are all good and wise decisions. I hope that the BBC will make this work in practice.

Mae'r awgrym y dylai'r rhwydwaith a newyddion chwech o'r gloch gynnwys Cymru, bod angen i wasanaethau'r rhwydwaith fod yn sensitif i ddigwyddiadau a buddiannau Cymru ac y dylid darparu adnoddau ar gyfer y rhyngwyneb hwnnw yn ogystal ag ehangu'r sylw i wleidyddiaeth ddatganoledig, oll yn benderfyniadau da a doeth. Gobeithiaf y bydd y BBC yn gallu rhoi hyn ar waith yn ymarferol.

I also hope that on BBC, HTV and S4C we will see a resonance between the topics that are researched and explored in current affairs programmes and the work of the Subject Committees, which must become the powerhouses of the Assembly. The Committees are also experiencing constructive growing pains. They need to be seen to address major issues, through a considered long-term programme, each developing its 'select committee' role and contributing to policy making on specific

Gobeithiaf hefyd y gwelwn ar BBC, HTV a S4C fod y pynciau yr ymchwilir iddynt ac a drafodir mewn rhaglenni materion cyfoes yn atseinio gwaith y Pwyllgorau Pwnc, y bydd yn rhaid iddynt fod yn bwerdai i'r Cynulliad. Mae'r Pwyllgorau hefyd yn profi poenau tyfu adeiladol. Mae angen gweld eu bod yn rhoi sylw i faterion o bwys, drwy raglen dymor hir ystyriol, a phob un yn datblygu ei rôl 'pwyllgor dethol' ac yn cyfrannu at lunio polisïau ar faterion penodol. Mor bwerus y byddai pe bai dadleuon y Pwyllgorau'n

issues. How powerful it would be if Committee debates were held against a background of informed, investigative journalism and a groundswell of public debate: a debate informed and stimulated by broadcasters and politicians engaged in resolving the challenging issues of public life. We have an opportunity to do things differently in Wales. If we can get this right, politics and broadcasting will be more challenging and less comfortable, but also more productive and more deserving of public confidence.

digwydd yn erbyn cefndir o newyddiaduriaeth ymchwiliol a gwybodus ac ymchwydd mewn trafodaeth gyhoeddus: trafodaeth a oleuir ac a symbylir gan ddarlledwyr a gwleidyddion sydd yn ymwneud â datrys materion sydd yn cynnig her mewn bywyd cyhoeddus. Mae gennym gyfle i wneud pethau'n wahanol yng Nghymru. Os gallwn wneud hyn yn iawn, bydd gwleidyddiaeth a darlledu'n cynnig mwy o her a bydd yn llai cyfforddus, ond bydd hefyd yn fwy cynhyrchiol ac yn teilyngu mwy o ymddiriedaeth gan y cyhoedd.

Elin Jones's amendment 2 suggests that we should open the doors of the Post-16 Education and Training Committee by inviting the broadcasters and regulators to give evidence. Thank you, Elin, for correcting in your amendment 1 the transcription error, which reinforces my frequent and dire warnings to officials about the dangers of using initials. However, we agree with amendment 2, which fulfils the hope expressed in May by the Welsh Affairs Select Committee that the Assembly should have a close interest in broadcasting matters.

Mae gwelliant 2 Elin Jones yn awgrymu y dylem agor drysau'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 drwy wahodd y darlledwyr a'r rheoleiddwyr i roi tystiolaeth. Diolch i chi, Elin, am gywiro'r gwall trawsgrifio yng ngwelliant 1, sydd yn ategu fy rhybuddion llym a chyson i'r swyddogion ynghylch y perygl o ddefnyddio byrfoddau. Fodd bynnag, cytunwn â gwelliant 2, sydd yn cyflawni'r gobaith a fynegwyd ym Mai gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig y dylai'r Cynulliad ymddiddori'n fanwl mewn materion darlledu.

If we get this right, our debates can provide a focal point for expressing Welsh views on broadcasting issues and on many others. This, in turn, can help to generate a new, more active public debate about broadcasting in Wales. There is scope for the Assembly to genuinely add value. However, there is also scope for us to get it wrong. If we were seen to be rushing to judge on complex matters, when we may not have fully considered all the relevant information, it would detract from the Assembly's dignity. We have not, for example, fully considered all the arguments about the future funding of the BBC. I doubt whether we could justify the time that would take if it were to the detriment of devolved matters for which we have a direct responsibility. It is a matter of priorities and timing.

Os llwyddwn yn hyn o beth, gall ein dadleuon fod yn ganolbwynt ar gyfer mynegi barn Gymreig ar faterion darlledu ac ar lawer o rai eraill. Yn ei dro, gallai hynny fod o gymorth wrth greu dadl gyhoeddus newydd, mwy egnïol am ddarlledu yng Nghymru. Mae cyfle i'r Cynulliad ychwanegu gwerth yn wirioneddol. Fodd bynnag, mae cyfle hefyd inni ei wneud yn anghywir. Pe gwelid ein bod yn rhuthro i farnu ar faterion cymhleth, a ninnau efallai heb lwyr ystyried yr holl wybodaeth berthnasol, byddai hynny'n tynnu oddi wrth urddas y Cynulliad. Er enghraifft, nid ydym wedi llwyr ystyried yr holl ddadleuon ynghylch ariannu'r BBC yn y dyfodol. Amheuaf a allem gyfiawnhau'r amser a gymerai os byddai ar draul materion datganoledig y mae gennym gyfrifoldeb uniongyrchol drostynt. Mae'n fater o flaenoriaethau ac amseru.

The Select Committee made a series of positive recommendations. One of those recommendations is that we should ensure that local radio stations have access to our proceedings. We are doing that. Access to the

Gwnaethpwyd cyfres o argymhellion cadarnhaol gan y Pwyllgor Dethol. Un o'r argymhellion hynny yw y dylem sicrhau bod mynediad ar gael i orsafoedd radio lleol i'n trafodion. Yr ydym yn gwneud hynny. Mae

feed of our proceedings is free of charge to all radio stations. Jane Hutt and myself have backgrounds in community radio and two other Members have played a wider broadcasting role in the Broadcasting Council for Wales.

mynediad i borthiant ein trafodion ar gael am ddim i bob gorsaf radio. Mae gan Jane Hutt a minnau gefndir oedd mewn radio cymunedol ac mae dau Aelod arall wedi chwarae rôl ehangach mewn darlledu yng Nghyngor Darlledu Cymru.

In July, when I was Secretary of State, I responded to the Select Committee on behalf of the Government, and I did not agree with everything. The Committee suggested, for example, that the Assembly should make appointments to broadcasting bodies directly or should approve all such appointments. The Assembly Cabinet and the UK Government disagree with the Committee on this because broadcasting bodies remain corporately responsible to the Secretary of State for Culture, Media and Sport. It would blur the lines of accountability if some of the members of those bodies were directly appointed by the Assembly. However, the Assembly will be consulted on the appointments of members to the Board of S4C, the BBC National Governor for Wales and one member each of the Independent Television Commission, the Broadcasting Standards Commission and the Radio Authority. We will involve the nominated members of the Post-16 Education and Training Committee in these matters, so that it will be a cross-party approach, as the Assembly has agreed.

Yng Ngorffennaf, pan oeddwn yn Ysgrifennydd Gwladol, ymatebais i'r Pwyllgor Dethol ar ran y Llywodraeth, ac nid oeddwn yn cytuno â phopeth. Awgrymodd y Pwyllgor, er enghraifft, y dylai'r Cynulliad wneud penodiadau i gyrff darlledu'n uniongyrchol neu y dylai gymeradwyo pob penodiad o'r fath. Mae Cabinet y Cynulliad a Llywodraeth y DU yn anghytuno â'r Pwyllgor ar hynny oherwydd mae'r cyrff darlledu'n parhau'n gyfrifol yn gorfforaethol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Byddai'n cymylu ffiniau cyfrifoldeb pe bai rhai aelodau o'r cyrff hynny wedi eu penodi'n uniongyrchol gan y Cynulliad. Fodd bynnag, ymgynghorir â'r Cynulliad ar benodi aelodau i Fwrdd S4C, Llywodraethwr Cenedlaethol y BBC dros Gymru ac un aelod bob un o'r Comisiwn Teledu Annibynnol, y Comisiwn Safonau Darlledu a'r Awdurdod Radio. Byddwn yn cynnwys yr aelodau enwebedig o'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn y materion hyn, felly bydd yn ddull gweithredu trawsbleidiol, fel y cytunodd y Cynulliad.

The Select Committee has drawn attention to the fact that a significant number of people choose to watch programmes from England and has recommended that the Assembly forms a strategy for the development of the broadcasting industry. That is an imaginative recommendation, but we will need to ensure that we are not duplicating the role of Ministers at Westminster.

Mae'r Pwyllgor Dethol wedi tynnu sylw at y ffaith bod nifer sylweddol o bobl yn dewis gwylio rhaglenni o Loegr ac wedi argymell y dylai'r Cynulliad lunio strategaeth i ddatblygu'r diwydiant darlledu. Mae hynny'n argymhelliad creadigol, ond bydd yn rhaid inni sicrhau na fyddwn yn dyblygu rôl Gweinidogion yn San Steffan.

There is no doubt that broadcasting is a Welsh strength. Cardiff is the UK's largest centre of broadcasting expertise outside London. The industry also provides quality, well-paid jobs in west and north Wales.

Nid oes amheuaeth mai darlledu yw un o gryfderau Cymru. Caerdydd yw canolfan arbenigaeth ddarlledu fwyaf y DU y tu allan i Lundain. Mae'r diwydiant hefyd yn darparu swyddi o ansawdd da gyda chyflogau da yng ngorllewin a gogledd Cymru.

There are big challenges in other Select Committee recommendations, for instance that the Assembly should keep abreast of matters relating to the future regulation of

Ceir heriau mawr yn rhai o argymhellion eraill y Pwyllgor Dethol, er enghraifft, y dylai'r Cynulliad ddilyn materion sydd yn ymwneud â rheoleiddio darlledu yn y

broadcasting. Another suggestion is that the Assembly should keep closely in touch with the issue of analogue switch-off. I certainly agree with that. Chris Smith has set out tests of accessibility and affordability which he will apply before deciding on the date of analogue switch-off. We welcome that also.

dyfodol. Awgrym arall yw y dylai'r Cynulliad gadw cysylltiad agos â mater diffodd darlledu analog. Cytunaf â hynny'n bendant. Mae Chris Smith wedi nodi profion ar hygyrchedd a fforddiadwyedd y bydd yn eu cymhwyso cyn penderfynu ar ddyddiad diffodd darlledu analog. Croesawn hynny hefyd.

Dafydd Wigley: Diolchaf i Alun am ganiatáu imi ofyn cwestiwn ar y pwynt hwn. Pan ddaw'r amser i ddiffodd y gwasanaeth analog, beth yw'r bwriadau i sicrhau na fydd yr 8 y cant o gartrefi na fydd yn gallu derbyn y gwasanaeth newydd ar eu colled yn gyfan gwbl?

Dafydd Wigley: I am grateful to Alun for allowing me to ask a question on this point. When the time comes to switch off the analogue service, what proposals are there to ensure that the 8 per cent of homes that will not be able to receive the new service will not lose out completely?

Y Prif Ysgrifennydd: Dyna'r pwynt yr wyf yn ei wneud. Mae nifer y cartrefi a fydd yn gallu derbyn teledu trwy erial neu trwy deledu daearol digidol tua 90 y cant. Ni fydd topograffeg yn newid. Mae hyn yn bwysig. Felly, mae Chris Smith wedi dweud bod yn rhaid edrych ar y posibilrwydd o gynyddu nifer y bobl sydd â mynediad i'r math hwn o deledu. Dylid ystyried y gost o ariannu hynny a chost y gwasanaeth wrth wneud y penderfyniad.

The First Secretary: That is the point I am making. The number of homes that will be able to receive television through aerials or through digital terrestrial television is around 90 per cent. Topography will not change. This is important. Therefore, Chris Smith has said that we must look at the possibility of increasing the number of people who have access to this kind of television. The cost of financing this and the cost of the service should be taken into consideration when making the decision.

I emphasise that Chris Smith has set standards and tests of accessibility and affordability. These will be applied before deciding on the date of the analogue switch-off and we welcome that. The Assembly will keep abreast of progress towards those accessibility and affordability goals, particularly because of the nature of the topography and the numbers involved, as Dafydd indicated. I will follow closely the findings of the Government's two-yearly reviews of the position.

Pwysleisiaf fod Chris Smith wedi gosod safonau a phrofion ar hygyrchedd a fforddiadwyedd. Cymhwysir y rhain cyn penderfynu dyddiad diffodd darlledu analog a chroesawn hynny. Bydd y Cynulliad yn dilyn y cynnydd tuag at y nodau hygyrchedd a fforddiadwyedd hynny, a hynny'n arbennig oherwydd natur y dopograffeg a'r niferoedd dan sylw, fel y nododd Dafydd. Byddaf yn dilyn yn fanwl ganfyddiadau adolygiadau dwyflynyddol y Llywodraeth ar y sefyllfa.

The digital age will open up new opportunities as more and more channels in the UK and Europe seek broadcast product of proven technical quality and creative flair. The Economic Development Committee as well as the Post-16 Education and Training Committee could have a role in exploring these issues, looking at their contribution to the economy and employment of Wales and to broadcasting itself, not only within Wales but in the UK and in Europe. It is interesting to note that a joint project between a Welsh

Bydd yr oes ddigidol yn cynnig cyfleoedd newydd wrth i fwy a mwy o sianeli yn y DU ac Ewrop chwilio am gynnyrch darlledu o ansawdd technegol profedig sydd yn dangos dawn greadigol. Gallai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ogystal â'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 chwarae rôl wrth ymchwilio i'r materion hyn, gan edrych ar eu cyfraniad i economi a chyflogaeth Cymru ac i ddarlledu ei hun, nid yn unig oddi mewn i Gymru ond yn y DU ac yn Ewrop. Mae'n ddiddorol nodi bod prosiect ar y cyd rhwng

company and an Irish company is making a significant contribution in Dafydd's constituency. There will be important developments in economy and employment in Wales and in Wales's place in the UK and Europe if our broadcasting industry, and our television in particular, continue to be a success. I look forward to hearing Members' views on these and other matters raised in the Select Committee's report. Today's debate is the start of an important exchange of ideas which the Assembly can promote in the Chamber and more widely with broadcasting and other interests in Wales.

cwmni Cymreig a chwmni Gwyddelig yn gwneud cyfraniad sylweddol yn etholaeth Dafydd. Ceir datblygiadau pwysig yn economi a chyflogaeth Cymru ac yn safle Cymru yn y DU ac Ewrop os bydd ein diwydiant darlledu, a'n teledu'n arbennig, yn parhau i lwyddo. Edrychaf ymlaen at glywed barn yr Aelodau ar y materion hyn ac eraill a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor Dethol. Mae'r ddadl heddiw yn ddechrau ar gyfnewidiad syniadau pwysig y gall y Cynulliad ei hybu yn y Siambr ac yn ehangach gyda darlledwyr a buddiannau eraill yng Nghymru.

Jane Davidson: Fel Cadeirydd Bwrdd Cwmni Darlledu'r Cynulliad ac fel rhagair i'r ddadl, hoffwn sôn am yr hyn sydd wedi ei drefnu ynglŷn â darlledu o'r Cynulliad. O'r dechrau, bu'n nod gan y Cynulliad i gyfathrebu â phobl Cymru mewn dull blaengar a manteisio i'r eithaf ar bosibiliadau'r dechnoleg newydd i ennyn diddordeb etholwyr yn y broses ddemocrataidd.

Jane Davidson: As Chair of the Assembly Broadcasting Company Board and as a foreword to this debate, I would like to talk about the arrangements for broadcasting from the Assembly. From the outset, the Assembly has aimed to communicate with the people of Wales in an innovative way and to take full advantage of the possibilities that the new technology offers to engender interest among the electorate in the democratic process.

There is consensus among Members that we wish to be an accessible Assembly. Therefore, it is important that the people of Wales see what we do day in, day out. The public gallery in our temporary Chamber is limited and therefore television coverage of Plenary sessions and Committees is a vital link to the three million people of Wales whom we represent.

Ceir consensws ymysg yr Aelodau ein bod yn dymuno bod yn Gynulliad hygyrch. Felly, mae'n bwysig bod pobl Cymru'n gweld yr hyn a wnawn o ddydd i ddydd. Mae'r oriel gyhoeddus yn ein Siambr dros-dro yn un fach ac felly mae'r sylw ar y teledu i'r Cyfarfodydd Llawn a'r Pwyllgorau yn gyswllt holl bwysig â'r tair miliwn o bobl Cymru yr ydym yn eu cynrychioli.

3.28 p.m.

Following the Assembly's debate in July on broadcasting arrangements, a partnership has been forged between the Assembly, the BBC, HTV, S4C and NTL to broadcast the proceedings. Officials are still working out the final legal and financial details but this partnership is due to be sealed in the next few weeks by the signing of contracts. That partnership will form a company to manage the Assembly's broadcasting operation. As the Chair of the company board, I welcome this opportunity to build relationships with industry experts in the interest of a better Assembly service to all viewers. I also look forward to working closely with my fellow board members, from all the political parties in the Assembly: Lorraine Barrett, Elin Jones,

Ar ôl dadl y Cynulliad yng Ngorffennaf ar y trefniadau darlledu, ffurfiwyd partneriaeth rhwng y Cynulliad, y BBC, HTV, S4C a NTL i ddarlledu'r trafodion. Mae'r swyddogion yn dal i weithio ar y manylion cyfreithiol ac ariannol terfynol ond mae'r bartneriaeth hon i'w chwblhau yn yr wythnosau nesaf hyn drwy arwyddo contractau. Bydd y bartneriaeth honno'n ffurfio cwmni i reoli gwaith darlledu'r Cynulliad. Fel Cadeirydd bwrdd y cwmni, croesawaf y cyfle hwn i greu cysylltiadau ag arbenigwyr yn y diwydiant er mwyn cael gwell gwasanaeth yn y Cynulliad i'r holl wylwyr. Edrychaf ymlaen hefyd at weithio'n agos gyda fy nghyd-aelodau ar y bwrdd, o'r holl bleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad:

Jonathan Morgan and Christine Humphreys. Our broadcasting partners have shown impressive commitment in rising to the challenge of devolution. I am delighted—as I am sure you are—to see that the Assembly building and the Bay skyline are becoming familiar backdrops to current affairs programmes and, therefore, helping to market Wales. Among the new programmes is the excellent comprehensive coverage that is being produced by the BBC for broadcast on S4C2 the digital channel. Viewing figures will surely rise as digital technology becomes more commonplace. It is remarkable that through this medium it is already possible to watch our Assembly proceedings all over the United Kingdom.

Lorraine Barrett, Elin Jones, Jonathan Morgan a Christine Humphreys. Mae ein partneriaid darlledu wedi dangos ymrwymiad rhagorol wrth dderbyn her datganoli. Yr wyf wrth fy modd—fel yr ydych chithau, yr wyf yn siŵr—o weld bod adeilad y Cynulliad ac amlinelliad adeiladau'r Bae yn dod yn gefndiroedd cyfarwydd i raglenni materion cyfoes ac, felly, yn helpu i farchnata Cymru. Ymhlith y rhaglenni newydd ceir y sylw cynhwysfawr ardderchog a gynhyrchir gan y BBC i'w ddarlledu ar S4C2 y sianel ddigidol. Mae'r ffigurau gwylio yn sicr o godi wrth i dechnoleg ddigidol ddod yn fwy cyffredin. Mae'n rhyfeddol ei bod eisoes yn bosibl gweld ein trafodion yn y Cynulliad ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig drwy'r cyfrwng hwn.

That is not, however, an excuse for Assembly coverage to disappear from other UK-wide media. I am glad that Assembly proceedings continue to receive attention from time to time on programmes such as *Yesterday in Parliament* and on the BBC World Service. Also, as the First Secretary said, I appreciate the positive use that several radio stations are making of the free access to the proceedings that we offer all radio broadcasters. I trust that this will be borne in mind by the eventual holders of the new south Wales radio licenses.

Fodd bynnag, nid yw hynny'n esgus i sylw i'r Cynulliad ddiflannu o gyfryngau eraill ar gyfer y DU gyfan. Yr wyf yn falch bod trafodion y Cynulliad yn dal i gael sylw o dro i dro ar raglenni fel *Yesterday in Parliament* ac ar Wasanaeth Byd y BBC. Hefyd, fel y dywedodd y Prif Ysgrifennydd, gwerthfawrogaf y defnydd cadarnhaol a wneir gan sawl gorsaf radio o'r mynediad rhad ac am ddim at y trafodion a gynigiwn i'r holl ddarlledwyr radio. Hyderaf y bydd y rhai a fydd yn y pen draw yn dal trwyddedau radio newydd de Cymru yn cofio am hynny.

Fel democrat da, yr wyf yn llongyfarch y rhai, gan gynnwys Barcud Derwen, sydd wedi bod wrthi'n cynhyrchu rhaglenni am y Cynulliad. Edrychaf ymlaen at weld sut y bydd darlledu o'r Cynulliad yn datblygu. Gobeithiaf y gall chwarae rhan allweddol yn y broses ddemocrataidd newydd yng Nghymru.

As a good democrat, I congratulate those, including Barcud Derwen, who have been producing programmes about the Assembly. I look forward to seeing how broadcasting from the Assembly will develop. I hope that it can play a key role in the new democratic process in Wales.

Elin Jones: Cynigiaf welliant 1. Dileer

Elin Jones: I propose amendment 1. Remove

'Pwyllgor Dethol Cynulliad Cymru' a rhoi 'Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig' yn ei le.

'*Welsh Assembly Select Committee' and replace with 'Welsh Affairs Select Committee'.*

Cynigiaf welliant 2. Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

I propose amendment 2. Add at the end of the motion

Ac yn gofyn i'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 drafod yr argymhellion â darlledwyr yng Nghymru, yn enwedig yn sgîl camau breision ymlaen yn y maes hwn.

And requests the Post-16 Education and Training Committee to discuss the recommendations with broadcasters in Wales, especially in light of rapid

technological advancements in this field.

Wrth groesawu'r drafodaeth hon ar ddarlledu, mae'n bwysig nodi ei bod hi'n eironig braidd nad oes gan y Cynulliad bwerau uniongyrchol dros ddarlledu pan fo darlledu wedi bod yn fater gwleidyddol mor amlwg yng Nghymru dros y 40 mlynedd diwethaf. Ym maes darlledu Cymraeg yn enwedig, mae ymgyrchu gwleidyddol wedi chwarae rhan amlwg iawn wrth sicrhau rhaglenni Cymraeg ar deledu a radio. Sefydlwyd Radio Cymru ac yna cymerwyd cam holl bwysig wrth sefydlu S4C. Mae ymgyrchoedd gwleidyddol ar droed ar hyn o bryd i sefydlu ail sianel radio genedlaethol Gymraeg, ac y mae cefnogaeth hefyd i sianel deledu cyfrwng Saesneg i Gymru. Croesawn gyhoeddiad y BBC yr wythnos diwethaf y bwriedir, pan fo'r adnoddau'n caniatáu, datblygu BBC Choice Wales ar deledu digidol fel sianel gyflawn cyfrwng Saesneg i Gymru.

In welcoming this debate on broadcasting, it is important to note that it is rather ironic that the Assembly does not have direct powers over broadcasting when broadcasting has been such a prominent political issue in Wales over the last 40 years. In Welsh language broadcasting in particular, political campaigning has played a very prominent part in securing Welsh programmes on television and radio. Radio Cymru was established and then an all-important step was taken in establishing S4C. There are political campaigns underway at present to set up a second Welsh national radio channel, and there is also support for an English medium television channel for Wales. We welcome the BBC's announcement last week that, when resources permit, BBC Choice Wales is to be developed on digital television as a complete English medium channel for Wales.

Mae gan wleidyddion *vested interest* enfawr yn y cyfrwng darlledu. Mae slot ar *Wales Today* yn amhrisiadwy i'r rhan fwyaf ohonom os yw'r slot hwnnw am y rheswm iawn. Mae gan ddarlledu hefyd rôl holl bwysig i'w chwarae wrth gyfoethogi ein democratiaeth a hyrwyddo ein sefydliad cenedlaethol democrataidd newydd mewn modd diduedd a gwrthrychol.

Politicians have an enormous vested interest in the broadcasting medium. A slot on *Wales Today* is invaluable to most of us if that slot is for the right reason. Broadcasting also has an all-important role to play in enriching our democracy and promoting our new democratic national institution in an unbiased and objective way.

Rhaid inni longyfarch y darlledwyr yng Nghymru—S4C, BBC Cymru a HTV—am eu hymateb cadarnhaol i sefydlu'r Cynulliad, y cynnydd yn eu hallbwn gwleidyddol a'u buddsoddiad mewn adnoddau darlledu o'r Bae.

We must congratulate the broadcasters in Wales—S4C, BBC Wales and HTV—for their positive response to the establishment of the Assembly, the increase in their political output and their investment in broadcasting resources from the Bay.

Mae S4C2—y cyfeiriwyd ati eisoes—yn darlledu Cyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau'r Cynulliad yn fyw. Gallwn deimlo'n nerfus wrth feddwl bod yr hyn yr wyf yn ei ddweud yn cael ei ddarlledu'n fyw drwy Gymru a thu hwnt. Fodd bynnag, mae'n rhywfaint o gysur i greadur nerfus fel fi i wybod mai dim ond llond dwrn o bobl sydd yn derbyn teledu digidol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r oes ddigidol wedi cyrraedd ac, o fewn rhyw 10 i 15 mlynedd, bydd rhan helaeth o boblogaeth Gymru—nid pawb—yn gallu gwylio ein darllediadau byw, llawn o'r Cynulliad ar S4C2. Bydd hyn yn gam

S4C2—to which reference has already been made—broadcasts the Assembly's Plenary Sessions and Committees live. I could feel nervous when I think that what I say is being broadcast live throughout Wales and beyond. However, it is somewhat comforting for a nervous creature like myself to know that only a handful of people receive digital television at the moment. However, the digital age has arrived and, within some 10 to 15 years, a large part of Wales's population—not everyone—will be able to watch our full, live broadcasts from the Assembly on S4C2. This will be a significant

sylweddol tuag at gynyddu natur agored a thryloyw y corff hwn.

step forward towards increasing the open and transparent nature of this body.

O ystyried nad oes cofnod gair am air o drafodion ein Pwyllgorau, mae'n holl bwysig bod ein cytundeb darlledu yn caniatáu cofnod sain a llun. Felly, mae'n bwysig bod y traciau sain a llun o weithgaredd y Pwyllgorau ar gael i'r cyhoedd ac, yn bwysicach byth o bosibl, yn cael eu harchifo'n ofalus ar gyfer y dyfodol.

Given the fact that there is not a verbatim record of our Committees' proceedings, it is vital that our broadcasting contract provides a sound and vision record. Therefore, it is important that the sound and vision tracks of Committee activities are available to the public and, perhaps even more important, that they are carefully archived for the future.

Ar S4C2, gall pobl ein gwylio a gwrando arnom yn ddwyieithog gan fod teledu digidol yn caniatáu mwy nag un trac sain. Mae hyn i'w groesawu'n fawr. Wrth imi siarad gall unrhyw un sydd yn fy ngwylio gartref ar S4C2 ddewis gwrando arnaf yn y Gymraeg, yn y Saesneg drwy'r cyfieithydd, neu gallant ddewis fy nhroi i ffwrdd yn gyfangwbl.

On S4C2, people can watch us and listen to us bilingually as digital television allows for more than one sound track. This is to be greatly welcomed. As I speak, anyone watching me at home on S4C2 can choose to listen to me in Welsh, in English through the translator, or they can choose to switch me off completely.

Mae teledu digidol yn cynnig newidiadau a chyfleoedd enfawr. Gydag amser, bydd ein teledu a'n cyfrifiadur yn toddi'n un, a bydd y ffiniau rhwng adloniant, gwybodaeth ac addysg yn diflannu. Yn y dyfodol agos, bydd ein mamau-cu yn eistedd o flaen y tân yn gwylio'r teledu ac yn anfon negeseuon e-bost ar yr un pryd. Bydd rhieni yn gweiddi ar eu plant i droi'r teledu ymlaen er mwyn gwneud eu gwaith cartref.

Digital television offers huge changes and opportunities. In time, our televisions and computers will merge into one, and the boundaries between entertainment, information and education will disappear. In the near future, our grandmothers will sit in front of the fire watching television and sending e-mails at the same time. Parents will shout at their children to turn on the television to do their homework.

Bu cysylltiad agos erioed rhwng darlledu ac addysg drwy BBC Education a'r Brifysgol Agored. Mae'r cyfrwng digidol yn cynnig cyfle inni ddefnyddio cyfryngau darlledu o ddifrif i hyrwyddo addysg a hyfforddiant. Mae sefydlu'r coleg digidol yn dechrau mynd i'r afael â'r mater hwn. Er ein bod yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, y mae rywfaint yn ddiffygiol oherwydd nad yw'n rhoi llawer o sylw i gyfleoedd addysgol darlledu. Gobeithiaf y bydd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn gallu edrych o ddifrif ar y pwnc hwn mewn cydweithrediad â'r darlledwyr yng Nghymru.

Broadcasting and education have always been closely linked through BBC Education and the Open University. The digital medium offers us the opportunity to use broadcasting media seriously to promote education and training. The establishment of the digital college is beginning to address this matter. Although we welcome the Welsh Affairs Select Committee's report, it is somewhat lacking as it does not give much attention to the educational opportunities offered by broadcasting. I hope that the Post-16 Education and Training Committee will be able to look seriously at this matter in co-operation with the broadcasters in Wales.

O fewn cylch gwaith y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, yn ogystal â'r cysylltiad agos rhwng addysg a hyfforddiant a darlledu, ceir cysylltiad agos rhwng y celfyddydau a darlledu. Yn gyntaf, mae dramâu teledu a radio a ffilm yn gynnyrch creadigol ac mae radio a theledu yn chwarae rôl bwysig wrth

Within the Post-16 Education and Training Committee's remit, in addition to the close link between education and training and broadcasting, there is a close link between the arts and broadcasting. First, television and radio plays and films are creative productions and radio and television play an important

hybu'r creadigrwydd gwreiddiol hwnnw. Yn ail, mae'r cyfrwng darlledu yn fodd i sicrhau cynulleidfa ehangach i'r celfyddydau ac i hybu'r celfyddydau Cymreig yn enwedig. Cyfeiriaf yn benodol at gyfres wych Peter Lord ar BBC Cymru, *The Big Picture*, sydd yn olrhain hanes y gelfyddyd weledol yng Nghymru.

role in promoting that original creativity. Secondly, the broadcasting medium is a way of ensuring a wider audience for the arts and of promoting Welsh arts especially. I refer particularly to Peter Lord's excellent series on BBC Wales, *The Big Picture*, which traces the history of visual art in Wales.

Mae'n briodol i'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 gael y cyfle i drafod darlledu, ac mae'r Cynulliad yn rhoi cyfle am y tro cyntaf inni gymryd gorolwg strategol o ddyfodol a chyfraniad darlledu yng Nghymru. Mae angen trafodaeth fanwl a pharhaus ar nifer o argymhellion y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. Dim ond mewn pwyllgor a chyda'r darlledwyr y gall y math hwn o drafodaeth ddigwydd.

It is appropriate that the Post-16 Education and Training Committee should be afforded the opportunity to discuss broadcasting, and the Assembly gives us an opportunity for the first time to take a strategic overview of the future and contribution of broadcasting in Wales. Many of the Welsh Affairs Select Committee's recommendations need detailed and continuous discussion. That type of discussion can happen only in a committee and with the broadcasters.

3:38 p.m.

Geraint Davies: Codaf fater o annhegwch. Ni all gwrandawyr yn y Cymoedd dderbyn Radio Wales ar FM. A ymunwch â mi i alw ar yr awdurdodau darlledu i ddarparu'r gwasanaeth hwn cyn gynted â phosibl? Yr ydym ar ein colled i'r M4 unwaith eto.

Geraint Davies: I raise a point of inequity. Listeners in the Valleys are unable to receive Radio Wales on FM. Will you join me in calling on the broadcasting authorities to provide this service as soon as possible? We are losing out to the M4 once again.

Elin Jones: Ni ellir gwrando ar Radio Wales ar FM yng Ngheredigion ychwaith. Mae hi'n bwysig ein bod yn codi'r mater hwn gyda'r darlledwyr yn y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16. Mae hi'n bwysig bod cyfle gan bawb yng Nghymru i wrando ar Radio Wales ar FM yn ogystal â Radio Cymru ar FM.

Elin Jones: It is not possible to listen to Radio Wales on FM in Ceredigion either. It is important that we raise this matter with broadcasters in the Post-16 Education and Training Committee. It is important that everyone in Wales has the opportunity to listen to Radio Wales on FM as well as Radio Cymru on FM.

Yn y drafodaeth yn y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ynglŷn ag argymhellion y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, ac yn y drafodaeth gyda'r darlledwyr, gobeithiaf y gellir rhoi sylw i nifer o faterion a gaiff eu codi yn yr adroddiad, megis rheoleiddio darlledu ac atebolrwydd darlledwyr yng Nghymru. Gobeithiaf hefyd y gallwn edrych ar bwnc amserol, sef rheolaeth cytundebau darlledu, yn enwedig yng nghyd-destun radio. Er enghraifft, ar hyn o bryd cystadleuir am drwyddedau darlledu radio mewn sawl rhan o Gymru. Mae radio lleol yn gynyddol boblogaidd yng Nghymru ac yn gyfrwng pwysig i adlewyrchu gwahaniaethau rhanbarthol a lleol o fewn Cymru.

In the discussion in the Post-16 Education and Training Committee regarding the recommendations of the Welsh Affairs Select Committee, and in the discussion with the broadcasters, I hope that it will be possible to give attention to a number of matters that are raised in the report, such as the regulation of broadcasting and the accountability of broadcasters in Wales. I also hope that we will be able to consider a timely subject, namely the management of broadcasting contracts, especially in the context of radio. For example, there is currently competition for radio broadcasting licences in several parts of Wales. Local radio is increasingly popular in Wales and is an important medium

for reflecting regional and local differences within Wales.

Gwneir penderfyniadau ynglŷn â'r trwyddedau darlledu radio gan yr awdurdod radio yn Llundain. Nid oes cynrychiolydd gan Gymru ar yr awdurdod radio hwn. Nid yw'r sefyllfa hon yn dderbyniol yn y tymor hir. Mater arall i'r Pwyllgor ei drafod yw'r angen i ddatblygu'r oriau a gynhyrchir yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg ar S4C, BBC Choice Wales a HTV. Mater arall yw pwysigrwydd sicrhau bod gan bawb yng Nghymru y cyfle i dderbyn signal darlledu o Gymru. Bydd Jocelyn Davies yn cyfeirio at hyn yn nes ymlaen yn y drafodaeth gobeithio.

Decisions on the radio broadcasting licences are taken by the radio authority in London. Wales does not have a representative on this radio authority. That situation is unacceptable in the long term. Another matter for the Committee to discuss is the need to develop the hours that are produced in Wales in Welsh and English on S4C, BBC Choice Wales and HTV. Another matter is the importance of ensuring that everyone in Wales has the opportunity to receive a broadcasting signal from Wales. Jocelyn Davies will be referring to this later on in the debate I hope.

Mae gwelliant 2 yn fy enw i, felly, yn galw am drafodaeth fanwl ar adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, yn enwedig yng nghyd-destun newidiadau technolegol diweddar. Nid yw'r gwelliant yn y Gymraeg yn darllen fel y gwelliant yn wreiddiol yn y Saesneg. Efallai fod hyn yn wers imi baratoi fy ngwelliannau trwy gyfrwng y Gymraeg y tro nesaf. Cynigiaf yn ffurfiol, felly, y gwelliant a'r gwelliant Saesneg. Cynigiaf hefyd welliant 1 yn ffurfiol. Nid gwelliant yw hwn o anghenraid, eithr cywiriad. Gobeithio y bydd cefnogaeth drawsbleidiol i welliant 1 o leiaf.

Amendment 2 in my name, therefore, calls for a detailed discussion on the Welsh Affairs Select Committee report in the Post-16 Education and Training Committee, especially in the context of recent technological changes. The amendment in Welsh does not correspond to the original amendment in English. Perhaps this is a lesson for me to prepare my amendments through the medium of Welsh next time. I therefore formally propose the amendment and the English amendment. I also formally propose amendment 1. This is not an amendment, but a correction. I hope that there will be cross-party support for amendment 1 at least.

Mae'n bwysig cofio, fel y dywedodd y Prif Ysgrifennydd—

It is important to remember, as the First Secretary said—

Gwenda Thomas: A gytunwch fod y gwahaniaeth rhwng iaith y Gogledd a iaith y De yn creu cymhlethdod ar gyfer darlledu trwy Gymru gyfan?

Gwenda Thomas: Do you agree that the differences in language between north Wales and south Wales create difficulties for broadcasting through the whole of Wales?

Elin Jones: Ni chredaf hynny. Nid wyf am ateb y pwynt. Nid wyf yn siŵr a ydych yn cyfeirio at y Gymraeg neu'r Saesneg.

Elin Jones: I do not believe so. I will not answer the point. I am not sure whether you are referring to Welsh or English.

Cynog Dafis: Mae mwy o wahaniaeth rhwng iaith Gwauncaegurwen a iaith Cwm-twrch nag sydd rhwng iaith y Gogledd a iaith y De.

Cynog Dafis: There is more of a difference between the dialects of Gwauncaegurwen and Cwm-twrch than there is between the dialects of north and south Wales.

Elin Jones: Rhaid cofio nad cyfrwng yn unig yw darlledu. Mae'n ddiwydiant ynddo'i hun ac yn gyflogwr sylweddol yng Nghymru a

Elin Jones: We must remember that broadcasting is not merely a medium. It is an industry in itself and a significant employer

thrwy Gymru, o Gaernarfon i Gaerdydd a thrwy Aberystwyth, Llandeilo a Llanelli. Mae'n ddiwydiant sydd, yn hanesyddol, wedi cynnig ystod eang o swyddi â chyflogau da a theg yng Nghymru. Wrth i'r newidiadau digwydd gyda chyflwyno teledu digidol, mae'n bwysig nad yw'r cyfleon ac amodau'r swyddi a gynigir gan y diwydiant yn cael eu tanseilio.

in Wales and throughout Wales, from Caernarfon to Cardiff and through Aberystwyth, Llandeilo and Llanelli. It is an industry that has, historically, offered a wide range of jobs with good, fair pay in Wales. As the changes happen with the introduction of digital television, it is important that the opportunities and job conditions offered by the industry are not undermined.

Erbyn hyn, mae gan Gymru arbenigedd yn y diwydiant darlledu, yn enwedig mewn darlledu mewn ieithoedd lleiafrifol. Byddai wedi bod yn hawdd ac yn rhad iawn i sefydlu S4C a phrynu rhaglenni o dramor a'u trosleisio i'r Gymraeg. Mae sianeli eraill yn Ewrop yn gwneud hyn, megis Euskal Televista yng Ngwlad y Basg. Cofiaf wylio rhaglen *Cagney eta Lacey* mewn Basgeg ar y sianel honno. Yr wyf yn falch fod S4C, yn ogystal â darlledu yn y Gymraeg, yn creu rhaglenni gwreiddiol sydd yn adlewyrchu Cymru a'r byd. Nid oes amheuaeth nad yw S4C wedi chwarae rhan holl bwysig o ran sicrhau dyfodol yr iaith. Mae angen inni yn awr sicrhau'r iaith Gymraeg, a'r huniaeth Gymreig o fewn y diwydiant darlledu byd-eang sydd yn newid mor gyflym.

By now, Wales has expertise in the broadcasting industry, especially in minority languages broadcasting. It would have been very cheap and easy to establish S4C and buy programmes from abroad and dub them into Welsh. Other channels in Europe do this, such as Euskal Televista in the Basque Country. I remember watching a *Cagney eta Lacey* programme in Basque on that channel. I am pleased that S4C, as well as broadcasting in Welsh, produces original programmes that reflect Wales and the world. There is no doubt that S4C has played an essential part in ensuring the future of the language. We now need to secure the Welsh language and identity within the worldwide broadcasting industry, which is changing so quickly.

Mae'n gyfle amserol i'r Cynulliad—drwy'r Pwyllgor ac mewn cydweithrediad â darlledwyr—gymryd gorolwg strategol o ddarlledu yng Nghymru. Yr wyf yn hyderus fod gan ddarlledwyr yr ewyllys da i wneud hynny, a gobeithiaf yn fawr fod gan y Cynulliad yr un ewyllys da.

It is a timely opportunity for the Assembly—through the Committee and in collaboration with broadcasters—to take a strategic overview of broadcasting in Wales. I am confident that broadcasters have the good will to do so, and I very much hope that the Assembly has the same good will.

Cynog Dafis: Cynigiaf welliant 3. Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig

Cynog Dafis: I propose amendment 3. Add at the end of the motion

Ac yn nodi rôl allweddol y BBC wrth ddarparu gwasanaeth darlledu cenedlaethol i Gymru ac yn galw, yng nghyd-destun yr arolwg cyfredol o ariannu'r BBC yn y dyfodol, am adnoddau digonol i ganiatáu iddo barhau a datblygu'r rôl allweddol ymhellach.

And notes the key role of the BBC in providing a national broadcasting service for Wales and calls, in the context of the current review of the future funding of the BBC, for sufficient resources to be provided so that its key role can be continued and developed further.

Ymddiheuraf i'r Prif Ysgrifennydd, er nad yw'n bresennol, am fod yn absennol ar ddechrau ei araith. Croesawaf y ddadl hon ac adroddiad y Pwyllgor Dethol ar ddatganoli a'r Cynulliad. Edrychaf ymlaen at pan fydd ein Pwyllgorau yn meddu ar y math o adnoddau sydd gan y Pwyllgorau Dethol yn

I apologise to the First Secretary, although he is not present, for being absent at the beginning of his speech. I welcome this debate and the Select Committee's report on devolution and the Assembly. I look forward to the time when our Committees have the kind of resources that the Select Committees

San Steffan i gynhyrchu adroddiadau mor swmpus â hwn.

in Westminster have to produce such bulky reports as this.

Mae'r negeseuon yn yr adroddiad yn bwysig i'r Cynulliad. Anogir ni i fod ar ddihun i'r hyn sydd yn digwydd yn y byd darlledu er mwyn gwarchod buddiannau cenedlaethol Cymru. Mae cyfrifoldeb arbennig ar y Pwyllgor yr wyf yn ei gadeirio i wneud hynny. Croesawaf welliant 2 Elin Jones.

The messages in the report are important to the Assembly. We are urged to be alert to what is happening in the broadcasting world in order to safeguard Wales's national interests. The Committee that I chair has a particular duty to do that. I welcome amendment 2 in the name of Elin Jones.

Hoffwn ddweud pam yr wyf yn cynnig gwelliant sydd yn benodol ynglŷn â'r BBC ac nad yw'n crybwyll S4C—sianel genedlaethol sydd yn unigryw i Gymru. Pam cael gwelliant penodol ynglŷn â'r BBC? Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod yn gyhoeddus pa mor allweddol yr oedd ac y mae'r BBC wrth ddiogelu a datblygu hunaniaeth genedlaethol Cymru. Cyflawnodd y BBC y rôl hon dros ddegawdau, fel darlledydd gwasanaeth cyhoeddus unigryw. Mae'r gwelliant yn pwysleisio'r elfen gwasanaeth cyhoeddus.

I will explain why I propose an amendment that is specifically about the BBC and does not mention S4C—a national channel that is exclusive to Wales. Why have a specific amendment on the BBC? It is important that we acknowledge publicly how crucial the BBC has been and is in safeguarding and developing Wales's national identity. The BBC has fulfilled this role over decades, as an unique public service broadcaster. The amendment emphasises the public service element.

Mae'n adeg dyngedfennol yn hanes y BBC a darlledu gwasanaeth cyhoeddus ym Mhrydain. Mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn ystyried yr ymgynghoriad ac argymhellion panel adolygu Gavyn Davies ar ariannu'r BBC yn y dyfodol. Er bod yr ymgynghori ffurfiol wedi dod i ben, gobeithiaf y bydd Chris Smith, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn derbyn yr hyn a ddywedwyd yn y ddadl hon fel cyfraniad i'r ymgynghoriad. Pwrpas y gwelliant hwn yw rhoi cyfle i'r Cynulliad anfon neges gref a diamwys ynglŷn â phwysigrwydd aruthrol y BBC yn y ffurfafen Gymreig a Chymraeg, ac ynglŷn â'r angen i'w ddiogelu.

This is a crucial time in the history of the BBC and public service broadcasting in Britain. The United Kingdom Government is considering the consultation and the recommendations of Gavyn Davies's review panel on the future funding of the BBC. Although the formal consultation has ended, I hope that Chris Smith, the Secretary of State for Culture, Media and Sport, will accept what is said in this debate as a contribution to the consultation. The purpose of this amendment is to give the Assembly an opportunity to send a strong, unambiguous message about the immense importance of the BBC in the Welsh and Welsh language spectrum and about the need to protect it.

Nid yw'n ormod i ddweud bod y BBC wedi bod yn dyngedfennol yn yr ymgyrch i sicrhau bod Cymru yn parhau fel endid ac fel cenedl. Mae parodrwydd y BBC, o ganlyniad i ddirfawr ymdrech, pwyso diatal a dadlau cyson gan Gymry ymroddedig—llawer ohonynt yn gweithio o fewn y BBC—i gydnabod Cymru fel 'rhanbarth cenedlaethol' yn deyrnged i'r BBC ei hunan.

It is not an exaggeration to say that the BBC has been crucial in the campaign to ensure that Wales continues as an entity and as a nation. The willingness of the BBC, as a result of immense endeavours, relentless lobbying and ceaseless argument by committed Welsh people—many of them working within the BBC—to recognise Wales as a 'national region' is a tribute to the BBC itself.

3:48 p.m.

Mae'r modd y dehonglir unrhyw bobl, a'r Cymry yn eu plith, yn y cyfryngau torfol yn aruthrol o ddylanwadol ar y modd y mae'r bobl hynny yn eu gweld eu hunain. Yn eironig, gan y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, yn fwy nag unrhyw gorff arall efallai, y derbyniodd mwyafrif y Cymry yn ystod yr ugeinfed ganrif y neges eu bod yn genedl, yn bobl benodol ac yn wahanol. Nid dyna'r unig eironi, wrth gwrs, ym mherthynas y wladwriaeth Brydeinig â Chymru.

Mae dylanwad y BBC ar y Gymraeg wedi bod yn aruthrol, nid yn lleiaf—fel y pregethwyr ers llawer dydd—yn y gwaith o greu iaith lafar safonol sy'n ddealladwy o un pen o Gymru i'r llall.

The way in which any people—the Welsh included—are interpreted in the mass media has a great influence on the way in which those people perceive themselves. Ironically, it is from the British Broadcasting Corporation, more than from anybody else perhaps, that the majority of the Welsh people during the twentieth century have received the message that they are a nation, a specific people and are different. That, of course, is not the only irony in the British state's relationship with Wales.

The influence of the BBC on the Welsh language has been enormous, not least—as preachers did in days gone by—in creating a standard spoken language which is understood from one end of Wales to the other.

Huw Lewis: Cynog mentioned the word 'irony'. A couple of his points worry me massively. He mentioned the enormous importance of the BBC and the need to protect it. I support Cynog's amendment and will vote for it. It is constructive. However, I am uncomfortable with the wider political stance of his party on this issue. I hope that Cynog can answer some of these points, which are of great concern to myself and will be to anyone who owns a television or radio in Wales. They go to the heart of a dangerous ambiguity in broadcasting if Plaid Cymru should ever gain a majority in this Chamber. Cynog's leader is on record several times calling for Wales to become an independent nation within the European Union—or the United States of Europe even—which implies no British dimension. Whither the BBC without a British dimension? How is it funded? How would we raise—and this is an approximate, back-of-an-envelope calculation—the sum of £800 million a year to run a BBC-type corporation in Wales alone? How can Cynog call for more resources for the BBC while his party implies in its policy the long-term dismantling of the BBC?

Huw Lewis: Crybwyllwyd y gair 'eironi' gan Cynog. Mae un neu ddau o'i bwyntiau'n peri gofid mawr i mi. Soniodd am bwysigrwydd aruthrol y BBC a'r angen i'w ddiogelu. Cefnogaf welliant Cynog a phleidleisiaf o'i blaid. Mae'n adeiladol. Fodd bynnag, mae safbwynt gwleidyddol ehangach ei blaid ar y mater hwn yn peri anesmwythyd i mi. Gobeithiaf y gall Cynog ateb rhai o'r pwyntiau hyn, sydd o bwys mawr i mi ac i bawb sydd yn berchen ar set deledu neu radio yng Nghymru. Maent yn mynd at wraidd amwysedd peryglus ynghylch darlledu pe bai Plaid Cymru yn ennill mwyafrif byth yn y Siambr hon. Mae arweinydd Cynog wedi galw ar goedd sawl gwaith ar i Gymru ddod yn wlad annibynnol oddi mewn i'r Undeb Ewropeaidd—neu Unol Daleithiau Ewrop hyd yn oed—sydd yn golygu na fydd dimensiwn Prydeinig. I ble yr â'r BBC heb ddimensiwn Prydeinig? Sut y caiff ei ariannu? Sut y byddem yn codi—a chyfrifiad bras ar-gefn-amlen yw hyn—y swm o £800 miliwn y flwyddyn i redeg corfforaeth debyg i'r BBC yng Nghymru'n unig? Sut y gall Cynog alw am fwy o adnoddau i'r BBC tra bod polisi ei blaid yn golygu datgymalu'r BBC yn y tymor hir?

Cynog Dafis: Huw Lewis asks me to embark on a lengthy dissertation on the Plaid Cymru policy on the constitutional status of Wales and its relationship with the countries of

Cynog Dafis: Mae Huw Lewis yn gofyn imi ddechrau ar ymdriniaeth hir â pholisi Plaid Cymru ar statws cyfansoddiadol Cymru a'i pherthynas â gwledydd Prydain. Nid yw

Britain. Plaid Cymru would not deny that there is a reality to the concept of Britain and that there will always be an important British dimension to the life of Wales and the other countries of the UK. I would be happy to speak on that topic and the connection between it and the BBC at another time. However, my point was that the relationship between the notion of Britain and the British state and the Welsh nation is fraught with contradictions and ironies and amusing aspects. The BBC is one of those. I only pointed to the fact that the British Broadcasting Corporation has been a powerful influence in cementing a Welsh identity. That is a fact. We need to think through the implications of that.

Plaid Cymru'n gwadu bod gwirionedd yn y cysyniad o Brydain ac y bydd dimensiwn Prydeinig pwysig bob amser i fywyd Cymru a gwledydd eraill y DU. Byddwn yn falch o siarad ar y pwnc hwnnw a'r cysylltiad rhyngddo â'r BBC rywdro arall. Fodd bynnag, y pwynt oedd gennyf oedd bod y berthynas rhwng y cysyniad o Brydain a'r wladwriaeth Brydeinig a chenedl y Cymry yn llawn o groesebau ac eironïau ac agweddau difyr. Mae'r BBC yn un o'r rheini. Y cwbl a wneuthum oedd nodi'r ffaith bod y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig wedi bod yn ddylanwad grymus wrth gryfhau hunaniaeth Gymreig. Mae hynny'n ffaith. Mae angen inni ystyried goblygiadau hynny.

In the rest of my speech, I will try to explain why the continuation of public broadcasting by the BBC is hugely important for the future of Wales. There should be common ground between us on that and I am glad that Huw Lewis intends to support the amendment.

Yng ngweddill f'araith, fe geisiaf egluro pam y mae parhad darlledu cyhoeddus gan y BBC yn aruthrol o bwysig i ddyfodol Cymru. Dylai fod tir cyffredin rhyngom ynghylch hynny ac yr wyf yn falch bod Huw Lewis yn bwriadu cefnogi'r gwelliant.

Af ymlaen at ddadl sydd dipyn bach yn symlach na'r un y gwahoddwyd fi i gymryd rhan ynddi. Yr wyf yn siŵr y bydd datganiad defnyddiol i'r wasg yn cael ei anfon i'r papur lleol ym Merthyr Tudful heno o ganlyniad i ymyriad Huw Lewis.

I move on to an argument that is slightly simpler than the one in which I was invited to participate. I am sure that a useful press release will go out to the local paper in Merthyr Tydfil this evening as a result of Huw Lewis's intervention.

Mae dylanwad y BBC ar ddyfodol y genedl Gymreig yn parhau yn allweddol. Dim ond 13 y cant o bobl Cymru sydd yn darllen papur dyddiol boreol Cymreig. Mae'r penderfyniad i sefydlu'r *Welsh Mirror* yn eithriadol o bwysig fel cam ymlaen. Gobeithiaf y gwelwn ragor o hyn ac yn wir y gwelwn bapurau dyddiol Cymru yn cynyddu eu cyfran o'r farchnad wrth i ddylanwad y Cynulliad gynyddu ac wrth i ymwybyddiaeth genedlaethol gynyddu.

The BBC's influence on the future of the Welsh nation continues to be crucial. Only 13 per cent of the people of Wales read a Welsh daily morning newspaper. The decision to establish the *Welsh Mirror* is exceptionally important as a step forward. I hope that we will see more of this and that we will see Welsh daily newspapers increasing their market share as the Assembly's influence increases and as national consciousness increases.

Cymharer yr 13 y cant sydd yn darllen papurau boreol Cymreig â'r gynulleidfa o 270,000 ar gyfartaledd sydd yn gwylio *Wales Today* bob dydd o'r wythnos.

Compare the 13 per cent that read Welsh daily newspapers and the average audience of 270,000 which views *Wales Today* every day of the week.

Mae radio a theledu'r BBC yn derbyn 48 y cant o'r gwylio a'r gwrando yng Nghymru. Cymharer hynny â'r 38 y cant yn Lloegr a 45 y cant yn yr Alban.

BBC radio and television attracts 48 per cent of the viewers and listeners in Wales. Compare that with the 38 per cent in England and 45 per cent in Scotland.

Mae radio a theledu'r BBC yn derbyn 67 y

BBC radio and television receives 67 per cent

cant o'r gwylio a'r gwrando Cymraeg. Mae hynny'n gadael 33 y cant o ffynonellau eraill, sydd yn deyrnged i radio lleol megis Radio Ceredigion a Sain Abertawe. Mae'n eithriadol o bwysig diogelu cyfraniad radio lleol i radio Cymraeg. Gobeithiaf y bydd yr awdurdod radio yn gwrando ar hynny wrth ddod i benderfyniadau yn ystod y misoedd nesaf.

of the viewing and listening in Welsh. That leaves 33 per cent from other sources, which is a tribute to local radio, such as Radio Ceredigion and Swansea Sound. It is extremely important that the contribution of local radio to Welsh language radio is safeguarded. I hope that the radio authority will listen to that as it reaches decisions during the ensuing months.

Mae'r BBC yn darparu 10 awr yr wythnos o raglenni S4C o'r cyllid a ddaw o'r drwydded. Credaf fod y BBC yn agos i'w le wrth honni mai ef yw prif noddwr y celfyddydau yng Nghymru. Mae'n gwario mwy na Chyngor Celfyddydau Cymru ar y celfyddydau. Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig sydd yn gyfrifol am noddi Cerddorfa Cenedlaethol Cymru.

The BBC provides 10 hours a week of S4C programmes from licence fee funding. I believe that the BBC is near to the mark in claiming that it is the main sponsors of the arts in Wales. It spends more than the Arts Council of Wales on the arts. The British Broadcasting Corporation is responsible for sponsoring the National Orchestra of Wales.

Y BBC yw unig ddarparydd rhaglenni ysgolion yn y ddwy iaith. Mae'r BBC yn bresenoldeb cyfarwydd yr ydym i gyd yn ei gymryd yn ganiataol, ac mae perygl mewn cymryd pethau yn ganiataol. Fel a nodwyd eisoes, mae chwyldro yn digwydd ym myd darlledu—technoleg ddigidol, lloeren, cebl ac yn enwedig y cyd-doddi sydd yn digwydd rhwng y teledu a'r cyfrifiadur.

The BBC is the only provider of schools programmes in both languages. The BBC is a familiar presence which we all take for granted, and there is a danger in taking things for granted. As has been said, a revolution is taking place in the broadcasting world—digital technology, satellite, cable and particularly the fusion taking place between the television and the computer.

Mae'r cyfan yn dod yn rhan o farchnad fyd-eang ddidostur o gystadleuol. Yn y byd cystadleuol hwn, mae'r holl syniad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei alw i gwestiwn. Dyna pam y sefydlwyd panel adolygu Gavyn Davies. Y newyddion da yw bod y panel wedi cefnogi'r egwyddor o gadw'r BBC yn wasanaeth cyhoeddus llawn wedi ei gyllido drwy'r drwydded.

It is all becoming a part of a mercilessly competitive global market. In this competitive world, the whole idea of public service broadcasting is called into question. That is why Gavyn Davies's review panel was established. The good news is that the panel has supported the principle of keeping the BBC as a full public service funded through the licence.

Fodd bynnag, y mae'n rhesymol dadlau y bu'r panel yn amharod i ewyllysio cyllid digonol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus llawn yn yr oes ddigidol newydd.

However, it is reasonable to argue that the panel has been unwilling to request adequate funding for a full public service in the new digital age.

Yn wyneb yr hera'r cyfle sydd yn y newidiadau hyn, go brin y bydd y codiad o £5 y mis ym mhris y drwydded yn ddigonol. Ni fydd yr argymhelliad amgen ar gyfer ffi teledu digidol yn ddigonol ychwaith.

In face of the challenge and the opportunity involved in these changes, it is unlikely that the increase of £5 per month in the price of the licence will be adequate. The alternative proposal for a digital television fee will not be adequate either.

Mae pryder hefyd yng Nghymru ynglŷn â'r argymhelliad y dylid gwerthu BBC Resources Cyf, a chefnogaf yn llwyr welliant 5 Christine

There is concern in Wales about the recommendation that BBC Resources Ltd should be sold, and I fully support Christine

Humphreys mewn perthynas â hyn.

Humphreys's amendment 5 in relation to this.

O gael yr adnoddau digonol, mae posibiliadau cyffrous i Gymru yn yr oes ddigidol. Crybwyllwyd eisoes Goleg Digidol Cymru a mentrau addysgol eraill. Eisoes mae ymrwymiad sylweddol i'r Cynulliad.

With adequate resources, there are exciting possibilities for Wales in the digital age. The Wales Digital College and other educational enterprises have already been mentioned. There is already substantial commitment to the Assembly.

Mae'r BBC wrthi'n creu papur dyddiol Cymraeg ar-lein ar hyn o bryd. Yn bwysicach na dim efallai, y mae'n yn datblygu sianel Saesneg i Gymru drwy BBC Choice.

The BBC is in the process of creating an on-line Welsh daily newspaper. Perhaps most important of all, it is developing an English channel for Wales though BBC Choice.

Mae'r BBC ymhell o fod yn berffaith. Yr wyf yn cydweld ag awgrymiadau y Pwyllgor Dethol ynglŷn â datganoli pellach ar y BBC a gwasanaethau eraill ym mharagraffau 21-24 yr ail adroddiad. Mae'r BBC yn rhy ganolaidd ei natur ac mae eisiau iddo ddatganoli.

The BBC is far from perfect. I agree with the recommendations of the Select Committee as regards further devolution of the BBC and other services in paragraphs 21-24 of the second report. The BBC is too centralist in nature and needs to be more devolved.

Nid wyf mewn unrhyw fodd yn dibrisio darlledydd gwasanaeth cyhoeddus arall Cymru, S4C, a'i rôl unigryw fel darlledydd cenedlaethol. Ni ddibrisiaf ychwaith gyfraniad HTV i'r maes darlledu. Bu'n eithriadol o bwysig dros y blynyddoedd.

I do not in any way denigrate the other public service broadcaster in Wales, S4C, and its unique role as a national broadcaster. Neither do I denigrate the contribution of HTV to the broadcasting scene. It has been extremely important over the years.

Credaf fod angen i'r Cynulliad, ar yr adeg allweddol hon wrth i'r ymgynghori ddod i ben, ddatgan ei gefnogaeth i'r egwyddor o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ac i rôl ganolog y gwasanaeth hwnnw ym mywyd cenedlaethol Cymru.

I believe that the Assembly, at this crucial time as the consultation comes to an end, needs to declare its support to the principle of public service broadcasting and to the central role of that service in the national life of Wales.

Yr ydym yn byw mewn byd o newid technolegol chwim. Y mae'n amhosibl rhagweld beth fydd pen draw hyn i ddarlledu a chyfathrebu. Credaf y bydd globaleiddio a datganoli, fel mewn llawer o achosion eraill, yn tueddu i fynd gyda'i gilydd. Mae'n anodd gweld pa fath o bwerau a rheolau—a dyma ymateb i Aelod Merthyr Tudful a Rhymni efallai—fyddai'n briodol ar lefel genedlaethol Gymreig. Yr wyf yn siŵr, yn y dyfodol rhagweladwy, bod diogelu rôl y BBC fel darparwr gwasanaeth cyhoeddus pwerus yn bwysig i Gymru fel cenedl ac i'r Cynulliad. Gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn datgan hynny drwy gefnogi'r gwelliant hwn.

We live in a world of rapid technological change. It is impossible to foresee the ultimate implications for broadcasting and communication. I believe that globalisation and devolution, as in many other cases, will tend to go hand in hand. It is difficult to see what kind of powers and rules—and maybe this is a response to the Member for Merthyr Tydfil and Rhymney—would be appropriate on a national Welsh level. I am certain that, in the foreseeable future, safeguarding the role of the BBC as a powerful public service provider is important to Wales as a nation and to the Assembly. I hope that the Assembly will declare that by supporting this amendment.

3:58 p.m.

Christine Humphreys: Cynigiaf welliant 4. Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad hwn yn nodi â phryder y nifer fawr o wylwyr yng Nghymru nad ydynt yn gwylio teledu o Gymru, naill ai oherwydd anawsterau technegol neu drwy ddewis, ac mae'n penderfynu cymryd y camau canlynol:

parhau i ymgynghori â darlledwyr â'r nod (a) o wella'r ymdriniaeth a roddir i Gymru yn y dyfodol gan deledu daearol a theledu lloeren digidol er mwyn rhoi'r dewis i holl wylwyr Cymru wylio teledu o Gymru a (b) codi niferoedd y rhai sydd yn gwylio teledu o Gymru;

ymgynghori â darlledwyr a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynglŷn â dulliau posibl i gymell gwylwyr teledu analog na fyddent fel arall yn gallu fforddio newid o deledu analog i deledu digidol.

Cynigiaf hefyd welliant 5. Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

Yn fwy na hynny, mae'r Cynulliad hwn yn manteisio ar y cyfle hwn i fynegi ei wrthwynebiad i'r cynnig i breifateiddio BBC Resources Cyf, gan ei fod yn gweld hynny fel bygythiad i allu'r BBC yn y dyfodol i roi ymdriniaeth briodol i faterion Cymreig.

Cynigiaf hefyd welliant 6. Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

ac yn sgîl yr adroddiad, benderfynu cymryd y camau canlynol:

pwyso am gyhoeddi'r Concordat rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon cyn gynted ag y bo modd;

pwyso am gynnwys gweithdrefnau yn y Concordat hwnnw ar gyfer ymgynghori addas rhwng y Cynulliad cyfan a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynglŷn â phenodi unrhyw gynrychiolwyr o Gymru ar gyrff darlledu, os yw'r cyrff hynny'n seiliedig yng Nghymru yn unig neu'n gyrff ar gyfer y DU yn gyfan.

Christine Humphreys: I propose amendment 4. At the end of the motion add:

This Assembly notes with particular concern the large number of viewers in Wales who either because of technical difficulties or through choice do not watch television from Wales, and resolves to take the following actions:

continue consultation with broadcasters with the aim of (a) improving the future coverage of Wales by both terrestrial and satellite digital television as a means of giving all viewers in Wales the option to access television from Wales and (b) improving viewer take-up of television from Wales;

consult with broadcasters and the Secretary of State for Culture, Media and Sport regarding possible incentives to viewers of analogue television who would not otherwise be able to afford to upgrade from analogue to digital.

I also propose amendment 5. Add at the end of the motion:

This Assembly further takes this opportunity to express its opposition to the proposed privatisation of BBC Resources Ltd, which it regards as a threat to the BBC's continued ability to provide proper coverage of Welsh affairs.

I also propose amendment 6. Add at the end of the motion:

and in the light of the report resolves to take the following actions:

press for the earliest possible publication of the Concordat concerning relations between the National Assembly for Wales and the Department for Culture, Media and Sport;

press for the inclusion in this Concordat of procedures for proper consultation between the Assembly as a whole and the Secretary of State for Culture, Media and Sport regarding any appointments of Welsh representatives to broadcasting bodies, be they Wales-only or UK-wide bodies.

Hoffwn longyfarch awduron adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig am gyflwyno adroddiad sydd wedi'i ysgrifennu mewn iaith glir, syml ac anffurfiol, ac am gyflwyno gwybodaeth sydd, ar adegau, yn eithaf technegol mewn modd dealladwy.

I would like to congratulate the authors of the Welsh Affairs Select Committee report for presenting a report that has been written in clear, simple and informal language, and for presenting information that is, at times, quite technical in an understandable way.

Mae gwelliant 4 yn gofyn i ni, fel Cynulliad, yn gyntaf nodi gyda phryder y canran o boblogaeth Cymru nad yw'n gwylio teledu sydd yn dod o Gymru, yn y Gymraeg na'r Saesneg. Yn ail, mae'n gofyn inni sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i wella'r sefyllfa.

Amendment 4 asks us, as an Assembly, first to note with concern the percentage of Wales's population that does not watch television that comes from Wales, in either Welsh or English. Secondly, it asks us to ensure that steps are taken to improve the situation.

Mae'r adroddiad yn tynnu ein sylw at y ffaith bod tua 14 y cant o boblogaeth Cymru—tua 400,000 o bobl—naill ai'n methu â derbyn teledu o Gymru neu'n dewis peidio â'i wylio. Os ychwanegwn at hynny y ffaith a nododd Cynog Dafis yn gynharach, sef mai dim ond 13 y cant o bobl Cymru sydd yn darllen papurau newydd a gynhyrchir yng Nghymru, rhaid derbyn bod yr hyn y mae'r adroddiad yn ei alw'n '*the information deficit*' yn bodoli yng Nghymru. Golyga hynny nad yw canran eithaf mawr o'n poblogaeth yn derbyn yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gwneud penderfyniadau gwleidyddol ac etholiadol ynglŷn â'u bywydau. Mae rhai ohonom yn amau bod y sefyllfa hon wedi effeithio ar nifer y bobl a bleidleisiodd yn etholiadau'r Cynulliad.

The report draws our attention to the fact that about 14 per cent of Wales's population—about 400,000 people—either are unable to receive television from Wales or choose not to watch it. If we add to that the fact that Cynog Dafis mentioned earlier, that only 13 per cent of the people of Wales read newspapers that are produced in Wales, we must accept that what the report calls 'the information deficit' exists in Wales. That means that a relatively high percentage of our population does not receive the information needed to make political and electoral decisions about their lives. Some of us suspect that this situation affected the turnout in the Assembly elections.

Mae amryw o resymau am y diffyg gwylwyr. Yn gyntaf, nid yw rhannau eithaf mawr o'r wlad—gogledd-ddwyrain Cymru, rhannau o Bowys ac ardaloedd yn ne Cymru megis Casnewydd, Cwmbrân, Caerdydd a'r Barri—yn gallu derbyn rhaglenni teledu sydd yn dod o Gymru. Rhesymau daearyddol sydd yn gyfrifol, yn bennaf, am hynny. Mewn rhai mannau, gall y signal o Loegr fod yn gryfach na'r un o Gymru.

There are many reasons for the lack of viewers. First, relatively large parts of the country—north-east Wales, parts of Powys and areas in south Wales such as Newport, Cwmbrân, Cardiff and Barry—are not able to receive television programmes that come from Wales. That is mainly due to geographical reasons. In some areas, the signal from England can be stronger than the one from Wales.

Yn ail, mewn rhai mannau mae'r bobl sydd yn gosod yr erialau yn achosi problemau. Gan fod y signal o Loegr weithiau yn gryfach, mae'n haws troi'r erialau at y trosglwyddyddion sydd yn trosglwyddo lluniau o Loegr. Mewn rhai mannau, mae tystiolaeth i brofi eu bod yn dweud wrth bobl mai hwn yw'r unig ddewis. Mae S4C yn ymwybodol o'r sefyllfa hon, ac yn cymryd

Secondly, in some places the people who erect the aerials cause problems. As the signal from England is sometimes stronger, it is easier to turn the aerials to transmitters that transmit pictures from England. In some areas, there is evidence to prove that they tell people that this is the only option. S4C is aware of this situation, and is taking steps to improve it, particularly in the North.

camau i'w gwella, yn enwedig yn y Gogledd.

Bydd hyd at chwarter o wylwyr Cymru yn methu â derbyn teledu digidol daearol yn ystod ei gyfnod cyntaf o ddarlledu, gan gynnwys llawer o bobl sydd ar hyn o bryd yn cael trafferth i dderbyn teledu analog daearol. Mae hynny'n rhannol oherwydd anawsterau darlledu dros diroedd mynyddig Cymru, ac yn rhannol oherwydd dewis y darlledwyr digidol.

Up to a quarter of viewers in Wales will not be able to receive terrestrial digital television during its first period of broadcasting, including many people who at present have difficulty in receiving terrestrial analogue television. That is partially due to broadcasting difficulties over Wales's mountainous areas, and partially because that is the choice of the digital broadcasters.

Derbyniais lythyr heddiw gan etholwr yn Nhrefyclawdd, Sir Faesyfed a oedd yn gwybod y byddwn yn gwneud yr araith hon heddiw. Nid yw'n gallu derbyn unrhyw deledu analog o Gymru. Y mae wedi cysylltu â'r cwmni digidol, ond nid yw ONdigital ar gael yn ei ardal ac nid yw Sky Digital yn fodlon darlledu'r ystod llawn o raglenni teledu o Gymru.

I received a letter today from an elector in Knighton, Radnorshire who knew that I would be making this speech today. He cannot receive any analogue television from Wales. He has contacted the digital company, but ONdigital is not available in his area and Sky Digital is not prepared to broadcast the full range of television programmes from Wales.

Oherwydd mai cod post Henffordd sydd gan rai rhannau o Sir Faesyfed, ystyria Sky Digital hwy fel rhan o Loegr ac mae'n gwrthod rhoi unrhyw raglenni Cymraeg o gwbl iddynt. Rhaid inni sicrhau y gall pob gwyliwr yng Nghymru dderbyn teledu digidol o Gymru cyn i'r signal analog gael ei ddiffodd. Nid yw rhai gwylwyr, er enghraifft, yn fodlon neu nid ydynt yn gallu talu ffi o £40 i Sky Digital, ac yna ffi fisol ar ben hynny dim ond er mwyn derbyn teledu o'u gwlad eu hunain. Mae S4C wedi galw am gymorth i'r rhai sydd yn dymuno mynd yn ddigidol ond yn methu fforddio gwneud hynny. Rhaid inni ystyried hyn o ddifrif yn lle gadael y cyfan i'r farchnad rydd.

Because some areas of Radnorshire have the Hereford post code, Sky Digital considers them to be part of England and refuses to provide them with any Welsh programmes. We must ensure that every viewer in Wales can receive digital television from Wales before the analogue signal is switched off. Some viewers, for example, are unwilling or unable to pay a fee of £40 to Sky Digital, and then a subsequent monthly fee on top of that just to receive television from their own country. S4C has called for assistance for those who wish to go digital but cannot afford to do so. We must consider this seriously instead of leaving it all to the free market.

Galwa gwelliant 5 ar y Cynulliad i ystyried canlyniadau preifateiddio BBC Resources Cyf. Rhaid inni dderbyn bod gwaith gorau'r BBC yn dibynnu ar gyfuniad o arbenigedd cynhyrchu, creadigol a thechnegol. Mae cwmni adnoddau'r BBC yn allweddol i hyn. Mae'r cwmni yn hyfforddi technegwyr ar gyfer y diwydiant darlledu i gyd ac yn darparu cronfa holl bwysig o sgiliau ac arbenigedd. Er i adroddiad panel Davies yn gynharach eleni alw am breifateiddio cwmni adnoddau'r BBC fel modd o ddarparu cyllid i dalu am ddigideiddio, cyfrifodd yr Undeb Darlledu, Adloniant, Sinematograff a Theatr, sef undeb llafur y technegwyr darlledu, na fyddai preifateiddio cwmni adnoddau'r BBC

Amendment 5 calls upon the Assembly to consider the results of the privatisation of BBC Resources Ltd. We must accept that the BBC's best work depends on a combination of production, creative and technological expertise. BBC Resources is crucial to this. The company trains technicians for the whole of the broadcasting industry and provides an all-important pool of skills and expertise. Although the Davies panel report earlier this year called for the privatisation of BBC Resources as a means of providing funding to pay for digitalisation, the Broadcasting, Entertainment, Cinematograph and Theatre Union, which is the trade union for broadcasting technicians, calculated that the

yn cyfrannu ond 5 y cant o gyfanswm y cyllid hwnnw. Byddai preifateiddio yn arwain at ddiswyddo 4,000 o bobl ac £1.8 miliwn o gostau ail-strwythuro ledled y Deyrnas Unedig. Mae'n debyg y byddai tua 700 neu 800 o swyddi yn cael eu colli yng Nghymru. Rhaid inni fod yn wyliadwrus. Mae preifateiddio cwmni adnoddau'r BBC yn rhan o'r broses o werthu trysorau'r teulu, proses a ddechreuwyd gan Margaret Thatcher ac sydd yn parhau o dan Tony Blair. Mae pobl Prydain wedi buddsoddi'n drwm mewn cwmni adnoddau'r BBC drwy dalu am eu trwyddedau teledu dros y blynyddoedd. Pam y dylai cwmnïau masnachol preifat elwa o'r buddsoddiadau hyn?

privatisation of BBC Resources would only contribute 5 per cent of the total of that funding. Privatisation would lead to 4,000 job losses and £1.8 million in restructuring costs throughout the United Kingdom. It is likely that about 700 or 800 jobs would be lost in Wales. We must be vigilant. The privatisation of BBC Resources is part of the process of selling off the family silver, a process which was started by Margaret Thatcher and which continues under Tony Blair. The people of Britain have invested heavily in BBC Resources by paying for their television licences over the years. Why should private commercial companies profit from those investments?

Amendment 6 calls for the Assembly powers relating to broadcasting to be detailed in a concordat with the Department for Culture, Media and Sport. The Assembly must take this issue seriously and the Select Committee strongly advises us to have an opinion on it. The precise nature of the consultation process on broadcasting matters relating to Wales is, as the Committee points out, a little vague. We need to ensure that the consultation process is clearly defined and allows us, as section 33 of the Local Government Act states, to consider and to make representations on any matter affecting Wales. I quote from the Committee's report:

Galwa gwelliant 6 am restru pwerau'r Cynulliad sydd yn ymwneud â darlledu mewn concordat gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Rhaid i'r Cynulliad gymryd y mater hwn o ddifrif ac mae'r Pwyllgor Dethol yn ein cynghori'n gryf i fabwysiadu safbwynt arno. Mae union natur y broses ymgynghori ar faterion darlledu sydd yn ymwneud â Chymru yn niwlog braidd, fel y noda'r Pwyllgor. Rhaid inni sicrhau bod y broses ymgynghori wedi ei diffinio'n eglur ac yn caniatáu i ni, fel y dywed adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol, ystyried a chyflwyno sylwadau ar unrhyw fater sydd yn effeithio ar Gymru. Dyfynnaf o adroddiad y Pwyllgor:

'In this and other areas, it is essential that "consultation with the Welsh Assembly" is not taken to mean "consultation with the Assembly Executive". It is essential that the Assembly as a whole (backbenchers and Opposition, as well as the Assembly Secretaries) is included in consultation.'

In order to allay some fears that have been voiced, I make it clear that my amendment does not seek to change the actual appointment procedure. We accept that a panel of a Cabinet Secretary plus two is the agreed format and we are not asking for appointments to be made by the Assembly as a whole.

Er mwyn tawelu rhai ofnau a fynegwyd, rhoddaf ar ddeall nad yw fy ngwelliant yn ceisio newid y weithdrefn benodi ei hun. Derbyniwn mai panel o Ysgrifennydd y Cabinet ynghyd â dau arall yw'r fformat a gytunwyd ac nid ydym yn gofyn am wneud penodiadau gan y Cynulliad fel cyfangorff.

4:08 p.m.

The Assembly should have the right to consider the criteria for judging appropriate candidates or to examine the broader issue of the type of appointment needed. These rights should be formalised in a concordat so that

Dylai'r Cynulliad gael yr hawl i ystyried y meini prawf ar gyfer dyfarnu ynghylch ymgeiswyr priodol neu i ystyried y mater ehangach o'r math o benodiad sydd yn ofynnol. Dylid ffurfioli'r hawliau hyn mewn

we are part of the consultation process. If we do not insist on a formal concordat detailing the procedures for proper consultation with the Assembly as a whole, we might as well return to the bad old days when John Redwood and his ilk decided on policy for Wales through discussions with their masters in England.

concordat fel y byddwn yn rhan o'r broses ymgynghori. Os na fynnwn gael concordat ffurfiol sydd yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori priodol â'r Cynulliad fel cyfangorff, gystal inni fynd yn ôl i'r hen ddyddiau drwg pan oedd John Redwood a'i debyg yn penderfynu ar bolisi i Gymru drwy drafod â'u meistri yn Lloegr.

Ron Davies: I listened to Christine Humphreys's latter remarks with great interest because John Redwood did not always sit in the Welsh Office. I was privileged to play a part in the appointment of Elan Closs Stephens, thus ushering in a whole new era for S4C, which is a good example to us all of how that type of appointment can open up these bodies. I have listened with interest and I have a great deal of sympathy with Christine's latter remarks but a concordat is not the solution to all our problems. We have a developing relationship with the Department for Culture, Media and Sport, which has always been anxious to ensure that Welsh interests are taken into account. If I were Christine, I would not pin all my hopes on a concordat. Indeed, I am sufficiently cynical to believe that a concordat would tie us down, giving us less influence than we currently have. At the moment, we can influence affairs in London.

Ron Davies: Gwrandewais ar sylwadau olaf Christine Humphreys gyda diddordeb mawr oherwydd nid oedd John Redwood yn y Swyddfa Gymreig gydol yr amser. Cefais y fraint o chwarae rhan ym mhenodiad Elan Closs Stephens, gan gychwyn oes newydd i S4C, sydd yn enghraifft dda inni oll o'r modd y gall penodiad o'r fath wneud y cyrff hyn yn fwy agored. Gwrandewais gyda diddordeb a chydymdeimlaf yn fawr â sylwadau olaf Christine ond nid yw concordat yn ateb i'n holl broblemau. Mae gennym berthynas sydd yn datblygu gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sydd yn awyddus erioed i sicrhau y rhoddir sylw i fuddiannau Cymru. Pe bawn i yn lle Christine, ni roddwn fy holl ffydd mewn concordat. Yn wir, yr wyf yn ddigon sinigaidd i gredu y byddai concordat yn ein rhwymo ni, yn rhoi llai o ddylanwad inni nag sydd gennym yn awr. Ar hyn o bryd, gallwn ddylanwadu ar faterion yn Llundain.

I welcome Jane Davidson's remarks, because we must acknowledge that the broadcasters have a responsibility to make a great contribution to our collective attempts to create a new democracy, society and a new sense of governance in Wales. It is encouraging to learn of the co-operation between those producers and the way they are trying desperately hard to present the proceedings of this Assembly fairly to the people of Wales. We should regard them as our active partners and I pay tribute to the integrity and professionalism that all the broadcasters have shown. Sometimes, we want to criticise them for relaying unhelpful messages but if they feel they must report those unhelpful messages it is because they see unhelpful things and report the truth as they see it.

Croesawaf sylwadau Jane Davidson, oherwydd rhaid inni gydnabod bod cyfrifoldeb ar y darlledwyr i wneud cyfraniad mawr i'n cydymdrech i greu democratiaeth newydd, cymdeithas newydd ac ymdeimlad newydd o drefn llywodraeth yng Nghymru. Calonogol yw cael gwybod am y cydweithrediad rhwng y cynhyrchwyr hynny a'r modd y maent yn ceisio'n hynod o galed i gyflwyno trafodion y Cynulliad hwn yn deg i bobl Cymru. Dylem eu hystyried yn bartneriaid gweithredol i ni a thalaf deyrnged i'r unplygrwydd a'r proffesiynoldeb a amlygwyd gan yr holl ddarlledwyr. Weithiau, byddwn am eu beirniadu am drosglwyddo negeseuon anghynorthwyol ond os teimlant fod yn rhaid iddynt adrodd am y negeseuon anghynorthwyol hynny, mae hynny am eu bod yn gweld pethau anghynorthwyol ac yn datgan y gwirionedd fel y maent yn ei weld.

In Wales, we have been fortunate in the quality of people heading our broadcasting. I

Yng Nghymru, buom yn ffodus oherwydd ansawdd y rhai sydd yn arwain mewn

have mentioned Elan Closs Stephens and Huw Jones, for example. They are people of the highest ability and integrity. In the BBC, we have Geraint Talfan Davies. He will be leaving shortly but look at the people working with him, like Dai Smith and Glyn Mathias. I will now mention Menna Richards of HTV, who will be going to the BBC. If my ratings do not increase after mentioning those people, I will be a little surprised. [*Laughter.*]

Glyn Davies: I thought that was what you were after.

Ron Davies: I am sure you will have wised up to that Glyn, as an old operator yourself.

I listened to Cynog's remarks with great interest. It was one Davies talking to another Davies about the third Davies: the Davies panel on broadcasting. I must admit that after reading the Davies report and thinking through the consequences of broadcasting in Wales, I am very concerned. It is not a question of selling off the family silver as Christine Humphreys suggested. However, elements of that report will undermine the ethos of public sector broadcasting. That ethos led to a high standard of broadcasting in Wales and will be diminished if the Davies report recommendations are accepted. I oppose the idea of selling off 49 per cent of the BBC. I also oppose selling the BBC's resources department, the imposition of artificially determined efficiency savings and developing a digital licence fee. Such actions will put unfair and unreasonable pressure on the BBC and will drive it towards commercialisation. The more it is driven towards that, the more difficult it will be for the BBC to maintain quality. Furthermore, following announcements last week on the introduction of further concessions on licence fees, we will have to require the Home Office or Treasury to take a fresh look at the question of licensing to ensure that we have a more rational approach to granting exemptions.

If the Davies recommendations are accepted or amended and additional resources are given to the BBC—and I hope the

darlledu. Soniais am Elan Closs Stephens a Huw Jones, er enghraifft. Pobl o'r gallu a'r unplygrwydd mwyaf yw'r rhain. Yn y BBC, mae gennym Geraint Talfan Davies. Bydd ef yn gadael cyn hir ond edrychwch ar y rhai sydd yn gweithio gydag ef, fel Dai Smith a Glyn Mathias. Soniaf yn awr am Menna Richards o HTV, a fydd yn mynd i'r BBC. Os na fydd fy mhoblogrwydd yn cynyddu ar ôl sôn am y bobl hynny, byddaf yn synnu braidd. [*Chwerthin.*]

Glyn Davies: Tybiais mai hynny oedd y bwriad.

Ron Davies: Yr wyf yn siŵr eich bod chi wedi dysgu am hynny, Glyn, a chithau'n hen law.

Gwrandewais gyda diddordeb mawr ar sylwadau Cynog. Yr oedd yn un Davies yn siarad wrth Davies arall am drydydd Davies: panel Davies ar ddarlledu. Rhaid imi gyfaddef fy mod yn bryderus iawn ar ôl darllen adroddiad Davies ac ystyried y canlyniadau i ddarlledu yng Nghymru. Nid yw'n fater o werthu trysorau'r teulu fel yr awgrymodd Christine Humphreys. Fodd bynnag, fe geir elfennau yn yr adroddiad hwnnw fydd yn tanseilio ethos darlledu sector cyhoeddus. Arweiniodd yr ethos hwnnw at safon uchel o ddarlledu yng Nghymru ac fe ostyngir hynny os derbynnir argymhellion adroddiad Davies. Gwrthwynebaf y syniad o werthu 49 y cant o'r BBC. Gwrthwynebaf hefyd werthu adran adnoddau'r BBC, gorfodi arbedion effeithlonrwydd a bennir drwy ddull artiffisial a datblygu ffi trwydded ddigidol. Byddai camau o'r fath yn rhoi pwysau annheg ac afresmol ar y BBC ac yn ei yrru tuag at fasnacheiddio. Po fwyaf y gyrrir ef at hynny, mwyaf anodd fydd hi i'r BBC gynnal ansawdd. Yn ogystal â hynny, ar ôl datganiadau'r wythnos diwethaf ar gyflwyno consesiynau pellach ar ffioedd trwydded, bydd yn rhaid i ni fynnu y bydd y Swyddfa Gartref neu'r Trysorlys yn edrych o'r newydd ar gwestiwn trwyddedu er mwyn sicrhau y cawn ymagwedd fwy rhesymol at ganiatáu eithriadau.

Os caiff argymhellion Davies eu derbyn neu eu newid ac y rhoddir adnoddau ychwanegol i'r BBC—a gobeithiaf y bydd ysbryd

Assembly's spirit of consensus this afternoon will also apply to this issue—we must ensure that BBC Wales gets a fair share of those existing resources. However, my fear is that decision-makers in the BBC in London will not recognise what faces the BBC in Wales, including the need to maintain a separate operation and to play a full role as partners in reporting our developing democracy. That is, reporting on those elements of our national life that do not exist in England or the English regions. The BBC's responsibility in raising the profile and promoting the image of Wales is very important in ensuring that we get our fair share of available additional resources.

consensws y Cynulliad brynhawn heddiw yn berthnasol i'r mater hwn hefyd—rhaid inni sicrhau y caiff BBC Cymru gyfran deg o'r adnoddau hynny fydd ar gael. Fodd bynnag, yr ofn sydd gennyf yw na fydd y rhai sydd yn penderfynu yn y BBC yn Llundain yn cydnabod yr hyn sydd yn wynebu'r BBC yng Nghymru, yn cynnwys yr angen i gynnal gweithrediad ar wahân a chwarae rôl lawn fel partneriaid wrth adrodd am y ddemocratiaeth sydd yn datblygu gennym. Hynny yw, adrodd am yr elfennau hynny yn ein bywyd cenedlaethol nad ydynt yn bod yn Lloegr nac yn rhanbarthau Lloegr. Mae cyfrifoldeb y BBC wrth gynyddu amlygrwydd Cymru a hybu ei delwedd yn bwysig iawn wrth sicrhau y cawn ein cyfran deg o'r adnoddau ychwanegol fydd ar gael.

There is no doubt that all the broadcasters make an important contribution to the development of our democracy and the reporting of our culture. However, I am concerned that they are not yet punching their full weight in Wales. We have three excellent broadcasters but they contribute less to the UK networks than the percentage of the UK population should require. We represent 6.5 per cent of the UK population but BBC Wales only contributes 43 hours every year to the BBC network. The HTV figure is even less; under 27 hours are produced by HTV for the UK networks.

Nid oes amheuaeth nad yw'r holl ddarlledwyr yn gwneud cyfraniad o bwys i ddatblygiad ein democratiaeth ac adrodd am ein diwylliant. Fodd bynnag, yr wyf yn bryderus nad ydynt yn bwrw â'u holl nerth eto yng Nghymru. Mae gennym dri darlledwr rhagorol ond maent yn cyfrannu llai i rwydweithiau'r DU nag a ddylai fod yn ofynnol yn ôl y ganran o boblogaeth y DU. Yr ydym yn cyfateb i 6.5 y cant o boblogaeth y DU ond nid yw BBC Cymru ond yn cyfrannu 43 awr bob blwyddyn i rwydwaith y BBC. Mae'r ffigur ar gyfer HTV yn llai byth; cynhyrchir llai na 27 awr gan HTV ar gyfer rhwydweithiau'r DU.

In Scotland and Ireland, nobody can doubt the quality of broadcasting and cultural industries developed largely on the back of people who have been working for broadcasters in these two countries. They have helped develop their distinctive culture and their own image by presenting a very positive profile of themselves internationally. We have not yet managed to do that in Wales and we must address that. In doing so, we can look to our broadcasters to make a much greater contribution to our Welsh economy. We already have a flourishing small producer sector. Around 90 small producers are based either in Cardiff or Caernarfon, with some outside Wales, contributing thousands of jobs directly and indirectly to the Welsh economy. The efforts of those small producers could be developed to much greater effect if we used Objective 1 resources and persuaded those

Yn yr Alban ac Iwerddon, ni all neb amau ansawdd y diwydiannau darlledu a diwylliannol a ddatblygwyd yn bennaf drwy ymdrech rhai a fu'n gweithio i ddarlledwyr yn y ddwy wlad hynny. Maent wedi helpu i ddatblygu eu diwylliant penodol eu hunain a'u delwedd eu hunain drwy gyflwyno portread cadarnhaol iawn ohonynt eu hunain drwy'r byd. Ni lwyddasom i wneud hynny eto yng Nghymru a rhaid inni roi sylw i hynny. Wrth wneud felly, gallwn ddisgwyl i'n darlledwyr wneud cyfraniad mwy o lawer i economi Cymru. Mae gennym sector cynhyrchwyr bychain ffyniannus eisoes. Mae tua 90 o gynhyrchwyr bychain â'u canolfannau yng Nghaerdydd a Chaernarfon, a rhai ohonynt y tu allan i Gymru, ac maent yn cyfrannu miloedd o swyddi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i economi Cymru. Gellid datblygu ymdrechion

responsible for commissioning in the BBC and ITV networks and Channel 4 to have a greater regard for what we can do in Wales.

y cynhyrchwyr bychain hynny yn llawer mwy effeithiol pe baem yn defnyddio adnoddau Amcan 1 ac yn dwyn perswâd ar y rhai sydd yn gyfrifol am gomisiynu ar rwydweithiau'r BBC ac ITV a Channel 4 i roi mwy o barch i'r hyn y gallwn ei wneud yng Nghymru.

I want to see the tradition and experience that has built up in Wales—largely based on those Welsh broadcasters making programmes in both languages—develop so that it will become commonplace to see, not only Welsh actors and actresses, which we now have in abundance, but also Welsh writers and programmes made in Welsh locations or made by Welsh producers appearing more frequently on the UK BBC and ITV networks. We can do that if we are prepared to support the broadcasters as well as the network and the individuals supporting those broadcasters. If we demand that they use their expertise and initiatives on behalf of Wales, the Welsh economy and the people of Wales, our own image and profile will be raised not only in the UK but internationally. That would be a major contribution. The broadcasters—the BBC, HTV and S4C—are at the front of that campaign. They have a heavy responsibility and I hope we all will give them our wholehearted support.

Yr wyf am weld y traddodiad a'r profiad a fagwyd yng Nghymru—yn seiliedig yn bennaf ar y darlledwyr Cymreig hynny sydd yn gwneud rhaglenni yn y ddwy iaith—yn datblygu fel mai peth cyffredin fydd gweld, nid yn unig actorion ac actoresau o Gymry, y mae gennym doreth ohonynt bellach, ond hefyd awduron a rhaglenni o Gymru a wnaethpwyd mewn lleoliadau yng Nghymru neu a wnaethpwyd gan gynhyrchwyr o Gymru sydd yn ymddangos yn amlach ar rwydweithiau BBC a ITV ar gyfer y DU. Gallwn wneud hynny os ydym yn barod i gefnogi'r darlledwyr yn ogystal â'r rhwydwaith a'r unigolion sydd yn cefnogi'r darlledwyr hynny. Os mynnwn y byddant yn defnyddio eu harbenigaeth a'u menter ar ran Cymru, bydd economi Cymru a phobl Cymru, a'n delwedd a'n hamlygrwydd ar i fyny, nid yn unig yn y DU ond drwy'r byd. Byddai hynny'n gyfraniad o bwys. Mae'r darlledwyr—y BBC, HTV a S4C—ar flaen yr ymgyrch honno. Mae cyfrifoldeb mawr arnynt a gobeithiaf y byddwn oll yn eu cefnogi'n galonnog.

Jonathan Morgan: I welcome the opportunity to contribute to this important debate this afternoon. This issue is relevant to all our constituents as well as to the economic advancement of Wales and the advancement of its identity. As a Member of the Assembly Broadcasting Company Board, I take a keen interest in Welsh media developments.

Jonathan Morgan: Croesawaf y cyfle i gyfrannu i'r ddadl bwysig hon brynhawn heddiw. Mae'r mater hwn yn berthnasol i etholwyr pob un ohonom yn ogystal â chynnydd economaidd Cymru a chynnydd ei hunaniaeth. Fel aelod o Fwrdd Cwmni Darlledu'r Cynulliad, byddaf yn ymddiddori'n fawr mewn datblygiadau yn y cyfryngau yng Nghymru.

The Welsh Affairs Select Committee's report on broadcasting is a welcome focus of attention on this important issue. The Conservative Group will accordingly vote for the motion to note the report. It is important, at this stage, to comment on the Assembly's powers. Legislative powers, as the First Secretary stated, are held by Parliament almost exclusively.

Mae adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig i'w groesawu fel modd i ddwyn sylw at y mater pwysig hwn. Yn unol â hynny, bydd y Grŵp Ceidwadol yn pleidleisio o blaid y cynnig i nodi'r adroddiad. Mae'n bwysig, yn y cyfnod hwn, roi sylwadau ar bwerau'r Cynulliad. Fel y dywedodd y Prif Ysgrifennydd, y Senedd sydd yn dal y pwerau deddfu'n gyfan gwbl bron.

4:18 p.m.

Broadcasting is not a devolved matter but that does not mean that we cannot take an active role in monitoring and promoting the media in Wales. However, it is striking to read the contributions of S4C, BBC Cymru and HTV in the Select Committee report, in which they unanimously reject any move towards making broadcasting a devolved policy. Their argument was that the media is becoming increasingly global and that any attempt to make the regulation of the Welsh media more parochial would be counter-productive. They stated that Wales gets more than its fair share of the honey pot with regard to programming resources. Long may that continue. It is important not to make policy on the hoof before the relevant Subject Committee has had a chance to consider the report in further detail. In that vein, the Conservative Group cannot support amendments 4 and 5 proposed by Christine Humphreys. That is not because we do not support moves to improve television reception throughout Wales, but because those amendments seek to make definitive Assembly policies on subsidies for digital broadcasting and the proposed privatisation of BBC resources prior to any examination of these issues by the relevant Subject Committee.

Nid yw darlledu'n fater datganoledig ond nid yw hynny'n golygu na allwn gymryd rôl weithredol wrth fonitro a hybu'r cyfryngau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n drawiadol darllen cyfraniadau S4C, BBC Cymru a HTV yn adroddiad y Pwyllgor Dethol, lle y maent yn unfrydol wrth wrthod unrhyw gamau tuag at wneud darlledu'n bolisi datganoledig. Eu dadl hwy oedd bod y cyfryngau'n mynd yn gynyddol fyd-eang ac y byddai unrhyw ymgais i wneud y rheoleiddio ar y cyfryngau yng Nghymru'n fwy plwyfol yn wrthgynhyrchiol. Dywedasant fod Cymru'n derbyn mwy na'i chyfran deg o'r pot mêl o ran adnoddau rhaglenni. Hir y parhaed felly. Mae'n bwysig peidio â llunio polisi wrth fynd ymlaen cyn i'r Pwyllgor Pwnc perthnasol gael cyfle i ystyried yr adroddiad yn fanylach. I'r perwyl hwnnw, ni all y Grŵp Ceidwadol gefnogi gwelliannau 4 a 5 a gynigir gan Christine Humphreys. Nid yw hynny am nad ydym yn cefnogi camau i wella derbyniad teledu ym mhob cwr o Gymru, ond oherwydd bod y gwelliannau hynny'n ceisio llunio polisïau pendant i'r Cynulliad ar gymorthdaliadau i ddarlledu digidol a'r bwriad i breifateiddio adnoddau'r BBC cyn i'r materion hyn gael eu harchwilio gan y Pwyllgor Pwnc perthnasol.

As one proposal of the Davies report has been mentioned, I urge the Business Secretary to bring forward any debate on the report as a whole. The Davies report was published after the Select Committee had completed its inquiry and I feel that the Assembly would be able to give a more broad-based opinion on this subject if it were to debate the report itself. The Davies proposals have a direct impact on the people of Wales. There are plans, for example, for a digital poll tax. That would be most unwelcome and would serve only to retard the development of digital services across Wales.

Gan fod un cynnig o adroddiad Davies wedi ei grybwyll, pwysaf ar y Trefnydd i ddwyn ymlaen unrhyw ddadl ar yr adroddiad yn ei gyfanrwydd. Cyhoeddwyd adroddiad Davies wedi i'r Pwyllgor Dethol gwblhau ei ymchwiliad a theimlaf y gallai'r Cynulliad ddatgan barn ehangach ar y pwnc hwn pe bai'n trafod yr adroddiad ei hun. Mae cynigion Davies yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl Cymru. Ceir cynlluniau, er enghraifft, ar gyfer treth y pen ddigidol. Ni fyddai croeso i hynny o gwbl ac ni fyddai ond yn fodd i atal datblygiad gwasanaethau digidol ar draws Cymru.

One of the many welcome recommendations of the Select Committee report was its emphasis on young people and Assembly coverage. It is crucial, if we are to engage the next generation in what we are doing here in Cardiff Bay, to overcome apathy among

Un o'r nifer fawr o argymhellion sydd i'w croesawu yn adroddiad y Pwyllgor Dethol oedd ei bwyslais ar bobl ifainc a'r sylw i'r Cynulliad. Mae'n holl bwysig, os ydym i gynnwys y genhedlaeth nesaf yn yr hyn a wnawn yma ym Mae Caerdydd, inni oresgyn

young people. That apathy is a threat to the Assembly and we need the help of the media to allay that threat. Young people will witness the developments in the Assembly well into the next century and they will witness the decisions that we will take here in Cardiff Bay.

difaterwch ymhlith pobl ifainc. Mae'r difaterwch hwnnw'n fygythiad i'r Cynulliad ac mae arnom angen cymorth y cyfryngau i drechu'r bygythiad hwnnw. Bydd pobl ifainc yn dystion i'r datblygiadau yn y Cynulliad ymhell i'r ganrif nesaf a byddant yn dystion i'r penderfyniadau a wnawn yma ym Mae Caerdydd.

It is appropriate to pay tribute to S4C which is, with the BBC's assistance, transmitting our proceedings in Welsh and English on its new digital service. It has shown an admirable commitment to political coverage in Wales and should be congratulated for meeting its public service duties comprehensively. Aside from the traditional problems of scheduling political programmes, it is fair to say that the coverage from the BBC, HTV and S4C has got off to a promising start.

Mae'n briodol talu teyrnged i S4C sydd, gyda chymorth y BBC, yn darlledu ein trafodion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ei wasanaeth digidol newydd. Y mae wedi dangos ymrwymiad clodwiw i roi sylw i wleidyddiaeth yng Nghymru a dylid ei longyfarch am gyflawni ei ddyletswyddau gwasanaeth cyhoeddus yn drwyadl. Ar wahân i'r problemau traddodiadol wrth amserlennu rhaglenni gwleidyddol, teg yw dweud bod y sylw gan y BBC, HTV a S4C wedi dechrau'n addawol.

If we in the Chamber have a responsibility in this area, it is to make our proceedings somewhat more relevant and exciting to the public. Some of the debates that we have had thus far have not fired the imagination of the people of Wales. Perhaps we need to redouble our efforts to ensure that we deal with the bread-and-butter issues that concern our constituents the most.

Os oes cyfrifoldeb arnom ni yn y Siambr yn y maes hwn, y cyfrifoldeb hwnnw yw peri bod ein trafodion rywfaint yn fwy perthnasol a chyffrous i'r cyhoedd. Mae rhai o'r dadleuon a gawsom hyd yn hyn wedi methu â thanio dychymyg pobl Cymru. Efallai fod angen inni ddyblu'n hymdrechion i sicrhau ein bod yn ymdrin â'r materion bara-menyn sydd o'r pwys mwyaf i'n hetholwyr.

I hesitate to introduce a more controversial point into what has been a constructive debate, but I will do so. The First Secretary has made much of the media's role, as he sees it, in recording and broadcasting the Assembly's work. Comments were made last week to the effect that journalists are failing Wales in the way that they report on the Assembly's work. Those comments need to be addressed. It ill-behoves any politician to denigrate the media in this way. It is not for the administration to dictate to the media how the Assembly is to be covered. We all know that if some people had their way the media would never report that waiting lists have gone through the roof, that school buildings are collapsing and that class sizes are increasing. We would hear nothing about the lack of Objective 1 match funding. There would not be many viewers for a Millbank broadcasting corporation. The truth is that the media merely highlight facts that have been raised not only in this Chamber but also in

Petrusaf cyn cyflwyno pwynt mwy dadleuol i'r hyn a fu'n ddadl adeiladol, ond gwnaf hynny. Mae'r Prif Ysgrifennydd wedi rhoi pwys mawr ar rôl y cyfryngau, fel y mae ef yn gweld honno, wrth gofnodi a darlledu gwaith y Cynulliad. Gwnaethpwyd sylwadau yr wythnos diwethaf i'r perwyl bod newyddiadurwyr yn methu yn eu dyletswydd i Gymru drwy'r modd y byddant yn adrodd am waith y Cynulliad. Mae angen delio â'r sylwadau hynny. Nid yw'n briodol i unrhyw wleidydd fychanu'r cyfryngau fel hyn. Nid lle'r weinyddiaeth yw dweud wrth y cyfryngau sut y dylent gofnodi gwaith y Cynulliad. Gwyddom oll, os câi rhai pobl eu ffordd, na fyddai'r cyfryngau byth yn adrodd bod y rhestrau aros wedi mynd drwy'r to, bod adeiladau ysgol yn dymchwel a bod meintiau dosbarthiadau'n cynyddu. Ni fyddem yn clywed dim am ddiffyg arian cyfatebol Amcan 1. Ni fyddai llawer o wylwyr i gorfforaeth ddarlledu Millbank. Y gwir yw nad yw'r cyfryngau ond yn tynnu sylw at

the relevant Subject Committees. We must not prevent the media from reporting the facts as they are exposed by opposition politicians and backbenchers. Fairness must be shown to opposition Members who wish to express dismay at failing policies or to congratulate the Government on successful ones when we see them. Fairness must also be shown to the people of Wales who must be able to see the style of debate that we encourage and understand the concerns of opposition politicians.

ffeithiau a godwyd nid yn unig yn y Siambr hon ond hefyd yn y Pwyllgorau Pwnc perthnasol. Rhaid inni beidio â rhwystro'r cyfryngau rhag adrodd am y ffeithiau fel y datgelir y rheini gan wleidyddion yr wrthblaid a meincwyr cefn. Rhaid dangos tegwch at Aelodau o'r wrthblaid sydd yn dymuno mynegi gofid ynghylch polisïau sydd yn methu neu sydd am longyfarch y Llywodraeth ar rai llwyddiannus pan welwn y rheini. Rhaid dangos tegwch hefyd at bobl Cymru y mae'n rhaid iddynt gael gweld yr arddull yr ydym yn ei hybu mewn dadleuon a deall pryderon gwleidyddion yr wrthblaid.

The Group will support Elin's amendments 1 and 2. We will also support Cynog's amendment 3 on adequate funding for the BBC. We are happy to support amendment 6 tabled by Christine Humphreys, on the Concordat with the Department for Culture, Media and Sport. We also support the views expressed in the Welsh Affairs Select Committee report. Christine mentioned those views when she proposed her amendment. The Conservative Group associates itself with the sentiments expressed in the recommendations outlined in the report. We welcome the report warmly. It requires close reading by the Assembly, preferably in the forum of a Subject Committee. Many of its recommendations are positive and I urge the Assembly to support the progressive views expressed in the report.

Bydd y Grŵp yn cefnogi gwelliannau 1 a 2 o eiddo Elin. Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 3 Cynog ar ariannu digonol i'r BBC. Yr ydym yn falch o gefnogi gwelliant 6 a gyflwynwyd gan Christine Humphreys, ar y Concordat gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Yr ydym hefyd yn cefnogi'r safbwyntiau a fynegwyd yn adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. Crybwyllodd Christine y safbwyntiau hynny wrth gynnig ei gwelliant. Mae'r Grŵp Ceidwadol yn ategu'r teimladau a fynegir yn yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad. Estynnwn groeso cynnes i'r adroddiad. Mae'n ofynnol i'r Cynulliad ei ddarllen yn fanwl, yn fforwm un o'r Pwyllgorau Pwnc, os oes modd. Mae llawer o'i argymhellion yn gadarnhaol a phwysaf ar y Cynulliad i gefnogi'r safbwyntiau blaengar a fynegir yn yr adroddiad.

Christine Chapman: I think that it was Cynog who used the word 'revolution', and we stand on the threshold of a multi-media revolution. As such, this is an opportune moment to reflect on the implications of this for the people of Wales. The Assembly has no control over broadcasting policy. However, there is scope for the Assembly to convey a few key messages on quality of life and the renewal of the economy in Wales.

Christine Chapman: Credaf mai Cynog a ddefnyddiodd y gair 'chwyldro', ac yr ydym yn sefyll ar drothwy chwyldro amlgyfryngol. Yn hynny o beth, mae hyn yn adeg amserol i ystyried goblygiadau hynny i bobl Cymru. Nid oes gan y Cynulliad reolaeth dros bolisi darlledu. Fodd bynnag, mae cyfle i'r Cynulliad gyfleu ychydig o negeseuon allweddol ar ansawdd bywyd ac adnewyddu economi Cymru.

First, we need to consider access. Access to cultural life should be for everybody, for the many, not the few. It is vital to mention that in any debate on broadcasting. We must also consider excellence. Alun Michael has already used the word 'quality'. Excellence and quality complement access and are vital to innovation in the media in Wales.

Yn gyntaf, mae angen inni ystyried mynediad. Dylai mynediad at fywyd diwylliannol fod ar gael i bawb, i'r lliaws, nid yr ychydig. Mae'n holl bwysig sôn am hynny mewn unrhyw ddadl ar ddarlledu. Dylem hefyd ystyried rhagoriaeth. Mae Alun Michael wedi defnyddio'r gair 'ansawdd' eisoes. Mae rhagoriaeth ac ansawdd yn cyd-

Education in broadcasting has already been mentioned. That should nurture opportunities for creativity and the arts.

fynd â mynediad ac maent yn hanfodol ar gyfer arloesi yn y cyfryngau yng Nghymru. Soniwyd eisoes am addysg mewn darlledu. Dylai hynny feithrin cyfleoedd ar gyfer creadigedd a'r celfyddydau.

Finally, we need to look at the creative industries. In broadcasting this should involve fostering a sector that provides a growing proportion of Britain's employment and wealth. Those are the four key messages that we need to convey in this debate.

Yn olaf, rhaid inni ystyried y diwydiannau creadigol. Mewn darlledu dylai hyn gynnwys meithrin sector sydd yn darparu cyfran gynyddol o gyflogaeth a chyfoeth Prydain. Dyna'r pedair prif neges y dylem eu cyfleu yn y ddadl hon.

I will mention briefly several issues of which the Assembly needs to be aware. The report states that broadcasting is the electorate's main source of information about politics and current affairs. Many more people watch television or listen to the radio than read Welsh newspapers. It is clear, therefore, that the role of broadcasting in Wales is crucial. It is also clear that broadcasting is a dynamic industry. It makes a contribution to the Welsh economy that is growing year on year, and will play a large part in the success of revitalising the economy of Wales as part of the Objective 1 process. We must turn to dynamic industries to create a sustainable upturn in gross domestic product per capita.

Soniaf yn fyr am sawl mater y dylai'r Cynulliad fod yn ymwybodol ohonynt. Dywed yr adroddiad mai darlledu yw prif ffynhonnell wybodaeth yr etholwyr am wleidyddiaeth a materion cyfoes. Mae llawer mwy o bobl yn gwylio teledu neu'n gwrando ar y radio nag sydd yn darllen papurau newydd o Gymru. Mae'n amlwg, felly, fod rôl darlledu yng Nghymru yn dyngedfennol. Mae hefyd yn amlwg bod darlledu'n ddiwydiant dynamig. Mae ei gyfraniad at economi Cymru yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, a bydd yn chwarae rhan bwysig wrth adfywio economi Cymru yn llwyddiannus fel rhan o broses Amcan 1. Rhaid inni ddisgwyl i ddiwydiannau dynamig greu cynnydd cynaliadwy yn y cynnyrch mewnwladol crynswth y pen.

For these reasons, broadcasting is a crucial factor in the devolution debate. Therefore I welcome the innovative partnership arrangements in the Assembly that allow Plenary sessions to be broadcast live on BBC Wales. There is also complete live coverage on the digital service S4C2. As Jane Davidson said, this helps to open up the devolution process in Wales. It makes devolution meaningful to the people of Wales. Following on from what Jonathan said about the people of Wales having various views about the Assembly, we need to remember that we are not entertainers, but are here to do a job. It is important to remember that there must be a balance between the two.

Am y rhesymau hynny, mae darlledu'n ffactor tyngedfennol yn nadl datganoli. Felly croesawaf y trefniadau partneriaeth arloesol yn y Cynulliad sydd yn caniatáu darlledu'r Cyfarfodydd Llawn yn fyw ar BBC Cymru. Ceir hefyd sylw byw cyflawn ar wasanaeth digidol S4C2. Fel y dywedodd Jane Davidson, mae hyn yn helpu i agor y broses ddatganoli yng Nghymru. Mae'n gwneud datganoli'n ystyrlon i bobl Cymru. Gan ddilyn yr hyn a ddywedodd Jonathan am y ffaith bod gan bobl Cymru safbwyntiau amrywiol am y Cynulliad, dylem gofio nad diddanwyr mohonom, a'n bod ni yma i gyflawni swydd. Mae'n bwysig cofio bod rhaid cael cydbwysedd rhwng y ddau.

I have a few concerns and one regarding access in particular. Many households in Wales cannot receive terrestrial digital television. Many are prohibited from receiving satellite digital television due to the

Mae gennyf rai pryderon ac un ynghylch mynediad yn arbennig. Ceir llawer o deuluoedd yng Nghymru nad ydynt yn gallu derbyn teledu digidol daearol. Rhwystrir llawer rhag derbyn teledu lloeren digidol

cost. I do not want to see Wales become further divided into a society of information and technology haves and have-nots. Access to information and culture is vital. It is crucial for lifelong learning and the role that broadcasting plays in that. I welcome the Labour Government's recent decision to give free television licenses to those over 75 years old. That is a welcome development in many parts of Wales.

oherwydd y gost. Nid wyf am weld Cymru'n cael ei rhannu ymhellach yn gymdeithas o rai sydd yn berchen ar wybodaeth a thechnoleg a rhai sydd hebddynt. Mae mynediad at wybodaeth a diwylliant yn holl bwysig. Mae'n dyngedfennol ar gyfer dysgu gydol oes a'r rôl y mae darlledu'n ei chwarae yn hynny. Croesawaf benderfyniad diweddar y Llywodraeth Lafur i roi trwyddedau teledu am ddim i rai dros 75 mlwydd oed. Mae hynny'n ddatblygiad a groesewir mewn llawer rhan o Gymru.

4:28 p.m.

I also welcome the Select Committee's asking broadcasters to be innovative and to present politics in a new way. I pay tribute to the television programme, *Waterfront*, which recently filmed the Cynon Valley band Rat Salad playing in the Assembly. It was an important event and I know that the Presiding Officer was involved. Such events open up political coverage to many young people and to those who may see politics as a big turn off, and I am pleased about that.

Croesawaf hefyd y ffaith bod y Pwyllgor Dethol yn gofyn i ddarlledwyr arloesi a chyflwyno gwleidyddiaeth mewn ffordd newydd. Talaf deyrnged i'r rhaglen deledu *Waterfront* a ffilmiodd y band Rat Salad o Gwm Cynon yn chwarae yn y Cynulliad yn ddiweddar. Yr oedd hynny'n ddigwyddiad pwysig a gwn fod y Llywydd yn gysylltiedig ag ef. Mae digwyddiadau o'r fath yn agor allan y sylw gwleidyddol i lawer o bobl ifainc a'r rhai a allai ystyried gwleidyddiaeth yn ddiflastod mawr, ac yr wyf yn falch am hynny.

The voice of Wales must be heard across the Severn Bridge and broadcasting developments mean that this now happens. We now have a stronger voice and can be heard further away. We need to make sure that that positive point is heard by those who knock devolution. We all have gripes about the metro-centric London media. I hope that one innovation arising from this year's events in Wales will be a greater realisation of Wales's role in British affairs. I share Ron's concerns on that matter. A part of the media industry is aware of Wales. The use of Cardiff and other parts of Wales as location venues is rapidly increasing as a result of dramas such as *Jack of Hearts,* but we would like to see more networked Welsh dramas.

Rhaid i lais Cymru gael ei glywed yr ochr draw i Bont Hafren ac mae'r datblygiadau mewn darlledu'n golygu bod hynny'n digwydd bellach. Mae gennym lais cryfach erbyn hyn a gellir ei glywed ymhellach i ffwrdd. Rhaid inni sicrhau y clywir y pwynt cadarnhaol hwnnw gan y rhai sydd yn lladd ar ddatganoli. Mae gan bob un ohonom gwynion ynghylch y cyfryngau prifddinas-ganolog yn Llundain. Gobeithiaf mai un peth arloesol a ddaw o ddigwyddiadau'r flwyddyn hon yng Nghymru fydd mwy o ymwybyddiaeth o rôl Cymru mewn materion Prydeinig. Rhannaf bryderon Ron ar y mater hwnnw. Mae rhan o ddiwydiant y cyfryngau yn ymwybodol o Gymru. Mae Caerdydd a rhannau eraill o Gymru'n cael eu defnyddio fwyfwy fel lleoliadau o ganlyniad i ddramâu fel *Jack of Hearts*, ond hoffem weld mwy o ddramâu o Gymru ar y rhwydwaith.

The media industry's contribution to and continued role in the Welsh economy is a main thrust of the debate. We know that we must go confidently into the digital age. However, we should have some hand in

Cyfraniad diwydiant y cyfryngau a'i rôl barhaus yn economi Cymru yw prif bwyslais y ddadl hon. Gwyddom fod yn rhaid inni gamu'n hyderus i'r oes ddigidol. Fodd bynnag, dylem gael rhyw ran wrth ei

harnessing it for the benefit of everyone in Wales.

harneisio er budd pawb yng Nghymru.

Jocelyn Davies: I will comment on television reception. As Christine Humphreys said, many people in Wales watch television transmitted from England because they are unable to receive signals from Wales. The BBC has made efforts to address the problem, notably in the Wrexham area. However, many areas of Wales remain unserved, either because of technical difficulties or because the communities concerned are too small for the necessary investment to be considered worthwhile.

Jocelyn Davies: Rhoddaf sylw ar dderbyniad teledu. Fel y dywedodd Christine Humphreys, mae llawer o bobl yng Nghymru'n gwylio teledu a drosglwyddir o Loegr am nad ydynt yn gallu derbyn signalau o Gymru. Mae'r BBC wedi ymdrechu i roi sylw i'r broblem hon, yn enwedig yn ardal Wrecsam. Fodd bynnag, mae llawer o ardaloedd yng Nghymru heb wasanaeth o hyd, naill ai oherwydd anawsterau technegol neu am fod y cymunedau dan sylw'n rhy fach i'w ystyried yn fuddiol buddsoddi'r arian angenrheidiol.

Many people choose not to tune in to Welsh television or radio programmes. There lies possibly the greatest challenge for the Assembly. Those people are exercising their right to tune in to whatever they choose. The challenge for the Assembly is to prove itself relevant to their lives. The challenge for the broadcasters is to produce high quality programmes that interest the Welsh audience. We need strategic planning to attract more viewers to Welsh television. The report's recommendation to commission a campaign to encourage viewers in overlap areas to switch to Welsh television is a good one. That should be implemented and not just noted. The Assembly, through the Post-16 Education and Training Committee, should work with broadcasters to develop a strategic plan to encourage viewers in Wales to take up Welsh signals.

Bydd llawer o bobl yn dewis peidio â throi at raglenni teledu a radio o Gymru. Efallai mai hyn yw'r her fwyaf i'r Cynulliad. Mae'r bobl hynny'n arfer eu hawl i glywed beth bynnag y maent yn ei ddewis. Yr her i'r Cynulliad yw dangos ei fod yn berthnasol i'w bywydau. Yr her i'r darlledwyr yw cynhyrchu rhaglenni o ansawdd uchel sydd o ddiddordeb i'r gynulleidfa yng Nghymru. Mae arnom angen cynllunio strategol er mwyn denu mwy o wylwyr i deledu yng Nghymru. Mae argymhelliad yr adroddiad y dylid comisiynu ymgyrch i annog gwylwyr mewn ardaloedd lle ceir gorgyffwrdd i droi at deledu Cymru yn un da. Dylid gweithredu hynny ac nid ei nodi'n unig. Dylai'r Cynulliad, drwy'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, weithio gyda darlledwyr i ddatblygu cynllun strategol i annog gwylwyr yng Nghymru i dderbyn signalau o Gymru.

Carwyn Jones: I should declare that my wife works for the BBC and, therefore, biting criticism of that organisation will probably not enter too much into my speech.

Carwyn Jones: Dylwn ddatgan bod fy ngwraig yn gweithio i'r BBC, felly mae'n fwy na thebyg na fydd llawer o feirniadaeth frathog ar y sefydliad hwnnw yn fy araith.

The report and the BBC mentioned sensitivity training. It is incumbent on broadcasters to be accurate when reporting the news. We have many different interpretations of the word 'national'. It can apply to Wales, to the UK, to England and Wales or to England, Wales and Northern Ireland. To my mind, those are three nations, not one. It is important that broadcasters in London understand that there is scope for confusion when such terms are used, especially in Wales and Scotland. A popular

Yr oedd yr adroddiad a'r BBC yn sôn am hyfforddiant sensitifrwydd. Mae'n ddyletswydd ar ddarlledwyr i fod yn gywir wrth adrodd am y newyddion. Mae gennym lawer o wahanol ddehongliadau o'r gair 'cenedlaethol'. Fe'i defnyddir i sôn am Gymru, y DU, Cymru a Lloegr neu Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn fy ngolwg i, tair gwlad yw'r rheini, nid un. Mae'n bwysig bod darlledwyr yn Llundain yn deall bod lle i ddryswch godi pan ddefnyddir termau o'r fath, yn enwedig yng Nghymru ac yn yr

term in Ireland is 'mainland Britain'. That is inaccurate in a sense that, as Euro-sceptics are fond of telling us, Britain is an island and not part of the mainland. If Britain is 'mainland Britain', Ireland must be 'offshore Britain'. First, Northern Ireland is not part of Great Britain but part of the United Kingdom. Secondly, to visit Ireland and to describe the people as British is unwise.

Alban. Term poblogaidd yn Iwerddon yw 'tir mawr Prydain'. Mae hynny'n anghywir yn yr ystyr bod Prydain, fel y mae Ewro-sgeptigiaid yn hoff o ddweud wrthym, yn ynys ac nid yn rhan o'r tir mawr. Os mai 'tir mawr Prydain' yw Prydain, rhaid mai 'Prydain oddi ar y tir mawr' yw Iwerddon. Yn gyntaf, nid yw Gogledd Iwerddon yn rhan o Brydain Fawr ond yn rhan o'r Deyrnas Unedig. Yn ail, annoeth fyddai ymweld ag Iwerddon a galw'r bobl yn Brydeinwyr.

Soniwyd eisoes am y broblem nad yw cyfran o'r boblogaeth yn derbyn rhaglenni o Gymru. Nid wyf yn gallu derbyn nad yw pobl mewn ardaloedd lle siaredir y Gymraeg yn derbyn S4C. Rhaid inni ymladd i sicrhau bod pobl yn yr ardaloedd hyn yn derbyn rhaglenni yn y Gymraeg. Rhaid inni hefyd ystyried paham fod pobl sydd yn byw ar y ffin yn dymuno gwylio rhaglenni o Loegr.

We have already heard about the problem that a proportion of the population does not receive programmes from Wales. I cannot accept that people in areas where Welsh is spoken do not receive S4C. We must fight to ensure that people in these areas receive Welsh language programmes. We must also consider why people living on the border choose to watch programmes from England.

Mae'n bwysig hefyd sylweddoli'r hyn a wnaeth S4C dros yr iaith Gymraeg. Soniodd nifer am hynny eisoes. Ar un adeg, tua 20 mlynedd yn ôl a chyn sefydlu S4C, chwarddai deheuwyr wrth glywed acen ogleddol. Pwy sydd yn cofio'r rhaglen deledu *Fo a Fe*? Cefais innau yr un profiad ym Metws-y-Coed wrth i bobl chwerthin o glywed fy acen. Fodd bynnag, nid yw hynny'n digwydd mor aml erbyn hyn gan fod S4C wedi delio â'r broblem honno wrth uno'r Cymry Cymraeg. Fodd bynnag, ni fyddwn yn dymuno colli geiriau tafodieithol fel 'coethan', 'taffis', 'wejen' a 'hwn'co man'co'. Cyfieithaf y geiriau i'r Saesneg i helpu'r cyfieithwyr: '*arguing*', '*sweet*', '*girlfriend*' a '*that one over there*'.

It is also important to understand what S4C has achieved for the Welsh language. Many have already made reference to that. At one time, about 20 years ago and before S4C was established, southerners used to laugh at a northern accent. Who remembers the television programme *Fo a Fe*? I had the same experience in Betws-y-Coed when people laughed on hearing my accent. However, that does not happen so much now because S4C has dealt with the problem by uniting Welsh speakers. However, I would not want to lose dialectal words such as '*coethan*', '*taffis*', '*wejen*' and '*hwn'co man'co*'. I will translate the words into English to help the translators: 'arguing', 'sweet', 'girlfriend' and 'that one over there'.

Yr hyn sydd yn bwysig yw bod S4C wedi uno'r Cymry Cymraeg a'u helpu i ddeall ei gilydd. Efallai nad ydym yn deall ein gilydd yn llwyr eto ond yr ydym yn cyfarwyddo ag acenion a thafodieithoedd o bob rhan o Gymru. Y mae hefyd yn bwysig sicrhau dewis mewn darlledu digidol. Y peth gwaethaf y gallem ei wneud yw methu â chynnig i bobl Cymru yr opsiwn o deledu digidol a'r cyfle i'w wylio. Mae'r ffaith nad yw teledu digidol lloeren yn cario ITV ar Sky yn broblem ar hyn o bryd a chododd problemau o ran dewis yn sgîl hynny.

The important fact is that S4C has united Welsh speakers and helped them to understand each other. Perhaps we do not still fully understand each other but we are becoming familiar with accents and dialects from throughout Wales. It is also important to ensure choice in digital broadcasting. The worst thing we could do is to fail to offer the people of Wales the option of digital television and the opportunity to view it. The fact that digital satellite television does not carry ITV on Sky is a current problem and problems regarding choice have arisen as a result.

Christine is right to say that this Chamber is not a circus or any form of entertainment. However, it is incumbent on Members to communicate their arguments effectively and briefly. There is nothing worse than having to listen to someone read tediously for 25-30 minutes when trying to make a point. Brief points made in a short period of time are far better. I am conscious that I have been speaking for five minutes. That is enough time for any backbencher in this Chamber to speak or make a point. Succinctness is strength, verbosity is weakness.

Mae Christine yn iawn wrth ddweud nad syrcas neu unrhyw ffurf arall ar adloniant yw'r Siambr hon. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd ar yr Aelodau i gyfleu eu dadleuon yn effeithiol ac yn fyr. Nid oes dim gwaeth na gorfod gwrando ar rywun yn darllen yn ddiflas am 25-30 munud wrth geisio gwneud pwynt. Mae pwyntiau cryno a wneir mewn cyfnod byr yn well o lawer. Gwn fy mod yn siarad ers pum munud. Mae hynny'n ddigon o amser i unrhyw feinciwr cefn yn y Siambr hon gael siarad neu wneud pwynt. Cryfder yw crynoder, gwendid yw geiriogrwydd.

The Presiding Officer: I do not normally express an opinion in the Chamber on speeches but I agree with the final sentiments.

Y Llywydd: Ni fyddaf yn mynegi barn am areithiau yn y Siambr fel arfer ond cytunaf â'r farn a fynegwyd olaf.

Andrew Davies: This has been an instructive and informed debate. As the fourth Davies referred to in the debate, and perhaps as Chief Whip, I may well be in need of the sensitivity training to which Carwyn referred. It is clear that Welsh broadcasters have avid, and occasionally critical, viewers and listeners within the Assembly. I am delighted that so many representatives of broadcasting organisations are present today and have been enthusiastically and readily engaged with Members during the past few days. I trust that their constructive engagement will continue in the future. On behalf of the Assembly, I welcome and congratulate Menna Richards as the new controller of BBC Wales. On a local note, I welcome Simon Thompson, head of news at my local radio station, Swansea Sound. The Assembly should have an all-Wales as well as a parochial perspective.

Andrew Davies: Bu hon yn ddadl addysgiadol a gwybodus. Fel y pedwerydd Davies y cyfeiriwyd ato yn y ddadl, ac efallai fel y Prif Chwip, mae'n ddigon posibl bod arnaf angen yr hyfforddiant sensitifrwydd y cyfeiriodd Carwyn ato. Mae'n amlwg bod gan ddarlledwyr Cymru wylwyr a gwrandawyr brwd, a beirniadol weithiau, oddi mewn i'r Cynulliad. Yr wyf yn falch iawn bod cynifer o gynrychiolwyr o gyrff darlledu yn bresennol heddiw a'u bod wedi ymwneud yn eiddgar ac yn barod â'r Aelodau yn ystod y dyddiau diwethaf. Hyderaf y byddant yn parhau â'u cysylltiad adeiladol yn y dyfodol. Ar ran y Cynulliad, croesawaf a llongyfarchaf Menna Richards fel rheolwraig newydd BBC Cymru. Ar nodyn lleol, croesawaf Simon Thompson, pennaeth newyddion yng ngorsaf radio leol fy ardal i, Sain Abertawe. Dylai'r Cynulliad gael sylw o safbwynt Cymru gyfan yn ogystal ag o safbwynt plwyfol.

4:38 p.m.

Due to lack of time I will not respond to all the points made. However, with the Assembly's permission, I propose to send copies of today's Record of Proceedings to the Secretary of State for Culture, Media and Sport and to the Chair of the Welsh Affairs Select Committee. I wish to place on record the Cabinet's vigorous support for the decision announced by the Chancellor of the Exchequer last week to make television

Oherwydd prinder amser, nid ymatebaf i'r holl bwyntiau a wnaethpwyd. Fodd bynnag, gyda chaniatâd y Cynulliad, bwriadaf anfon copïau o'r Cofnod am heddiw at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac at Gadeirydd y Pwyllgor Dethol dros Faterion Cymreig. Dymunaf gofnodi cefnogaeth frwd y Cabinet i'r penderfyniad a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys yr wythnos diwethaf i

licences free of charge to everyone over 75 years of age.

roi trwyddedau teledu yn rhad ac am ddim i bawb dros 75 mlwydd oed.

Labour Members and the Executive are happy to support all the amendments with the exception of amendment 6 proposed by Christine Humphreys. I have asked Christine to withdraw amendment 6, as it espouses the view that the appointments of Welsh representatives to broadcasting bodies should be subject to 'consultation between the Assembly as a whole and the Secretary of State for Culture, Media and Sport'. This sits uncomfortably with the procedures we have adopted for external appointments. However, I reassure Christine that the Concordat with the Department for Culture, Media and Sport is well advanced and will be published as soon as possible. I am sure that Ron Davies, in view of his comments, will look forward avidly to reviewing that Concordat.

Mae'r Aelodau Llafur a'r Weithrediaeth yn falch o gefnogi'r holl welliannau heblaw am welliant 6 a gynigiwyd gan Christine Humphreys. Gofynnais i Christine dynnu'n ôl gwelliant 6, gan ei fod yn datgan y farn y dylai'r penodiadau o gynrychiolwyr o Gymru i gyrff darlledu fod yn ddarostyngedig i 'ymgynghori rhwng y Cynulliad cyfan a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon'. Nid yw hynny'n gydnaws â'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gennym ar gyfer penodiadau allanol. Fodd bynnag, yr wyf yn sicrhau Christine bod y gwaith ar y Concordat â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn mynd rhagddo'n dda ac y'i cyhoeddir cyn gynted ag y bo modd. Yr wyf yn sicr y bydd Ron Davies, o ystyried ei sylwadau, yn edrych ymlaen yn eiddgar at adolygu'r Concordat hwnnw.

On the other amendments, we support the idea of the Post-16 Education and Training Committee considering the recommendations of the Select Committee. However, this clearly needs to be integrated into an already full agenda and we would not wish to dictate to the Committee the timescale within which they should do this. We agree with Cynog that it is essential that the BBC in Wales receive sufficient resources in the future to continue to develop its role, and also with Christine that the Assembly should do what it can to ensure that viewers in Wales should have the best possible access to terrestrial and satellite digital television. Ron Davies and I were only too aware during the referendum campaign that for much of Wales there was little coverage of the debate during the campaign. The only reference to the campaign on Granada Television on the eve of the referendum polling day was that the people of Wales would vote on home rule the following day.

Ynglŷn â'r gwelliannau eraill, cefnogwn y syniad y dylai'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ystyried argymhellion y Pwyllgor Dethol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen integreiddio hyn ag agenda sydd eisoes yn llawn ac ni ddymunwn ddweud wrth y Pwyllgor o fewn pa amserlen y dylent wneud hynny. Cytunwn â Cynog ei bod yn hanfodol i'r BBC yng Nghymru dderbyn digon o adnoddau yn y dyfodol i barhau i ddatblygu ei rôl, a hefyd gyda Christine y dylai'r Cynulliad wneud yr hyn a all i sicrhau bod gwylwyr yng Nghymru yn cael y mynediad gorau posibl i deledu digidol daearol a lloeren. Yr oedd Ron Davies a minnau'n ymwybodol iawn yn ystod ymgyrch y refferendwm mai prin oedd y sylw i'r ddadl yn ystod yr ymgyrch mewn rhannau helaeth o Gymru. Yr unig gyfeiriad at yr ymgyrch ar Granada Television ar y noson cyn diwrnod pleidleisio'r refferendwm oedd y byddai pobl Cymru'n pleidleisio ar ymreolaeth drannoeth.

On the issue of the privatisation of BBC Resources Limited, we have our doubts as to whether it is strictly proper for the Assembly to express a view on what are internal matters for the BBC. However, since Christine has raised this matter, I wish to make clear that the Labour Members are deeply concerned at

Ynghylch y mater o breifateiddio BBC Resources Cyfyngedig, yr ydym yn ansicr a yw'n gwbl briodol i'r Cynulliad fynegi barn ar y rhain sydd yn faterion mewnol i'r BBC. Fodd bynnag, gan fod Christine wedi codi'r mater hwn, dymunaf roi ar ddeall bod yr Aelodau Llafur yn bryderus iawn ynghylch

the employment and other implications of this proposal. We share the views of BECTU and other unions on this. We will therefore support amendment 5 as proposed by Christine Humphreys.

goblygiadau'r bwriad hwn o ran cyflogaeth a materion eraill. Yr ydym o'r un farn â'r Undeb Darlledu, Adloniant, Sinematograff a Theatr ac undebau eraill ar hynny. Byddwn felly'n cefnogi gwelliant 5 fel y'i cynigir gan Christine Humphreys.

I have noted and will consider the views expressed by Members on the Gavyn Davies report. The UK Government has consulted on the report of the independent review panel chaired by Gavyn Davies and is considering the responses it has received. The issues are complex, concerning the nature and role of publicly-funded broadcasting in the digital age and how this should be paid for.

Nodais y safbwyntiau a fynegwyd gan yr Aelodau ar adroddiad Gavyn Davies a rhoddaf ystyriaeth iddynt. Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ynghylch adroddiad y panel adolygu annibynnol dan gadeiryddiaeth Gavyn Davies ac mae'n ystyried yr ymatebion a dderbyniodd. Mae'r materion yn gymhleth, yn ymwneud â natur a rôl darlledu dan nawdd cyhoeddus yn yr oes ddigidol a sut y dylid talu am hynny.

In response to Cynog, the UK Government, through the Secretary of State for Culture, Media and Sport, has already stated its support for the principle of public service broadcasting in the multi-channel age. Like Elin, I welcome the announcement by the BBC's head of regional broadcasting on the support and extension of a digital English language channel for Wales. I look forward to the BBC governors considering that. It is interesting to note that they will be in Cardiff during the next couple of days and I am sure that there will be a request for copies of the proceedings of our deliberations here by the governors.

Mewn ymateb i Cynog, mae Llywodraeth y DU, drwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, eisoes wedi datgan ei chefnogaeth i egwyddor darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn oes y sianeli lluosog. Fel Elin, croesawaf y cyhoeddiad gan bennaeth darlledu rhanbarthol y BBC ynghylch cefnogi ac ymestyn sianel Saesneg ddigidol ar gyfer Cymru. Edrychaf ymlaen at yr adeg y bydd llywodraethwyr y BBC yn ystyried hynny. Diddorol yw nodi y byddant yng Nghaerdydd yn ystod y deuddydd nesaf ac yr wyf yn sicr y ceir cais gan y llywodraethwyr am gopïau o gofnodion o'n trafodion yma.

There are issues that will affect Wales as a part of the UK. It is for the UK Government to reach decisions but the Assembly Cabinet will present its views on any Welsh issues which emerge during the process. Some Members have voiced the fair and well-grounded concerns that they have about the current and future shape of broadcasting in Wales. It has already been agreed with the Department for Culture, Media and Sport that there should be a member for Wales on the Radio Authority. That person will be appointed in consultation with the Assembly as and when vacancies arise.

Ceir materion a fydd yn effeithio ar Gymru fel rhan o'r DU. Lle Llywodraeth y DU yw penderfynu ond bydd Cabinet y Cynulliad yn cyflwyno ei farn am unrhyw faterion Cymreig a ddaw i'r amlwg yn ystod y broses. Mae rhai Aelodau wedi mynegi'r pryderon cyfiawn a chadarn eu sail sydd ganddynt am ffurf darlledu yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol. Cytunwyd eisoes gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y bydd aelod dros Gymru ar yr Awdurdod Radio. Fe'i penodir drwy ymgynghori â'r Cynulliad pan ddaw swyddi'n wag.

The Broadcasting Council for Wales has already noted in its 1998-99 report the importance of extending further the availability of Radio Wales on FM and has pressed the BBC to make further progress on this.

Mae Cyngor Darlledu Cymru eisoes wedi nodi yn ei adroddiad am 1998-99 mor bwysig yw ymestyn y ddarpariaeth o Radio Wales ar FM ac wedi pwyso ar y BBC i wneud cynnydd pellach ar hyn.

We should recognise the important role that broadcasting has played in developing a concept of national identity in Wales. That point was made eloquently by Cynog. The creation of BBC Wales, HTV Wales and S4C have been important steps in this process, giving expression to the concerns and preoccupations of Welsh people and communities. That role will continue in future. It is vital, therefore, that the broadcasters reflect the diversity of Welsh life in all its forms. I speak as a Member in whose constituency there are 46 different ethnic minority communities, and 40 ethnic minority languages. To quote Professor Dai Smith on the diversity of Welsh life,

Dylem gydnabod y rôl bwysig a fu gan ddarlledu wrth ddatblygu cysyniad o hunaniaeth genedlaethol yng Nghymru. Fe wnaethpwyd y pwynt hwnnw'n huawdl gan Cynog. Bu sefydlu BBC Cymru, HTV Cymru a S4C yn gamau pwysig yn y broses hon, gan roi mynegiant i bryderon a diddordebau pobl a chymunedau Cymru. Bydd y rôl honno'n parhau yn y dyfodol. Mae'n holl bwysig, felly, fod y darlledwyr yn adlewyrchu amrywiaeth bywyd Cymru yn ei holl ffurfiau. Siaradaf fel Aelod dros etholaeth lle y mae 46 o gymunedau lleiafrifol ethnig, a 40 o ieithoedd lleiafrifol ethnig. A dyfynnu'r Athro Dai Smith ar amrywiaeth bywyd Cymru,

'Wales is a singular noun but a plural experience.'

On the whole, the broadcasting ecology with which we enter the new millennium is something to be proud of. However, we must build on it.

Ar y cyfan, mae'r ecoleg ddarlledu sydd gennym wrth gamu i'r mileniwm newydd yn rhywbeth y dylem ymfalchïo ynddo. Fodd bynnag, rhaid inni ei datblygu.

On a discordant note—on the basis that it is the grit in the oyster that produces the pearl—we have been rather too self-congratulatory in this debate. There has been much talk about extending choice and increasing coverage on digital television, not only of our deliberations but also of others. We need to take note of the fact that for much of the larger audience, who watch mainstream terrestrial television, our deliberations are not covered and neither are other aspects of Welsh life. I agree with Jocelyn Davies that we need quality. This is not just about quantity. Choice matters, but so does quality. I also agree with Ron Davies on the importance of increasing the proportion of Welsh programmes on UK networks. Quality is a major issue there.

Gan daro nodyn croes—ar sail y ffaith mai'r greyenyn yn y wystrysen sydd yn creu'r perl—buom yn rhy hunanglodforus braidd yn y ddadl hon. Bu llawer o sôn am estyn dewis a chynyddu'r sylw ar deledu digidol, nid yn unig i'n trafodion ni ond i rai eraill hefyd. Dylem gofio'r ffaith nad oes sylw i'n trafodion ni nac i agweddau eraill ar fywyd Cymru ar gyfer y gynulleidfa ehangach, sydd yn gwylio'r prif deledu daearol. Cytunaf â Jocelyn Davies fod angen ansawdd da. Nid mater o faint yn unig yw hyn. Mae dewis yn bwysig, ond mae ansawdd hefyd. Cytunaf hefyd â Ron Davies ynghylch pwysigrwydd cynyddu'r gyfran o raglenni o Gymru ar rwydweithiau'r DU. Mae ansawdd yn fater o bwys yn hynny o beth.

This has been an interesting debate. As I said, I will arrange for the record of these proceedings to be sent to the Secretary of State for Wales, with the Assembly's permission. The Gavyn Davies report has been raised, and if it is appropriate we may be able to debate that in future. The relationship between broadcasters and ourselves will always be an interesting one, based largely on creative tension, and long may that continue to be the case. I support the

Bu hon yn ddadl ddiddorol. Fel y dywedais, fe drefnaf i anfon cofnod o'r trafodion hyn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, gyda chaniatâd y Cynulliad. Codwyd mater adroddiad Gavyn Davies, ac os yw'n briodol mae'n bosibl y gallem ei drafod yn y dyfodol. Bydd y berthynas rhwng y darlledwyr a ninnau'n un ddiddorol bob amser, gan ei bod yn seiliedig ar dyndra creadigol yn bennaf, a hir y parhaed felly. Cefnogaf y cynnig a'r holl welliannau, heblaw am welliant 6 o

motion and all of the amendments, except amendment 6 by Christine Humphreys.

eiddo Christine Humphreys.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar welliant 1.

The Presiding Officer: We will now vote on amendment 1.

Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
The Assembly divided: For 50, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cairns, Alun
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
German, Michael
Graham, William
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Michael, Alun
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment adopted.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar welliant 2.

The Presiding Officer: We will now vote on amendment 2.

Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
The Assembly divided: For 50, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cairns, Alun
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
German, Michael
Graham, William
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Michael, Alun
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment adopted.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar welliant

The Presiding Officer: We will now vote on

3. amendment 3.

Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
The Assembly divided: For 50, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cairns, Alun
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
German, Michael
Graham, William
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Michael, Alun
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment adopted.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar welliant 4.

The Presiding Officer: We will now vote on amendment 4.

Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 42, Ymatal 0, Yn erbyn 8.

The Assembly divided: For 42, Abstain 0, Against 8.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Michael, Alun
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bourne, Nick
Davies, David
Davies, Glyn
Cairns, Alun
Graham, William
Melding, David
Morgan, Jonathan
Rogers, Peter

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment adopted.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar welliant 5.

The Presiding Officer: We will now vote on amendment 5.

Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 37, Ymatal 5, Yn erbyn 8.
The Assembly divided: For 37, Abstain 5, Against 8.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, Janet

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bourne, Nick
Davies, David
Davies, Glyn
Cairns, Alun
Graham, William
Melding, David

Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Halford, Alison
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Michael, Alun
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty

Morgan, Jonathan
Rogers, Peter

Ymataliodd yr Aelodau Canlynol:
The following Members Abstained:

Butler, Rosemary
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Law, Peter

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment adopted.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar welliant 6.

The Presiding Officer: We will now vote on amendment 6.

Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 27, Ymatal 24, Yn erbyn 0.
The Assembly divided: For 27, Abstain 24, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Dafis, Cynog
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Graham, William
Hancock, Brian
Humphreys, Christine

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hart, Edwina

Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty

Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Marek, John
Michael, Alun
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment adopted.

The Presiding Officer: We will now vote on the amended motion, that the Assembly

notes the Welsh Affairs Select Committee report entitled 'Broadcasting in Wales and the National Assembly' and its recommendations;

requests the Post-16 Education and Training Committee to discuss the recommendations with broadcasters in Wales, especially in light of rapid technological advancements in this field;

notes the key role of the BBC in providing a national broadcasting service for Wales and calls, in the context of the current review of the future funding of the BBC, for sufficient resources to be provided so that its key role can be continued and developed further;

notes with particular concern the large number of viewers in Wales who either because of technical difficulties or through choice do not watch television from Wales, and resolves to take the following actions:

continues consultation with broadcasters with the aim of (a) improving the future coverage of Wales by both terrestrial and satellite digital television as a means of giving all viewers in Wales the option to access television from Wales and (b) improving viewer take-up of television from Wales;

consults with broadcasters and the Secretary of State for Culture, Media and Sport

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig wedi'i ddiwygio, sef bod y Cynulliad

yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig o'r enw 'Broadcasting in Wales and the National Assembly' a'i argymhellion;

yn gofyn i'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 drafod yr argymhellion â darlledwyr yng Nghymru, yn enwedig yn sgîl camau breision ymlaen yn y maes hwn;

yn nodi rôl allweddol y BBC wrth ddarparu gwasanaeth darlledu cenedlaethol i Gymru ac yn galw, yng nghyd-destun yr arolwg cyfredol o ariannu'r BBC yn y dyfodol, am adnoddau digonol i ganiatáu iddo barhau a datblygu'r rôl allweddol ymhellach;

yn nodi â phryder y nifer fawr o wylwyr yng Nghymru nad ydynt yn gwylio teledu o Gymru, naill ai oherwydd anawsterau technegol neu drwy ddewis, ac mae'n penderfynu cymryd y camau canlynol:

yn parhau i ymgynghori â darlledwyr â'r nod (a) o wella'r ymdriniaeth a roddir i Gymru yn y dyfodol gan deledu daearol a theledu lloeren digidol er mwyn rhoi'r dewis i holl wylwyr Cymru wylio teledu o Gymru a (b) codi niferoedd y rhai sydd yn gwylio teledu o Gymru;

yn ymgynghori â darlledwyr a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a

regarding possible incentives to viewers of analogue television who would not otherwise be able to afford to upgrade from analogue to digital;

Chwaraeon ynglŷn â dulliau posibl i gymell gwylwyr teledu analog na fyddent fel arall yn gallu fforddio newid o deledu analog i deledu digidol;

further takes this opportunity to express its opposition to the proposed privatisation of BBC Resources Ltd, which it regards as a threat to the BBC's continued ability to provide proper coverage of Welsh affairs; and,

yn fwy na hynny, yn manteisio ar y cyfle hwn i fynegi ei wrthwynebiad i'r cynnig i breifateiddio BBC Resources Cyf, gan ei fod yn gweld hynny fel bygythiad i allu'r BBC yn y dyfodol i roi ymdriniaeth briodol i faterion Cymreig; ac

in the light of the report, resolves to take the following actions:

yn sgîl yr adroddiad, benderfynu cymryd y camau canlynol:

presess for the earliest possible publication of the Concordat concerning relations between the National Assembly for Wales and the Department for Culture, Media and Sport;

yn pwyso am gyhoeddi'r Concordat rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon cyn gynted ag y bo modd;

presses for the inclusion in this Concordat of procedures for proper consultation between the Assembly as a whole and the Secretary of State for Culture, Media and Sport regarding any appointments of Welsh representatives to broadcasting bodies, be they Wales-only or UK-wide bodies.

yn pwyso am gynnwys gweithdrefnau yn y Concordat hwnnw ar gyfer ymgynghori addas rhwng y Cynulliad cyfan a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynglŷn â phenodi unrhyw gynrychiolwyr o Gymru ar gyrff darlledu, os yw'r cyrff hynny'n seiliedig yng Nghymru yn unig neu'n gyrff ar gyfer y DU yn gyfan.

Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0
The Assembly divided: For 50, Abstain 0, Against 0

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cairns, Alun
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
German, Michael
Graham, William
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Michael, Alun
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty

Amended motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.

Dadl Fer
Short Debate

Rôl y Brifddinas
The Role of the Capital City

Owen John Thomas: Byddaf yn siarad am ryw chwarter awr, ac yr wyf wedi derbyn cynigion oddi wrth Jenny Randerson, David Melding a Sue Essex i siarad.

Owen John Thomas: I will speak for about quarter of an hour and I have received requests to speak from Jenny Randerson, David Melding and Sue Essex.

It was with a sense of pride and pleasure that many of us welcomed the successful Rugby World Cup in Cardiff and the resulting increase in the international profile of Wales that accompanied the event. There are many people all over Wales and elsewhere who will now look forward to further major events coming to our capital city.

Yr oedd llawer ohonom yn profi teimlad o falchder a phleser wrth groesawu gornest lwyddiannus Cwpan Rygbi'r Byd i Gaerdydd a'r cynnydd yn amlygrwydd rhyngwladol Cymru a ddaeth yn sgil y digwyddiad. Mae llawer o bobl ym mhob cwr o Gymru ac mewn mannau eraill sydd yn awr yn edrych ymlaen at weld digwyddiadau eraill o bwys yn dod i'n prifddinas.

Cardiff's present international standing is the consequence of the enterprise and vision of people from all parts of Wales who willed that we should survive as a national entity. Though Welsh in spirit, Cardiff's character is very much international in make-up, and there can hardly be a nation on the face of the earth that has not had a hand in the shaping of

Mae safle rhyngwladol presennol Caerdydd yn ganlyniad i fenter a gweledigaeth pobl o bob rhan o Gymru a ewyllysiodd inni barhau'n endid cenedlaethol. Er ei bod yn Gymreig o ran ysbryd, mae cymeriad Caerdydd yn rhyngwladol iawn, a phrin bod yr un genedl ar wyneb y ddaear nad yw wedi cyfrannu at ffurfio'r ddinas gosmopolitanaidd

this great, cosmopolitan city.

fawr hon.

However, it is from the Valleys, which converge in Cardiff like the fingers of a hand, that the city derived its wealth and prosperity. The opening of the canal from Merthyr over 200 years ago in 1798 marked the turning point in Cardiff's history, when its explosive growth from market town to capital city began. During the ensuing years, truckloads of iron and coal from the Valleys turned the old town into the world's busiest coal port. Cardiff's fine family stores, its prestigious civic centre and its extensive parklands are all the products of its fruitful relationship with the Valleys.

Fodd bynnag, o'r Cymoedd, a ddaw at ei gilydd yng Nghaerdydd fel bysedd ar law, y cafodd y ddinas ei chyfoeth a'i ffyniant. Agor y gamlas o Ferthyr Tudful dros 200 mlynedd yn ôl yn 1798 oedd y trobwynt yn hanes Caerdydd, pan ddechreuodd ei chynnydd ysgytwol o fod yn dref farchnad i fod yn brifddinas. Yn ystod y blynyddoedd dilynol, bu i wageneidiau o haearn a glo o'r Cymoedd droi'r hen dref yn borthladd glo prysuraf y byd. Mae siopau teuluol ardderchog Caerdydd, ei chanolfan ddinesig urddasol a'i pharciau helaeth oll yn gynnyrch o'i pherthynas ffrwythlon â'r Cymoedd.

Today, all the people of Wales can take pride when they behold modern edifices such as the Millennium Stadium, or technical achievements such as the Cardiff Bay barrage. However, there is still concern over the possible effects on the environment of this development. The city has built on the national institutions laid down by the visionary leaders of the last century. Its status as a capital city has brought tens of thousands of jobs; in business headquarters, the media, devolved government bodies, agencies and a host of cultural and educational organisations.

Heddiw, gall holl bobl Cymru deimlo balchder pan welant adeiladau modern fel Stadiwm y Mileniwm, neu orchestion technegol fel morglawdd Bae Caerdydd. Fodd bynnag, mae pryder o hyd ynghylch effeithiau posibl y datblygiad hwn ar yr amgylchedd. Mae'r ddinas wedi adeiladu ar sail y sefydliadau cenedlaethol a osodwyd gan arweinyddion gweledigaethol y ganrif ddiwethaf. Mae ei statws fel prifddinas wedi dod â degau o filoedd o swyddi; mewn pencadlysoedd busnes, y cyfryngau, cyrff llywodraeth ddatganoledig, asiantaethau a llu o gyrff diwylliannol ac addysgol.

Ond, mewn rhai mannau, mae 'Cardiffobia' yn rhy gyffredin. Y mae'n seiliedig ar dri gofid, a achosir gan gyfoeth cymharol y ddinas, y teimlad fod Caerdydd yn ddifater ynglŷn â'i rôl genedlaethol, a'r ofn y bydd Caerdydd ryw ddydd yn llyncu hanner poblogaeth Cymru.

Yet, in some quarters, 'Cardiffobia' is all too common. It is based on three anxieties, caused by the city's comparative prosperity, its perceived indifference to its national role and the fear that Cardiff will one day swallow up half the population of Wales.

Erbyn hyn, mae statws Amcan 1 yn gydnabyddiaeth fod angen i lefelau cyfoeth y Cymoedd a gorllewin Cymru gynyddu'n gynt na rhai Caerdydd a gweddill Cymru. Dylai hyn gael gwared ar ofidiau'r rhai sydd yn bryderus fod Caerdydd bob amser yn derbyn darn gor-hael o'r deisen.

By now, Objective 1 status is a recognition that levels of prosperity in the Valleys and west Wales need to increase at a more rapid pace than those in Cardiff and the rest of Wales. That should help assuage the fears of those who are concerned that Cardiff will always receive an over-generous slice of the cake.

The question of Cardiff's perceived indifference to its national role needs to be addressed more fully. Capital cities acquire privileges—the privilege of being the centre of government and the home of many other national institutions, with the status and high

Mae angen ymdrin yn helaethach â'r teimlad bod Caerdydd yn ddifater ynghylch ei rôl genedlaethol. Mae prifddinasoedd yn ennill breintiau—y fraint o fod yn ganolfan i lywodraeth ac yn gartref i lawer iawn o sefydliadau cenedlaethol eraill, gyda'r statws

quality jobs that accompany that. However, the privileges of capital cities do not come without responsibilities. Capital cities have responsibilities to the whole nation. National institutions, which are largely but not exclusively located in the capital city, provide a focus for the cultural, spiritual and civic needs and aspirations of the nation. Thus, press and media reports in other countries usually show a picture of Cardiff when referring to Wales. The image of Wales that people in other countries have is gleaned more often than not from the impression created by the capital city. Cardiff is therefore charged with the responsibility of portraying the nation in its best light.

a'r swyddi o ansawdd uchel a ddaw gyda hynny. Fodd bynnag, ni ddaw breintiau prifddinasoedd heb gyfrifoldebau. Mae gan brifddinasoedd gyfrifoldebau tuag at y genedl gyfan. Mae'r sefydliadau cenedlaethol, sydd wedi eu lleoli'n bennaf ond nid yn gyfan gwbl yn y brifddinas, yn darparu ffocws i anghenion a dyheadau diwylliannol, ysbrydol a dinesig y genedl. Felly, wrth gyfeirio at Gymru, mae adroddiadau yn y wasg ac ar y cyfryngau mewn gwledydd eraill fel arfer yn dangos llun o Gaerdydd. Mae'r ddelwedd o Gymru a ffurfir gan bobl mewn gwledydd eraill yn deillio'n amlach na pheidio o'r argraff a greir gan y brifddinas. Mae Caerdydd wedi ei hymddiried felly â'r cyfrifoldeb o bortreadu'r genedl ar ei gorau.

If the streets of Cardiff after an international match are shown on television abroad—as they were shown in the *South Wales Echo* last night—as being littered and grubby then the image of Wales as a whole is tarnished. The attraction of overseas visitors, for example, to Llandudno or Tenby, will be influenced to a considerable extent by Cardiff's international stature.

Os dangosir strydoedd Caerdydd ar ôl gêm ryngwladol ar deledu dramor—fel y'u dangoswyd yn y *South Wales Echo* neithiwr—yn aflêr ac yn frwnt fe lychwinir delwedd Cymru gyfan. Bydd statws rhyngwladol Caerdydd yn effeithio'n helaeth ar atyniad Llandudno neu Ddinbych y Pysgod, er enghraifft, i ymwelwyr tramor.

The Assembly also has a similar responsibility here. When rugby fans from England and overseas complain about arrangements at Cardiff's central station, they do not realise that Wales does not have control of railways. However, that does not lessen the Assembly's responsibility to demand a strategic rail authority so that we are not portrayed again as a country with a third-rate railway service.

Mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb tebyg yn hyn o beth. Pan fydd cefnogwyr rygbi o Loegr a thramor yn cwyno am drefniadau yng ngorsaf ganolog Caerdydd, ni sylweddolant nad oes gan Gymru reolaeth ar reilffyrdd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n lleihau cyfrifoldeb y Cynulliad i fynnu awdurdod rheilffyrdd strategol fel na chawn ein portreadu eto'n wlad â gwasanaeth rheilffyrdd trydedd-radd.

4:58 p.m.

Similarly, stories such as the one of a coach from Ynys Môn taking seven hours to reach the Cardiff Singer of the World contest, would not encourage overseas visitors to come here or induce Welsh people to travel between north and south Wales. I hope that we will take seriously our responsibility to make our capital city accessible to all parts of Wales and to make Wales more accessible to the rest of the world through supporting the development of links to our national airport.

Yn yr un modd, ni fydd hanesion fel yr un am goets o Ynys Môn yn cymryd saith awr i gyrraedd cystadleuaeth Canwr y Byd yng Nghaerdydd, yn denu ymwelwyr tramor nac yn cymell pobl Cymru i deithio rhwng gogledd a de Cymru. Gobeithiaf y byddwn o ddifrif ynghylch ein cyfrifoldeb i wneud ein prifddinas yn hygyrch i bob rhan o Gymru ac yn fwy hygyrch i weddill y byd drwy gefnogi datblygiad cysylltiadau â'n maes awyr cenedlaethol.

The absence of the city's civic leaders during the crucial devolution referendum conveyed a

Yr oedd absenoldeb arweinyddion dinesig y ddinas yn ystod y refferendwm tyngedfennol

message of indifference to observers. So too, did the unnecessary farce over the location of the Assembly and the manner in which the fate of important national institutions such as the Maritime and Industrial Museum and the Empire Pool were treated with so little regard. The Cardiff Bay Development Corporation has also shown indifference to the special role of the capital city. The development of the Bay, while enhancing many derelict areas and creating a buzz, is also notable for the new street names introduced, which suggest open contempt for the history of Cardiff and Wales. Raleigh and Drake, obscure names such as Haxby Court and fabricated descriptions such as Mermaid's Quay, seem to have been chosen from a Sussex estate agent's gazetteer of likely names with a view to disguise the past history of a great Welsh port. I suggest that the rather contrived and unimaginative name for the road fronting the Assembly, Pierhead Street, should be removed and the road renamed Heol Owain Glyndŵr to commemorate his heroic struggle for Wales, of which the year 2000 is the six hundredth anniversary. It would also serve to establish the link between our last parliament and our new Assembly.

ar ddatganoli'n cyfleu neges o ddifaterwch i sylwebyddion. Felly hefyd yr oedd y ffars ddiangen ynghylch lleoliad y Cynulliad a'r modd y buwyd mor anystyriol o dynged sefydliadau cenedlaethol pwysig fel yr Amgueddfa Diwydiant a Môr a phwll nofio'r Empire. Mae Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd hefyd wedi dangos difaterwch ynghylch rôl arbennig y brifddinas. Mae datblygiad y Bae wedi gwella llawer o ardaloedd adfeiliedig ac yn creu berw, ond mae hefyd yn nodedig am yr enwau strydoedd newydd a gyflwynwyd, sydd yn awgrymu dirmyg llwyr tuag at hanes Caerdydd a Chymru. Raleigh a Drake, enwau astrus fel Haxby Court a disgrifiadau ffug fel Cei'r Fôr-forwyn, sydd yn ymddangos eu bod wedi eu dewis o restr o enwau tebygol gan werthwr tai yn Sussex er mwyn cuddio hanes porthladd mawr Cymreig. Awgrymaf y dylid dileu'r enw ffuantus a diddychmyg braidd ar y ffordd o flaen y Cynulliad, Stryd Pierhead, ac ailenwi'r ffordd yn Heol Owain Glyndŵr i goffáu ei frwydr arwrol dros Gymru, y dethlir ei chwechanmlwyddiant yn y flwyddyn 2000. Byddai hefyd yn fodd i sefydlu'r cysylltiad rhwng ein senedd ddiwethaf a'n Cynulliad newydd.

Past civic leaders of Cardiff also demonstrated this indifference by trying to expunge the enormous contribution made by our small nation to the industrial revolution. Cardiff docks once boasted over 100 coal hoists, which unloaded the contents of rail trucks into waiting ships. It is hard to envisage that anyone who felt an ounce of pride for the history of this once great port, would not have ensured that at least one coal hoist was retained as a reminder of Cardiff's former position as the world's leading coal port and the central role of the people of the coal mining valleys in fuelling merchant shipping in countries around the globe. Anything and everything that detracts from the image of our capital city, detracts also from the image of Wales as a whole and therefore from each and every part of it.

Mae arweinyddion dinesig Caerdydd y gorffennol wedi dangos y difaterwch hwn hefyd drwy geisio dileu'r cyfraniad aruthrol a wnaethpwyd gan ein cenedl fach ni i'r chwyldro diwydiannol. Ar un adeg yr oedd dros 100 o graeniau glo yn nociau Caerdydd, oedd yn dadlwytho cynnwys y wagenni rheilffordd i'r llongau oedd yn eu disgwyl. Anodd yw dychmygu na fyddai neb a chanddo owns o falchder yn hanes yr hyn a fu unwaith yn borthladd gwych wedi sicrhau y cedwid o leiaf un craen glo i'n hatgoffa o safle blaenorol Caerdydd yn brif borthladd glo'r byd a rôl ganolog pobl y cymoedd glofaol wrth gyflenwi tanwydd i longau masnach mewn gwledydd ar draws y byd. Mae popeth sydd yn amharu ar ddelwedd ein prifddinas yn amharu hefyd ar ddelwedd Cymru gyfan a drwy hynny ar ddelwedd pob rhan ohoni.

The third 'Cardiffobia', the fear of the ever-expanding conurbation, needs to be resolved, as it leads us to issues that should be addressed as a matter of urgency. Dr Phil

Mae'r trydydd math o 'Cardiffobia', sef ofn cytrefiad sydd yn ehangu o hyd, yn un y dylid ei ddatrys, gan ei fod yn ein harwain at faterion y dylid rhoi sylw iddynt fel mater o

Cooke, John Osmond and others have argued in a scholarly fashion that Wales needs a centre of population of around 500,000 in order to provide a market that will create international interest and impact, and establish an identity within a European context. Cardiff's population stands at 320,000, and there are hopefully not many here who wish to see it grow to 500,000 and create a ribbon-like conurbation stretching from Newport to Barry.

frys. Mae Dr Phil Cooke, John Osmond ac eraill wedi dadlau'n ysgolheigaidd bod ar Gymru angen canolfan boblogaeth o ryw 500,000 er mwyn darparu marchnad a fydd yn creu diddordeb ac effaith ryngwladol, ac yn sefydlu hunaniaeth oddi mewn i gyd-destun Ewropeaidd. Poblogaeth Caerdydd ar hyn o bryd yw 320,000, a gobeithiaf nad oes llawer yma sydd am weld honno'n cynyddu i 500,000 gan greu cytref strimynnog yn ymestyn o Gasnewydd i'r Barri.

However, within the compact region formed by the Valleys that converge on Cardiff and in the Vale, there is already a population of one million. Huge areas of deprivation prevent this region from exercising the economic influence one might expect of a conurbation of such a population. There is an enormous disparity between the wealthier suburbs of Cardiff and the Valleys. The paucity in the Valleys of good amenities, prime institutions, fine buildings, good housing, high quality jobs and modern transport links acts as a barrier to the development of the potential presented by the region's concentration of population. However, given a regional plan for the use of Objective 1 funding, with a modern transport system, better distribution of service and manufacturing industries, the sensitive development of the area's natural attractions, and the discerning location of new centres and institutions, this area could be gradually transformed into a unique metropolitan region.

Fodd bynnag, o fewn y rhanbarth cryno a ffurfir gan y Cymoedd sydd yn cydgyfarfod yng Nghaerdydd ac yn y Fro, fe geir eisoes boblogaeth o un filiwn. Mae ardaloedd difreintiedig anferth yn atal y rhanbarth hwn rhag arfer y dylanwad economaidd y gellid ei ddisgwyl oddi wrth gytrefiad â'r fath boblogaeth. Mae gwahaniaeth enfawr rhwng maestrefi cyfoethocaf Caerdydd a'r Cymoedd. Mae'r prinder a geir yn y Cymoedd o fwynderau da, sefydliadau pwysig, adeiladau cain, tai da, swyddi o ansawdd uchel a chysylltiadau trafnidiaeth modern yn rhwystr rhag datblygu'r potensial a geir yn y crynhoad o boblogaeth yn y rhanbarth. Fodd bynnag, o gael cynllun rhanbarthol i ddefnyddio arian Amcan 1, gyda system drafnidiaeth fodern, gwell dosbarthiad o ddiwydiannau gwasanaethu a chynhyrchu, datblygu sensitif ar atyniadau naturiol yr ardal, a lleoli canolfannau a sefydliadau newydd yn ddoeth, fe ellid trawsffurfio'r ardal hon yn raddol yn rhanbarth metropolitanaidd unigryw.

Modernisation of existing railway systems throughout most of the area and the wide use of park and ride schemes could obviate the need for major trunk road construction.

Trwy foderneiddio'r systemau rheilffyrdd presennol drwy'r rhan fwyaf o'r ardal a defnydd helaethach o gynlluniau parcio a theithio, gellid dileu'r angen am waith adeiladu cefnffyrdd helaeth.

A Welsh baccalaureate pilot scheme aimed at giving skills to the workforce could set the trend for an enterprising development in education throughout Wales. Regeneration schemes could help to accelerate the process of re-greening the Valleys thus making them more appealing as tourist attractions, as locations for service industries and sites for film productions.

Byddai cynllun bagloriaeth Gymreig er mwyn rhoi medrau i'r gweithlu yn gallu arwain y ffordd ar gyfer datblygiad mentrus mewn addysg ym mhob cwr o Gymru. Gallai cynlluniau adfywio fod o gymorth er mwyn cyflymu'r broses o ail-lasu'r Cymoedd gan gynyddu eu hapêl fel atyniadau i dwristiaid, fel safleoedd ar gyfer diwydiannau gwasanaethu a lleoliadau ar gyfer cynyrchiadau ffilm.

Spreading prosperity to the Valleys would, at

Wrth ledaenu ffyniant i'r Cymoedd byddid

one and the same time, dispel much 'Cardiffobia' and build up the region's overall economic strength. Cardiff would benefit hugely from the increased spending power of the population in its surrounding area. Wales would also benefit from an emerging metropolis that would eventually be capable of providing services, which hitherto were only available over the border, and of acting as a vibrant centre for the spread of initiatives to all of Wales.

yn dileu llawer o'r 'Cardiffobia' ac yn datblygu cryfder economaidd cyffredinol y rhanbarth. Byddai Caerdydd yn elwa'n aruthrol o bŵer gwario cynyddol y boblogaeth yn yr ardal o'i chwmpas. Byddai Cymru hefyd yn elwa o fetropolis ddatblygol a fyddai yn y pen draw yn gallu darparu gwasanaethau nad oeddent ond ar gael cynt yr ochr draw i'r ffin, a bod yn ganolfan egnïol er mwyn lledaenu mentrau newydd i bob rhan o Gymru.

It is important for the future prosperity of Wales that city leaders in Cardiff show more awareness of the capital's wider responsibility. Also, other parts of Wales must show an understanding of the need for a strong capital city that conveys an enterprising, progressive image of Wales to the world. In looking to the future, let us learn to celebrate our past achievements and recognise that a strong capital, aware of its privileges and national responsibilities, is an essential component of a successful nation.

Mae'n bwysig er mwyn ffyniant economaidd Cymru yn y dyfodol i arweinyddion dinas Caerdydd amlygu mwy o ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb ehangach y brifddinas. Hefyd, rhaid i rannau eraill o Gymru ddangos dealltwriaeth o'r angen am brifddinas gref sydd yn cyfleu delwedd fentrus, flaengar o Gymru i'r byd. Wrth edrych tua'r dyfodol, gadewch inni ddysgu i ddathlu ein gorchestion yn y gorffennol a sylweddoli bod prifddinas gref, sydd yn ymwybodol o'i breintiau a'i chyfrifoldebau cenedlaethol, yn elfen hanfodol mewn cenedl lwyddiannus.

Jenny Randerson: I thank Owen John Thomas for proposing this motion. It is time for us to bring the undercurrents that exist beneath some of our debates to the fore. I also thank him for highlighting that we must recognise that the leadership of any capital city should be a two-way process: the capital city gains from its surrounding area, but must also give back to it. The leadership of Cardiff must be sensitive to the need to give back to its surrounding area. Understandably, there is jealousy of Cardiff in other parts of Wales. Some of that jealousy is wrongly placed. I received information from the Library today that highlighted that in Adamsdown, a ward in my constituency, 370 people claim unemployment benefit and in Pentwyn, also in my constituency, 441 people claim unemployment benefit. These are not prosperous areas with fine buildings and the best that life has to offer. These are areas where people live difficult lives.

Jenny Randerson: Diolchaf i Owen John Thomas am gynnig y cynnig hwn. Mae'n bryd inni ddod â'r isgerhyntau a geir o dan rai o'n dadleuon i'r golwg. Diolchaf iddo hefyd am bwysleisio bod yn rhaid inni sylweddoli y dylai arweiniad unrhyw brifddinas fod yn broses ddwyffordd: bydd y brifddinas yn elwa o'r ardal o'i chwmpas, ond rhaid iddi roi cyfraniad yn ôl iddi. Rhaid i arweinyddiaeth Caerdydd fod yn sensitif i'r angen i roi yn ôl i'r ardal o'i chwmpas. Fel y gellid disgwyl, ceir cenfigen wrth Gaerdydd mewn rhannau eraill o Gymru. Mae rhywfaint o'r genfigen honno'n ddi-sail. Derbyniais wybodaeth oddi wrth y Llyfrgell heddiw sydd yn dangos bod 370 o bobl yn hawlio budd-dal diweithdra yn Adamsdown, sydd yn ward yn f'etholaeth i, a 441 yn hawlio budd-dal diweithdra ym Mhentwyn, sydd hefyd yn f'etholaeth. Nid ardaloedd llewyrchus ac ynddynt adeiladau cain a'r gorau y gellir ei gael mo'r rhain. Mae'r rhain yn ardaloedd lle y bydd pobl yn cael bywyd yn anodd.

Owen also mentioned the importance of transport. It is nice to be a small nation and have a small capital. I like Cardiff the size it is, I do not want it to grow. However, if

Soniodd Owen hefyd am bwysigrwydd trafnidiaeth. Braf yw bod yn genedl fach gyda phrifddinas fach. Hoffaf Gaerdydd ar ei maint presennol, ac nid wyf am iddi dyfu.

Cardiff is to grow in population, we must be aware of the traffic gridlock it will face and introduce an integrated transport policy.

Fodd bynnag, os ceir cynnydd ym mhoblogaeth Caerdydd, rhaid inni fod yn ymwybodol o'r clofeydd traffig y bydd yn eu hwynebu a chyflwyno polisi trafnidiaeth integredig.

Leadership in any city in Britain must be by example. City leaders should not be jealous of or worried about other institutions. It is sad that there has been resentment of the Assembly's location in Cardiff, rather than an embracing of it and a recognition that it will bring prosperity and maturity to Wales as a nation. The Assembly must take the lead in ensuring that there is co-operation between Cardiff and its travel-to-work areas: the Valleys, the Vale of Glamorgan and as far as, and beyond, Swansea. Cardiff must interlink with these places. A mature capital must be developed for a mature nation.

Rhaid i'r arweinyddiaeth mewn unrhyw ddinas ym Mhrydain fod yn esiampl. Ni ddylai arweinyddion y ddinas fod yn genfigennus wrth sefydliadau eraill neu boeni yn eu cylch. Mae'n drist bod drwgdeimlad ynghylch lleoli'r Cynulliad yng Nghaerdydd, yn hytrach nag awydd i'w dderbyn a chydnabyddiaeth y bydd yn dod â ffyniant ac aeddfedrwydd i Gymru fel cenedl. Rhaid i'r Cynulliad achub y blaen wrth sicrhau bod cydweithrediad rhwng Caerdydd a'i hardaloedd teithio i'r gwaith: y Cymoedd, Bro Morgannwg ac mor bell ag Abertawe a thu hwnt. Rhaid i Gaerdydd gydgysylltu â'r mannau hynny. Rhaid datblygu prifddinas aeddfed ar gyfer cenedl aeddfed.

David Melding: The continued vitality of Cardiff and the different phases of its growth are a great matter of pride for us all. Owen John Thomas is to be congratulated on raising this issue. I will make a few remarks on cultural matters.

David Melding: Mae bywiogrwydd parhaus Caerdydd a gwahanol gyfnodau ei thwf yn destun balchder i bawb ohonom. Mae Owen John Thomas i'w longyfarch am godi'r mater hwn. Rhoddaf ychydig o sylwadau ar faterion diwylliannol.

5:08 p.m.

In 2008, Britain will be able to designate the European City of Culture. It is important that we lobby Chris Smith to ensure that Cardiff is considered for that honour. It would be impressive if the National Assembly for Wales could back a single Welsh bid. Obviously, one understands that there will be competition. However, the cultural renaissance that Cardiff is enjoying marks it out as a European capital of great distinction. Remarks have already been made about our civic centre. I wonder how many of us really reflect on the fact that it is, perhaps, the greatest planned civic centre in western Europe. It is of the neo-baroque style and it is the most outstanding example of that style of architecture.

Yn 2008, bydd Prydain yn gallu dynodi Dinas Ddiwylliant Ewrop. Mae'n bwysig inni lobïo Chris Smith i sicrhau y caiff Caerdydd ei hystyried ar gyfer y fraint honno. Byddai'n creu argraff pe gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gefnogi un cais o Gymru. Wrth gwrs, mae rhywun yn derbyn y bydd cystadleuaeth. Fodd bynnag, mae'r dadeni diwylliannol a welir yng Nghaerdydd yn golygu ei bod yn brifddinas Ewropeaidd nodedig iawn. Cafwyd sylwadau eisoes ar ein canolfan ddinesig. Tybed faint ohonom sydd wedi ystyried y ffaith mai hon, efallai, yw'r ganolfan ddinesig gynlluniedig wychaf yng ngorllewin Ewrop. Mae yn yr arddull neo-baróc a hon yw'r enghraifft fwyaf arbennig o'r arddull bensaernïol honno.

As far as culture is concerned, the Millennium Stadium has already proven itself a great success in the Rugby World Cup. We look forward to the Wales Millennium Centre, which will be in place by 2008. There

O ran diwylliant, mae Stadiwm y Mileniwm eisoes wedi profi'n llwyddiant mawr yng Nghwpan Rygbi'r Byd. Edrychwn ymlaen at weld Canolfan Mileniwm Cymru, a sefydlir erbyn 2008. Gellir sôn am Opera

is the Welsh National Opera and the outstanding St David's concert hall. All these point to a strong and impressive bid for the European City of Culture. I hope that the Assembly will support Cardiff in that bidding process.

Cenedlaethol Cymru a neuadd gyngerdd wych Dewi Sant. Mae'r holl bethau hyn yn awgrymu y byddai cais i fod yn Ddinas Ddiwylliant Ewrop yn un cryf a thrawiadol. Gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn cefnogi Caerdydd yn y broses ymgeisio honno.

Sue Essex: I will talk about the past before I talk about the future. Cardiff is a modern, vibrant city. The World Cup demonstrated that more than anything else, with streets full of people from countries all over the world. That, as Owen says, also reflects the past history of Cardiff. However, I want to point out that that did not happen by accident.

Sue Essex: Soniaf am y gorffennol cyn imi sôn am y dyfodol. Mae Caerdydd yn ddinas fodern, fywiog. Mae Cwpan y Byd wedi dangos hynny'n fwy na dim, a'r strydoedd yn llawn o bobl o wledydd ar draws y byd. Mae hynny hefyd, fel y dywed Owen, yn adlewyrchu hanes Caerdydd. Fodd bynnag, yr wyf am nodi na ddigwyddodd hyn drwy ddamwain.

When I first came to Cardiff nearly 30 years ago the city was depressed. I pay tribute to Phillip Dunleavy and John Reynolds, former leaders of Cardiff City Council. They had great integrity and modesty but also a vision for this city. They laid the foundation for Cardiff as a modern city. Those of us who came after have benefited from their work.

Pan ddeuthum i Gaerdydd gyntaf bron 30 mlynedd yn ôl yr oedd y ddinas yn ddirwasgedig. Talaf deyrnged i Phillip Dunleavy a John Reynolds, cyn-arweinyddion Cyngor Dinas Caerdydd. Yr oeddent yn unplyg ac yn ddiymhongar iawn ond yr oedd ganddynt weledigaeth fawr ar gyfer y ddinas hon hefyd. Hwy a osododd y sylfaen i Gaerdydd fel dinas fodern. Mae'r rhai ohonom a ddaeth ar eu hôl wedi elwa ar eu gwaith.

Owen, you do a disservice to the people of Cardiff when you say that they do not recognise that so much of the wealth of this city was created on the back of the Valleys. I collected money for the miners during the 1984 strike and there was no reluctance on the part of people in this city to give money. They were supportive. I was leader of the city when we gave the freedom of the city to the miners. That was a source of pride for everyone in Cardiff. People in Cardiff appreciate from where the wealth of the city came.

Owen, yr ydych yn gwneud anghymwynas â phobl Caerdydd pan ddywedwch nad ydynt yn cydnabod bod cymaint o gyfoeth y ddinas hon wedi ei greu drwy waith y Cymoedd. Cesglais arian i'r glowyr yn ystod y streic yn 1984 ac nid oedd unrhyw amharodrwydd ar ran pobl y ddinas hon i roi arian. Yr oeddent yn gefnogol. Fi oedd arweinydd y ddinas pan roesom ryddfraint y ddinas i'r glowyr. Yr oedd hynny'n peri balchder i bawb yng Nghaerdydd. Mae pobl Caerdydd yn deall o ble y daeth cyfoeth y ddinas.

Cardiff is a relatively small capital and, as the saying goes, size matters. However, I agree with Owen that we do not necessarily need to become as large, proportionally, as Dublin is to Ireland or Lisbon is to Portugal. We have the opportunity to work with our neighbours and form the metropolitan region that he mentioned.

Prifddinas gymharol fach yw Caerdydd ac, fel y dywedir, mae maint yn cyfrif. Fodd bynnag, cytunaf ag Owen nad ydym o reidrwydd am fod yn gymaint, yn gyfrannol, ag y mae Dulyn i Iwerddon neu Lisbon i Bortiwgal. Mae gennym gyfle i weithio gyda'n cymdogion a ffurfio'r rhanbarth metropolitanaidd y soniodd amdano.

Before the election, I said that we needed a forum to decide how Cardiff could show its responsibility to the rest of Wales. That needs

Cyn yr etholiad, dywedais fod arnom angen fforwm i benderfynu sut y gallai Caerdydd ddangos ei chyfrifoldeb i weddill Cymru.

to happen. We are learning what it is to be a capital; Cardiff is still a comparatively new capital in European terms. We also need to learn, in this new political era of post-devolution Wales, what that means in terms of being the capital of the new Wales state.

Mae angen i hynny ddigwydd. Yr ydym yn dysgu'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn brifddinas; mae Caerdydd yn brifddinas gymharol newydd o hyd mewn termau Ewropeaidd. Mae angen inni ddysgu hefyd, yn yr oes wleidyddol newydd hon yng Nghymru ar ôl datganoli, beth y mae'n ei olygu i fod yn brifddinas i wladwriaeth newydd Cymru.

The First Secretary: It is my job to stand in for colleagues today. I stood in for Tom Middlehurst on the broadcasting debate and I now stand in for Rhodri Morgan, who I am sure would have given us a poem of praise to the capital city, were it not for the fact that he is in a ministerial meeting in London.

Y Prif Ysgrifennydd: Fy ngwaith i yw cymryd lle cydweithwyr heddiw. Cymerais le Tom Middlehurst yn y ddadl ar ddarlledu ac yr wyf yn awr yn cymryd lle Rhodri Morgan, a fyddai wedi rhoi cân o glod i'r brifddinas, yr wyf yn siŵr, pe na bai mewn cyfarfod gweinidogol yn Llundain.

I love Cardiff. I came here 33 years ago and I have never wanted to leave. However, it is a different city today, a growing and living one. Furthermore, it is a different city to the one I praised in my maiden speech in the House of Commons 12 years ago. However, it remains a series of communities with their different strengths and various personalities as well as a city that aspires to become, and is rapidly becoming, a European capital.

Yr wyf yn caru Caerdydd. Deuthum yma 33 mlynedd yn ôl ac nid wyf erioed wedi dymuno gadael. Fodd bynnag, mae'n ddinas wahanol heddiw, un sydd yn byw ac yn tyfu. Yn ogystal â hynny, mae'n ddinas wahanol i'r un a ganmolais yn fy araith gyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin 12 mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, mae o hyd yn gyfres o gymunedau sydd â'u gwahanol gryfderau a'u hamrwyiol gymeriadau yn ogystal â bod yn ddinas sydd yn dyheu am fod yn brifddinas Ewropeaidd, ac yn cyflawni hynny'n gyflym.

I endorse Owen John Thomas's suggestion that Cardiff's role as capital city requires the exercise of national responsibilities and the recognition by the rest of the nation that we need a strong and prosperous capital conveying an enterprising and progressive image of Wales to the world. The whole of Wales needs this city's image to be a strong one. Like Owen, I felt a tremendous surge of pride as Cardiff succeeded in staging the Rugby World Cup. All credit to those who believed that the vision of a Millennium Stadium was worth fighting for even when we were unsure if we would have a team worthy of playing in it. The team this year may not have made it to the final, but they did us proud in the way that they played their games and enhanced the image of Wales and rugby.

Ategaf awgrym Owen John Thomas bod rôl Caerdydd fel prifddinas yn golygu'r angen i arfer cyfrifoldebau cenedlaethol a'r gydnabyddiaeth gan weddill y genedl fod arnom angen prifddinas gryf a ffyniannus sydd yn cyfleu delwedd fentrus a blaengar o Gymru i'r byd. Fel Owen, profais falchder aruthrol yn llwyddiant Caerdydd wrth lwyfannu Cwpan Rygbi'r Byd. Pob clod i'r rhai a gredodd fod y weledigaeth o Stadiwm y Mileniwm yn werth ymladd drosti hyd yn oed pan oeddem yn ansicr a fyddai gennym dîm oedd yn deilwng o chwarae ynddo. Efallai nad oedd y tîm wedi cyrraedd y gêm derfynol eleni, ond fe'n hanrhydeddasant drwy'r modd y bu iddynt chwarae eu gemau a gwella delwedd Cymru a rygbi.

Today, what we see in Cardiff is the culmination of 25 years of rebuilding a city that was devastated by the rundown of the old heavy steel and coal industries that made it

Heddiw, mae'r hyn a welwn yng Nghaerdydd yn ben llanw i 25 mlynedd o ailadeiladu dinas oedd wedi ei distrywio gan ddirywiad yr hen ddiwydiannau dur a glo trwm a'i

the biggest coal exporting port in the world. However, just as mining communities were damaged, some Cardiff communities were tremendously damaged by the economic downturn of recent years.

gwnaeth yn brif borthladd allforio glo'r byd. Fodd bynnag, yn yr un modd ag y niweidiwyd cymunedau glofaol, cafodd rhai o gymunedau Caerdydd eu niweidio'n enbyd gan y dirywiad economaidd mewn blynyddoedd diweddar.

Jane Davidson: I asked to contribute briefly to this debate because I find myself in a schizophrenic position. As everyone here knows, I represent Pontypridd but live in Cardiff. However, when part of mid Glamorgan and Taff Ely moved out of those areas at local government reorganisation, Cardiff gained three new communities: the villages of Gwaelod-y-Garth, Pentyrch and Creigiau. These new villages have a great deal to offer Cardiff. Many people across the world have seen the film *The Englishman Who Went Up a Hill and Came Down a Mountain*. Due to reorganisation in 1996, that mountain moved to Cardiff. We should celebrate that. Cardiff is a diverse city offering the most extraordinary access to the countryside as well as the other achievements mentioned already.

Jane Davidson: Gofynnais am gael cyfrannu'n fyr i'r ddadl hon oherwydd yr wyf yn fy ngweld fy hun mewn sefyllfa sgitsoffrenig. Fel y gŵyr pawb, yr wyf yn cynrychioli Pontypridd ond yn byw yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, pan symudwyd rhan o Forgannwg Ganol a Thaf Elái o'r ardaloedd hynny wrth ad-drefnu llywodraeth leol, fe enillodd Caerdydd dair cymuned newydd: pentrefi Gwaelod-y-Garth, Pentyrch a Chreigiau. Mae gan y pentrefi newydd hyn lawer i'w gynnig i Gaerdydd. Mae llawer o bobl ar draws y byd wedi gweld y ffilm *The Englishman Who Went Up a Hill and Came Down a Mountain*. O ganlyniad i'r ad-drefnu yn 1996, mae'r mynydd hwnnw wedi symud i Gaerdydd. Dylem ddathlu hynny. Mae Caerdydd yn ddinas amrywiol sydd yn cynnig y mynediad mwyaf rhyfeddol i gefn gwlad yn ogystal â'r gorchestion eraill a grybwyllwyd eisoes.

The First Secretary: Having countryside within the city and close to its boundaries is a strength. We should recall that the first £1 million cheque was signed only a few hundred yards away from here in what was once the biggest coal exporting port in the world. I welcome that in looking backwards, we can also look forwards and celebrate the work that has been done in the last 25 years. I am particularly pleased that Owen chose to celebrate a New Labour theme, that of rights and responsibilities, even if part of what he said was muddled slightly by over-simplification.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r ffaith bod gennym ardaloedd gwledig y tu mewn i'r ddinas ac yn agos i'w ffiniau yn gaffaeliad. Dylem gofio fod y siec gyntaf am £1 filiwn wedi ei harwyddo ddim ond rai cannoedd o lathenni oddi yma yn yr hyn a oedd unwaith yn borthladd allforio glo mwyaf y byd. Croesawaf y ffaith ein bod, wrth edrych yn ôl, yn gallu edrych ymlaen hefyd a dathlu'r gwaith a wnaethpwyd yn y 25 mlynedd diwethaf. Yr wyf yn arbennig o falch bod Owen wedi dewis dathlu un o themâu Llafur Newydd, sef hawliau a chyfrifoldebau, er bod rhan o'r hyn a ddywedodd wedi ei ddrysu braidd drwy orsymleiddio.

Being a capital city involves being a source of pride and shouldering a burden of responsibility. Cardiff Bay Development Corporation, for example, has made a significant contribution to this city. I have been the first to criticise the Corporation when I thought it was wrong. However, it recognised the interdependence of Cardiff and its surrounding communities by creating opportunities for people from Cynon Valley

Mae bod yn brifddinas yn golygu bod yn destun balchder ac ysgwyddo baich o gyfrifoldeb. Er enghraifft, mae Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd wedi gwneud cyfraniad o bwys i'r ddinas hon. Bûm y cyntaf i feirniadu'r Gorfforaeth pan dybiwn ei bod yn anghywir. Fodd bynnag, fe gydnabu gyd-ddibyniaeth Caerdydd a'r cymunedau o'i hamgylch drwy greu cyfleoedd i bobl o Gwm Cynon ac ardaloedd

and other areas to come here and see what jobs were available. It also recognised that job opportunities in Cardiff must be available to people from the Valleys, as the Valleys form part of the travel to work area, and its people provided the source of wealth that created Cardiff in its early days. That interdependence between Cardiff and the Valleys is important.

eraill ddod yma i weld pa swyddi oedd ar gael. Cydnabu hefyd fod rhaid i gyfleoedd gwaith yng Nghaerdydd fod ar gael i bobl o'r Cymoedd, gan fod y Cymoedd yn rhan o'r ardal teithio i'r gwaith, a chan mai ei phobl hi a ddarparai ffynhonnell y cyfoeth a greodd Gaerdydd yn ei dyddiau cynnar. Mae'r gyd-ddibyniaeth rhwng Caerdydd a'r Cymoedd yn bwysig.

5:18 p.m.

In praising the vision of the city's forefathers in the last century in creating our civic centre, we should also celebrate the vision of the last quarter century. Phillip Dunleavy was the first to say that we needed to take back the land that was lying, not exactly fallow, but dirty and unused in the hands of the old British Transport Docks Board, and that Cardiff should grow back into the centre of the city. That was a quarter of a century ago. People such as John Reynolds, to whom Sue Essex referred, had a vision of Cardiff as a real capital. Jack Brooks, who brought much to city politics, had a vision of escaping from the poverty that damaged so many of our young people. In order not to be partisan, I refer to Lord Crickhowell, Nicholas Edwards, or Old Nick as we used to call him, who forged the partnership between the Cardiff Bay Development Corporation and the leadership of Cardiff City and County Council. He said that the future of our capital city was bigger than political debate and that we should work together. Local government was given a role in the Cardiff Bay Development Corporation which was greater than that given to local government in development corporations in England. We have done things differently. There has been an element of partnership in how the city has been redeveloped over recent years.

Wrth ganmol gweledigaeth tadau'r ddinas yn y ganrif ddiwethaf wrth greu ein canolfan ddinesig, dylem hefyd ganmol gweledigaeth y chwarter canrif diwethaf. Phillip Dunleavy oedd y cyntaf i ddweud y dylem gymryd yn ôl y tir oedd yn aros, nid heb ei drin yn union, ond yn fudr ac yn segur yn nwylo'r hen Fwrdd Dociau Trafnidiaeth Prydeinig, ac y dylai Caerdydd dyfu'n ôl at ganol y ddinas. Yr oedd hynny chwarter canrif yn ôl. Yr oedd gan bobl fel John Reynolds, y cyfeiriodd Sue Essex ato, weledigaeth o Gaerdydd fel prifddinas wirioneddol. Yr oedd gan Jack Brooks, a gyfrannodd lawer i wleidyddiaeth y ddinas, weledigaeth o ddianc rhag y tlodi a niweidiodd gynifer o'n pobl ifainc. Er mwyn peidio â bod yn bleidiol, fe gyfeiriaf at Arglwydd Crickhowell, Nicholas Edwards, neu 'Old Nick' fel yr arferem ei alw, a greodd bartneriaeth rhwng Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ac arweinyddiaeth Cyngor Dinas a Sir Caerdydd. Dywedai fod dyfodol ein prifddinas uwchlaw dadleuon gwleidyddol ac y dylem gydweithio. Rhoddwyd rôl i lywodraeth leol yng Nghorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd oedd yn fwy na'r hyn a roddwyd i lywodraeth leol mewn corfforaethau datblygu yn Lloegr. Gwnaethom bethau'n wahanol. Bu elfen o bartneriaeth yn y modd yr ailddatblygwyd y ddinas dros y blynyddoedd diwethaf.

Owen John Thomas is right to suggest that there is 'Cardiffobia'. The Assembly has a responsibility to overcome that attitude, just as we have a responsibility to overcome suspicion between parts of Wales. As I have said on many occasions, and perhaps I can say this as a Gog who came south, north Wales is sometimes too narrow in fearing the weight of population and economic activity in the south. We need to reassure north, west and mid Wales. We hang together and we

Mae Owen John Thomas yn iawn wrth awgrymu bod 'Cardiffobia' yn bodoli. Mae cyfrifoldeb ar y Cynulliad i drechu'r agwedd honno, yn union fel y mae cyfrifoldeb arnom i oresgyn drwgdybiaeth rhwng gwahanol rannau o Gymru. Fel y dywedais ar lawer achlysur, ac efallai y caf ddweud hyn fel Gog a ddaeth i'r de, mae gogledd Cymru'n rhy gul ar brydiau wrth ofni pwysau'r boblogaeth a'r gweithgaredd diwydiannol yn y de. Mae angen inni dawelu meddwl gogledd,

are, and will be, successful together if we promote the economy of Wales as a whole. Objective 1 provides an opportunity to the Valleys, west Wales and large parts of north Wales. We all have a responsibility to make that work. We must see the city as a gateway. In tourism, as in economic development, a country's capital city is often the focus. People have heard of Stuttgart, even if they have not heard of Baden Württemberg. They have heard of Paris, even if they may not know other areas of France. The city of Cardiff should be used, valued, treasured and promoted. It carries responsibilities in having such status in Wales.

gorllewin a chanolbarth Cymru. Yr ydym yn glynu wrth ein gilydd ac yr ydym yn llwyddo, a byddwn yn llwyddo, gyda'n gilydd os byddwn yn hybu economi Cymru gyfan. Mae Amcan 1 yn rhoi cyfle i'r Cymoedd, gorllewin Cymru a rhannau helaeth o ogledd Cymru. Mae arnom oll gyfrifoldeb i wireddu hynny. Rhaid inni weld y ddinas fel mynedfa. Mewn twristiaeth, ac mewn datblygu economaidd hefyd, prifddinas y wlad yw'r canolbwynt yn aml. Mae pobl wedi clywed am Stuttgart, hyd yn oed os na chlywsant am Baden Württemberg. Clywsant am Baris, hyd yn oed os na wyddant am rannau eraill o Ffrainc. Dylai dinas Caerdydd gael ei defnyddio, ei gwerthfawrogi, ei thrysori a'i hybu. Mae ganddi gyfrifoldebau wrth gael y fath statws yng Nghymru.

Lorraine Barrett: You are being rather shy and retiring in not mentioning the contribution that you have made to this city. I would like to pay tribute to that contribution, made in your days as a councillor, when you were Chair of planning and Chair of finance on Cardiff City and County Council, and in your years as Member of Parliament for Cardiff South and Penarth.

Lorraine Barrett: Yr ydych braidd yn wylaidd wrth beidio â sôn am eich cyfraniad chi i'r ddinas hon. Hoffwn dalu teyrnged i'r cyfraniad hwnnw, a wnaethpwyd yn eich dyddiau fel cynghorydd, pan oeddech yn Gadeirydd cynllunio ac yn Gadeirydd cyllid ar Gyngor Dinas a Sir Caerdydd, ac yn eich blynyddoedd fel Aelod Seneddol dros Dde Caerdydd a Phenarth.

The First Secretary: Thank you. I feel proud to have been involved in the development of Cardiff. I hope that everybody in Wales will feel proud of the development of Cardiff, and that Cardiff will support the development of other parts of Wales. It should be noted that some of us in Cardiff supported the move of the Industrial and Maritime Museum to Swansea. Swansea deserved to have the museum as it cares for our maritime past. If you look outside this building, you can see the tree that was the last living thing seen by many mariners as they left Cardiff. It has been preserved by the Cardiff Bay Development Corporation. It was significant that the first meeting held in the Pierhead building after the Assembly took it over and renovated it, was of members of ethnic minority groups from across Wales. These were people whose forebears may have come into Cardiff past the Pierhead building but who probably would not have gone anywhere near its front door never mind inside the building. Perhaps this is, in some way, a celebration of the new Wales and our link

Y Prif Ysgrifennydd: Diolch i chi. Yr wyf yn ymfalchïo imi fod â rhan yn natblygiad Caerdydd. Gobeithiaf y bydd pawb yng Nghymru'n ymfalchïo yn natblygiad Caerdydd, ac y bydd Caerdydd yn cefnogi datblygiad rhannau eraill o Gymru. Dylid nodi bod rhai ohonom yng Nghaerdydd wedi cefnogi symud yr Amgueddfa Diwydiant a Môr i Abertawe. Yr oedd Abertawe'n haeddu cael yr amgueddfa gan fod ein hanes morwrol o bwys iddi. Os edrychwch y tu allan i'r adeilad hwn, gellwch weld y goeden a oedd y peth byw olaf a welai llawer o forwyr wrth iddynt adael Caerdydd. Fe'i cadwyd gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Yr oedd yn arwyddocaol mai'r cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd yn adeilad y Pierhead wedi i'r Cynulliad ei gymryd a'i adnewyddu, oedd un gan aelodau o grwpiau lleiafrifol ethnig o bob cwr o Gymru. Yr oedd y bobl hyn yn rhai yr oedd eu cyndadau efallai wedi dod i Gaerdydd heibio i adeilad y Pierhead ond na fuasent byth wedi mynd yn agos at ei ddrws ffrynt, yn ôl pob tebyg, heb sôn am fynd i mewn. Efallai fod hyn, ar ryw ystyr, yn fodd i

with our past.

ddathlu'r Gymru newydd a'n cysylltiad â'n gorffennol.

I am concerned about Owen's over-simplification of the divides within Cardiff. There are wealthy suburbs in Cardiff but the city also includes vibrant communities which have experienced severe deprivation over the years. I have worked in areas like Butetown, Llanrumney, Llanedeyrn and Ely. I have represented areas like Trowbridge and St Mellons, which continue to have problems. The Assembly must address these problems along with our partners in local government in the city, in the Valleys, in the rural areas, in north, west and central Wales. I would like to end on this note of consensus. Let us celebrate a capital city worthy of the name, worthy of Wales, and worthy of being described as a European capital. The capital city has a responsibility to the whole of Wales. Let us create a Wales that has a proper sense of the worth of its capital and also a proper sense of the worth of every town, village and area throughout the principality. Let us celebrate Wales and Cardiff as its capital.

Yr wyf yn bryderus ynghylch y modd y mae Owen yn gorsymleiddio'r rhaniadau oddi mewn i Gaerdydd. Fe geir maestrefi cyfoethog yng Nghaerdydd ond mae'r ddinas hefyd yn cynnwys cymunedau bywiog a brofodd amddifadedd dybryd dros y blynyddoedd. Gweithiais mewn ardaloedd fel Butetown, Llanrhymni, Llanedeyrn a Threlái. Cynrychiolais ardaloedd fel Trowbridge a Llaneirwg, sydd yn dal i brofi problemau. Rhaid i'r Cynulliad roi sylw i'r problemau hynny ynghyd â'n partneriaid mewn llywodraeth leol yn y ddinas, yn y Cymoedd, yn yr ardaloedd gwledig, yng ngogledd, gorllewin a chanolbarth Cymru. Hoffwn derfynu ar nodyn o gonsensws fel hyn. Gadewch inni ddathlu prifddinas sydd yn deilwng o'r enw, yn deilwng o Gymru, ac yn deilwng o gael ei disgrifio'n brifddinas Ewropeaidd. Mae ar y brifddinas gyfrifoldeb i Gymru gyfan. Gadewch inni greu Cymru sydd ag ymdeimlad priodol o werth ei phrifddinas ac ymdeimlad priodol hefyd o werth pob tref, pentref a bro drwy'r dywysogaeth. Gadewch inni ddathlu Cymru a Chaerdydd fel ei phrifddinas.

Y Llywydd: Daw hyn â'r sesiwn i ben. Mae argraffiad o ganlyniad y pleidleisiau ar gael os ydych yn dymuno ei gasglu ar y ffordd allan. Diolch yn fawr.

The Presiding Officer: That brings the proceedings to a close. A printout of the results of the votes is available should you wish to pick it up on the way out. Thank you.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.30 p.m.
The session ended at 5.30 p.m.